Nursing & Midwifery Council

# Y CYNGOR

# 24 MAI 2017

# Eitem 7: Fframwaith safonau ac addysg nyrs y dyfodol: ymgynghoriad

Eitem 7
NMC/17/42
24 Mai 2017

Nursing & Midwifery Council

# Cyngor

## Fframwaith safonau ac addysg nyrs y dyfodol: ymgynghoriad

| | |
|---|---|
| **Gweithredu:** | I'w benderfynu |
| **Mater:** | Ceisio cymeradwyaeth y Cyngor i ymgynghori ar safonau drafft ar gyfer nyrs y dyfodol; fframwaith addysg drafft a gofynion cysylltiedig |
| **Swyddogaethau rheoleiddiol craidd:** | Safonau Addysg |
| **Blaenoriaeth strategol:** | Blaenoriaeth strategol 1: Rheoleiddio effeithiol |
| **Penderfyniadau sydd eu hangen:** | **Gofynnir i'r Cyngor gymeradwyo ymgynghoriad ar:**<br>• **safonau medrusrwydd drafft nyrs gofrestredig y dyfodol**<br>• **fframwaith addysg drafft**<br>• **cynigion i fabwysiadu Fframwaith cymhwysedd unigol i bawb sy'n presgripsiynu Y Gymdeithas Fferyllol Frenhinol fel ein safonau medrusrwydd ar gyfer nyrsys a bydwragedd sy'n presgripsiynu**<br>• **cynigion i ddiddymu ein Safonau rheoli meddyginiaethau** |
| **Atodiadau:** | Atodir yr atodiadau canlynol:<br>• **Atodiad 1:** Safonau medrusrwydd drafft nyrs gofrestredig y dyfodol<br>• **Atodiad 2:** Fframwaith addysg drafft ar gyfer AEIau, lleoliadau gwaith a phartneriaid yn y gweithle.<br>• **Atodiad 3:** Safonau addysg a hyfforddiant drafft mewn perthynas â dysgu theori ac ymarfer, yn cynnwys model dysgu ac asesu drafft newydd.<br>• **Atodiad 4**: Gofynion rhaglen drafft er mwyn tanategu safonau medrusrwydd drafft nyrs gofrestredig y dyfodol<br>• **Atodiad 5:** Gofynion rhaglen drafft er mwyn tanategu rhaglenni presgripsiynu ar gyfer nyrsys a bydwragedd sy'n presgripsiynu.<br>• **Atodiad 6**: Fframwaith *cymhwysedd unigol i bawb sy'n presgripsiynu Y Gymdeithas Fferyllol Brydeinig.*<br>• **Atodiad 7***:* Cwestiynau ymgynghoriad arfaethedig. |

**Mwy o Wybodaeth:** Os ydych angen eglurhad ar unrhyw bwynt yn y papur, neu os dymunwch gael mwy o wybodaeth, cysylltwch â'r awdur neu'r cyfarwyddwr a enwir isod.


Awdur: Anne Trotter
Ffôn: 020 7681 5779
anne.trotter@nmc-uk.org

Cyfarwyddwyr: Yr Athro Geraldine Walters CBE
Ffôn: 020 7681 5924
geraldine.walters@nmc-uk.org

**Cyd-destun:**

1 Mae Strategaeth y Cyngor 2015-2020 yn nodi ein huchelgais i fod yn rheoleiddiwr deinamig sy'n edrych i'r dyfodol, sy'n rheoleiddio ar gyfer anghenion y dyfodol drwy ragdybio, siapio ac ymateb i ddisgwyliadau newydd. Mae hynny'n rhan ganolog o'n hymagwedd tuag at ddatblygu safonau addysg newydd uchelgeisiol, a hyfforddi'r proffesiynau.

2 Mae sicrhau bod y safonau yr ydym yn eu pennu ar gyfer addysg a hyfforddiant yn cynhyrchu newydd-ddyfodiaid i'r proffesiwn sy'n gallu bodloni anghenion cleifion a'r cyhoedd - nid heddiw yn unig, ond yn y dyfodol hefyd - yn rhan allweddol o'n pwrpas craidd mewn perthynas â diogelu'r cyhoedd.

3 Hysbyswyd ein gwaith gan gyflymder y newid ar draws y sectorau iechyd, gofal ac addysg ar draws y DU. Mae hynny'n cynnwys yr ymrwymiad cynyddol i ddarparu gofal sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn; darparu gofal sy'n agosach i'r cartref; a ffocws sylweddol ar hyrwyddo iechyd a llesiant. Hefyd mae newidiadau ar lefel systemau yn siapio amgylcheddau iechyd a gofal i'r dyfodol, yn cynnwys newid tuag at ofal iechyd a chymdeithasol integredig; gwneud y mwyaf o ddatblygiadau technolegol a meddygol, rolau newydd a gweithio'n effeithiol ac effeithlon mewn timau amlddisgyblaethol. Hefyd, wrth ddatblygu'r gwaith hwn, ystyriwyd newidiadau yn y sector addysg uwch, yn ogystal â chyfleoedd cynyddol mewn amrywiaeth o fannau mynediad i bobl o bob cefndir gael mynediad i hyfforddiant proffesiynol.

4 Rydym yn ddyledus i'r Athro Y Fonesig Jill Macleod Clark sydd wedi arwain y gwaith ar safonau drafft newydd ar gyfer nyrs y dyfodol. Gyda'r Fonesig Jill, rydym wedi ymgysylltu'n helaeth gyda nyrsys, myfyrwyr, cyflogwyr ac addysgwyr ar draws y pedair gwlad er mwyn creu darlun o ddisgwyliadau rhanddeiliaid ynghylch y wybodaeth a'r cymwyseddau y dylai nyrs sydd newydd gymhwyso allu eu harddangos.

5 Roedd hynny yn adeiladu ar werthusiad annibynnol o safonau cyn cofrestru oedd yn bodoli ar gyfer nyrsys a bydwragedd, oedd yn cynnwys cymorth ar gyfer dysgu ac asesu. Mae'r gwerthuso a'r gweithgaredd ymgysylltu dilynol gyda'i gilydd wedi cynnwys:

5.1 Tua 40 o drafodaethau grŵp, 135 o gyfweliadau manwl; arolwg o dros 2,000 o aelodau o'r cyhoedd; arolwg o bron i 3,500 o fyfyrwyr a rhai oedd newydd gofrestru.

5.2 Digwyddiadau ymgysylltu eang â rhanddeiliaid a gweithdai ar draws y pedair gwlad. Cydweithredu â nyrsys ac eraill a gwaith dilynol mewn meysydd allweddol er mwyn clywed mwy am dystiolaeth ac ymchwil nyrsio, ac er mwyn ceisio adborth ar rai o'n tybiaethau gweithredu a syniadau

newydd.

5.3 Ymgysylltu ag arweinwyr proffesiynol drwy ein Bwrdd Nyrs y Dyfodol, yn ogystal â mewnbwn parhaus gan grŵp arwain syniadau o uwch weithwyr proffesiynol ac arbenigwyr.

5.4 Archwilio sut mae rheoleiddwyr rhyngwladol yn pennu safonau ar gyfer nyrsio mewn gwledydd eraill.

6 Mae rhai o'r materion y bu i ni eu canfod drwy ein gweithgareddau ymgysylltu, y dylid ymdrin â hwy yn y safonau newydd, yn cynnwys:

6.1 Pennu lefel uwch o sgiliau a medrau, cydnabod rôl nyrsys wrth arwain a chydlynu gofal, yn aml mewn timau amlddisgyblaethol, sy'n seiliedig ar dystiolaeth, sy'n dosturiol ac wedi'i deilwra i anghenion unigol pob unigolyn.

6.2 Galluogi nyrsys sydd newydd gymhwyso i weithio'n hyblyg ar draws ystod o sefydliadau gofal er mwyn bodloni anghenion newidiol pobl a chleifion.

6.3 Gwella hyder nyrsys a bydwragedd sydd newydd gymhwyso, yn benodol o ran defnyddio sgiliau technegol.

6.4 Ymateb i ddisgwyliadau cleifion a gofalwyr sydd eisiau gweithio mewn partneriaeth â nyrsys, gan wybod y gwrandewir ar eu hanghenion a'u bod yn cael cymorth i wneud penderfyniadau am eu ffordd o fyw a phenderfyniadau mewn perthynas â gofal.

6.5 Newid y gofynion ar addysgwyr o fod yn safonau'n seiliedig ar fanylion, mewnbwn a phrosesau, i fod yn canolbwyntio ar ddeilliannau ac ymagwedd gymesur.

6.6 Amnewid gofynion proses ragnodedig ar gyfer dysgu ac asesu yn y gwaith gydag egwyddorion lefel uwch, fydd yn galluogi i ddarparwyr addysg ac ymarfer ddatblygu modelau arloesol mwy pwrpasol er mwyn cynorthwyo goruchwylio myfyrwyr, a chaniatáu asesu myfyrwyr yn fwy cydnerth a gwrthrychol, tra'n caniatáu mwy o gyfleoedd i fyfyrwyr ymarfer sgiliau nyrsio mewn amrywiaeth o sefydliadau e.e. iechyd cyhoeddus.

7 Yng ngoleuni'r holl adborth ac ymgysylltu, mae'r drafftiau canlynol wedi cael eu datblygu fel sail ar gyfer ymgynghoriad llawn ac agored:

7.1 Safonau medrusrwydd drafft nyrs gofrestredig y dyfodol

(**atodiad 1**).

7.2 Fframwaith addysg drafft newydd ar gyfer Sefydliadau Addysg Cymeradwyedig (AEIau), lleoliad gwaith a phartneriaid yn y gweithle (**atodiad 2**), sy'n cynnwys:

7.2.1 Safonau addysg a hyfforddiant drafft mewn perthynas â dysgu theori ac ymarfer, yn cynnwys model dysgu ac asesu drafft newydd (**atodiad 3**).

7.2.2 Gofynion rhaglen drafft er mwyn tanategu safonau medrusrwydd drafft nyrs gofrestredig y dyfodol (**atodiad 4**).

7.2.3 Gofynion rhaglen drafft er mwyn tanategu rhaglenni presgripsiynu ar gyfer nyrsys a bydwragedd sy'n presgripsiynu (**atodiad 5**).

7.3 Cynigion i fabwysiadu Fframwaith cymhwysedd unigol i bawb sy'n presgripsiynu Y Gymdeithas Fferyllol Frenhinol *(RPS)* fel ein safonau medrusrwydd ar gyfer arferion presgripsiynu (**atodiad 6**).

7.4 Cynigion i ddiddymu ein Safonau rheoli meddyginiaethau (SMM).

8 Rydym wedi amcanu at adeiladu ar yr ymagwedd lwyddiannus tuag at Ailddilysu gan fabwysiadu priodoldeb, ac ymagwedd fwy cymesur sy'n canolbwyntio ar ddeilliannau, tra'n symud tuag at fwy o gydweithredu â rheoleiddwyr a chyrff proffesiynol eraill.

9 Nawr gofynnir i'r Cyngor gytuno i gychwyn ymgynghoriad llawn ac agored ar y drafftiau yma, fel y gellir ceisio safbwyntiau ar bob agwedd o'r cynigion a'u hystyried cyn gwneud unrhyw benderfyniadau terfynol ar gynnwys y safonau a'r fframwaith. Mae'r cwestiynau arfaethedig ar gyfer yr ymgynghoriad yn **atodiad 7.**

10 Rydym yn disgwyl y byddwn yn cyflwyno deilliannau'r ymgynghoriad, ynghyd â'r safonau drafft arfaethedig adolygiedig, gan ystyried yr ymatebion a dderbyniwyd, i'r Cyngor am benderfyniad ym mis Ionawr 2018.

**Ffactorau'r pedair gwlad:**

11 Mae'r safonau drafft yn gymwys ar draws y pedair gwlad a bu ymgysylltu helaeth ym mhob un o'r gwledydd wrth ddatblygu'r safonau drafft a'r fframwaith.

**Trafodaeth:** **Safonau medrusrwydd drafft ar gyfer nyrs gofrestredig y dyfodol**

12 Bydd y safonau newydd yn nodi’r medrau fydd eu hangen ar y nyrs gofrestredig yn y dyfodol ar adeg cofrestru. Mae’r medrau newydd yn uchelgeisiol o ran pennu’r lefel uwch o wybodaeth a sgiliau y gall pobl ei ddisgwyl gan nyrsys yn y dyfodol.

13 Bydd cyd-destunau gofal yn y dyfodol yn gweld mwy o ddibyniaethau rhwng gofal iechyd a chymdeithasol, iechyd meddyliol a chorfforol, a chynnydd mewn morbidrwydd lluosog er mwyn sicrhau gofal diogel ac effeithiol sy’n canolbwyntio ar yr unigolyn. Mae’r safonau medrusrwydd drafft yn amcanu at sicrhau bod gan nyrsys y wybodaeth angenrheidiol i hyrwyddo iechyd a llesiant meddyliol a chorfforol a mabwysiadu ymagwedd sy’n seiliedig ar dystiolaeth tuag at ddarparu gofal sgiliedig. Mae yna ffocws hefyd ar baratoi nyrsys ar gyfer rolau arwain cymhleth a gweithio’n effeithiol mewn timau amlddisgyblaethol a rhyngasiantaethol.

14 Gellir cymhwyso’r safonau medrusrwydd drafft ar draws y pedwar maes gwaith nyrsio (nyrsio oedolion, nyrsio plant, nyrsio anableddau dysgu a nyrsio iechyd meddwl). Byddai hynny yn paratoi nyrsys i weithio’n fwy hyblyg ar draws sefydliadau a chynorthwyo a rheoli gofal pobl sydd ag anghenion lluosog efallai, tra'n cadw’r gallu i fod yn gofrestredig o dan un neu ragor o’r pedwar maes.

15 Pan ofynnir iddynt, mae cleifion a’r cyhoedd eisoes yn credu y gall nyrsys bresgripsiynu ac nid ydynt eisiau disgwyl i bresgripsiynydd meddygol fod ar gael. Yn hytrach na hynny maent wedi nodi bod yn well ganddynt bresgripsiynau prydlon sy’n effeithiol a diogel ar gyfer eu hanghenion gofal.

16 Felly, mae safonau medrusrwydd drafft newydd ar gyfer nyrs gofrestredig y dyfodol yn cynnwys elfennau o theori presgripsiynu er mwyn ategu’r genhedlaeth nesaf o fodelau darparu gofal integredig drwy ddarparu ffordd i gael mynediad cynharach i ennill cymwysterau presgripsiynu ar ôl cofrestru.

17 Rydym wedi cynnal profion gyda defnyddwyr annibynnol ar y safonau medrusrwydd drafft ar gyfer nyrs y dyfodol. Cynhaliwyd 22 cyfweliad a phum grŵp ffocws oedd yn cynnwys nyrsys, myfyrwyr, addysgwyr, cleifion a’r cyhoedd. Mae hyn wedi ein galluogi i gael mwy o adborth ar hygyrchedd y safonau drafft yma.

18 **Argymhelliad: Gofynnir i'r Cyngor gytuno i ymgynghori ar safonau medrusrwydd drafft nyrs gofrestredig y dyfodol (atodiad 1).**

**Fframwaith addysg**

19 Ar hyn o bryd mae ein safonau presennol yn cynnwys ystod eang o safonau yn cynnwys safonau ar gyfer sefydliadau, rhaglenni, addysgwyr ac unigolion. Felly, mae ein symudiadau tuag at ddatblygu safonau medrusrwydd newydd ar gyfer nyrs gofrestredig y dyfodol, a'n gwaith cyfochrog mewn perthynas â bydwreigiaeth yn golygu bod angen i ni fynd i'r afael â'r safonau addysg a hyfforddiant sydd wedi eu hymgorffori ar hyn o bryd yn y dogfennau hyn ac ar draws ein safonau eraill.

20 Mae'r sector addysg hefyd yn newid. Mae hynny'n cynnwys newidiadau i gyllido myfyrwyr yn Lloegr; datblygu fframweithiau ansawdd cenedlaethol ar gyfer addysgu ac addysg; cynnydd mewn modelau rhaglenni hyblyg, prentisiaethau a llwybrau tuag at gofrestru sy'n ategu anghenion y gweithlu.

21 Gan ystyried y tirlun hwn sy'n esblygu rydym wedi datblygu fframwaith addysg drafft sy'n amcanu at danategu holl agweddau addysg a hyfforddiant ar draws sefydliadau theori ac ymarfer (**atodiad 2**). Mae diogelu'r cyhoedd a diogelwch myfyrwyr yn rhan ganolog o'r fframwaith hwn yn ogystal â'n hamcan i arwain a hyrwyddo dysgu a chydweithio rhyngbroffesiynol.

22 Mae'r fframwaith addysg drafft yn amcanu i rymuso sefydliadau addysg a phartneriaid i ganolbwyntio ar ddeilliannau a bod yn hyblyg ac arloesol o ran eu hymagwedd tuag at ddylunio, darparu a rheoli rhaglenni. Dyluniwyd y fframwaith drafft i allu ymateb i fodelau hyblyg o ddylunio a darparu rhaglenni drwy annog partneriaethau rhwng sefydliadau academaidd ac addysg yn y gweithle.

23 Mae ein safonau presennol ar gyfer cynorthwyo dysgu ac asesu arferion (2008) yn dibynnu gormod ar brosesau ac adroddwyd eu bod yn atal arloesedd. Mae'r model dysgu ac asesu drafft newydd yn amcanu at greu cydbwysedd cymesur wrth hyrwyddo arloesedd a hyblygrwydd tra'n darparu sicrwydd bod myfyrwyr yn cael eu goruchwylio'n briodol a'u hasesu yn erbyn ein safonau medrusrwydd (**atodiad 3**).

24 Mae gofynion rhaglenni penodol drafft ar gyfer cofrestru nyrsys (**atodiad 4**) a phresgripsiynu gan nyrsys a bydwragedd (**atodiad 5**) hefyd yn gynwysedig yn y fframwaith drafft.

25 Datblygwyd y fframwaith addysg gydag arbenigwyr allanol, yn cynnwys y Cyngor Meddygol Cyffredinol (GMC). Mae’r fframwaith addysg hefyd wedi bod yn destun profion gan ddefnyddwyr annibynnol. Cynhaliwyd pum grŵp ffocws a 69 o gyfweliadau oedd yn cynnwys nyrsys, bydwragedd, addysgwyr clinigol, addysgwyr nyrsio a bydwreigiaeth, myfyrwyr nyrsio a bydwreigiaeth, arweinwyr ansawdd prifysgol, cleifion a’r cyhoedd. Bydd angen i unrhyw adolygiad o’r fframwaith addysg gael ei alinio’n agos i’n model sicrwydd ansawdd yn y dyfodol (QA) y bydd angen i’r Cyngor ei ystyried yn ddiweddarach eleni.

**26 Argymhelliad: Gofynnir i’r Cyngor ymgynghori ar y fframwaith addysg drafft, safonau ategol a gofynion rhaglenni (atodiadau 2 i 5).**

**Newidiadau i safonau presgripsiynu nyrsys a bydwragedd**

27 Mae’n gynyddol ddisgwyliedig i nyrsys a bydwragedd ysgwyddo mwy o gyfrifoldeb wrth iddynt ymateb i anghenion newidiol a disgwyliadau cleifion a’r cyhoedd. Wrth i ofal symud yn gynyddol tuag at gael ei ddarparu yn y gymuned ac mewn sefydliadau iechyd a gofal cymdeithasol integredig, disgwylir y bydd ymarfer presgripsiynu yn un o ofynion allweddol darpariaeth iechyd y dyfodol.

28 Fel rhan o’n hymrwymiad i fod yn reoleiddiwr deinamig ac fel cydnabyddiaeth i ymagwedd amlbroffesiynol tuag at fedrusrwydd presgripsiynu, rydym yn cynnig y bydd pob rhaglen bresgripsiynu a gymeradwyir gan NMC yn y dyfodol yn cyflawni deilliannau sy’n bodloni *Fframwaith cymhwysedd unigol i bawb sy’n presgripsiynu Y Gymdeithas Fferyllol Frenhinol (RPS)* (**atodiad 6**).

29 Mae’r Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth Clinigol wedi achredu’r broses a ddefnyddir gan yr RPS i ddatblygu’r fframwaith. Mae ein hymgysylltu wedi dangos cefnogaeth gref i'r ymagwedd hon. Os cytunir ar y cynnig hwn yn dilyn yr ymgynghoriad cyhoeddus a bod y Cyngor yn cytuno, ni fyddai’r rheoleiddiwr proffesiynol cyntaf i fabwysiadu’r fframwaith cymhwysedd amlbroffresiynol hwn. Byddai hyn yn anfon neges glir mewn perthynas â chyflawni ein hymrwymiad strategol i gydweithredu a gweithio ag eraill.

30 Rydym hefyd yn cynnig ehangu’r broses o oruchwylio ac asesu presgripsiynwyr dan hyfforddiant i bob presgripsiynydd sy’n briodol gymwys a phrofiadol. Ar hyn o bryd dim ond ymarferydd meddygol dynodedig sy’n goruchwylio, fodd bynnag mae yna nifer mwy o bresgripsiynwyr anfeddygol priodol gymwys all ddarparu goruchwyliaeth briodol i nyrsys a bydwragedd sy’n hyfforddi i fod yn bresgripsiynwyr. Mae hyn yn unol â chynlluniau’r Cyngor Fferyllol Cyffredinol i ehangu goruchwylio presgripsiynwyr

dan hyfforddiant i fferyllwyr sy'n presgripsiynu a phresgripsiynwyr anfeddygol eraill.

**31 Argymhelliad: Gofynnir i'r Cyngor gytuno i ymgynghori ar ein cynnig i fabwysiadu *Fframwaith cymhwysedd unigol i bawb sy'n presgripsiynu* yr RPS fel ein safonau medrusrwydd arfaethedig ar gyfer nyrsys a bydwragedd sy'n presgripsiynu (atodiad 6).**

**Safonau ar gyfer rheoli meddyginiaethau (SMM)**

32 Mae'r holl safonau o fewn ein rhaglen newid mewn addysg wedi eu clymu ynghyd gan angen clir i symud oddi wrth bennu safonau rhagnodedig yn seiliedig ar broses a thuag at bennu safonau sy'n canolbwyntio ar ddeilliannau sy'n briodol a chymesur. Felly rydym yn cynnig diddymu ein SMM a gyhoeddwyd yn 2007.

33 Erbyn hyn dyma'r unig safonau sy'n canolbwyntio'n llwyr ar ymarfer. Ni yw'r unig reoleiddiwr proffesiynol sy'n pennu safonau o'r fath. Byddwn yn parhau i ymrwymo i arferion diogel ac effeithiol yn y maes diogelu cyhoeddus pwysig hwn. Mae rheoli meddyginiaethau yn gynwysedig yn y Cod[1] yn ogystal ag yn y medrau cyn cofrestru cyfredol a'r medrau drafft newydd ar gyfer nyrs gofrestredig y dyfodol.

34 Mae rheoli meddyginiaethau yn faes cymhleth o ran creu'r cydbwysedd priodol er mwyn sicrhau gwarchodaeth i'r cyhoedd a diogelwch y claf. Mae nifer o randdeiliaid yn cytuno nad ein rôl ni yw pennu safonau ymarfer, ac mai darparwyr gwasanaeth sy'n gyfrifol am reoli'r elfen hon o ymarfer clinigol. Mae eraill wedi dweud wrthym y gall y safonau manwl fod yn rhwystr rhag defnyddio dulliau optimeiddio meddyginiaethau cyfoes.

35 Rydym yn cydnabod nad yw rhai rhanddeiliaid allanol o blaid diddymu'r SMM, a'u bod yn ffafrio cynnwys y rhain mewn un cyhoeddiad NMC. Rydym yn ymwybodol bod nifer o sefydliadau ac unigolion yn parhau i ddibynnu ar y safonau hyn fel sylfaen ar gyfer rheoli meddyginiaethau.

36 Felly rydym wedi adolygu a fyddai diddymu'r safonau hyn yn gadael unrhyw fylchau rheoleiddiol, ac rydym wedi clustnodi canllawiau cyfredol sydd ar gael mewn perthynas â rheoli meddyginiaethau a gynhyrchir gan gyrff proffesiynol eraill sydd mewn gwell sefyllfa i gynhyrchu canllawiau cwbl gyfredol yn y maes ymarfer hwn.

37 Fel yn achos agweddau eraill o'r ymgynghoriad hwn, rydym yn cynnig ymgynghori'n llawn ac agored ar y newid yma. Byddwn

[1] Y Cod: Safonau arferion ac ymddygiad proffesiynol ar gyfer nyrsys a bydwragedd (2015)

hefyd yn ceisio safbwyntiau ar sut y gallwn gynorthwyo rhai cofrestredig drwy unrhyw gyfnod pontio fel rhan o'r ymgynghoriad hwn. Bydd y canfyddiadau yn cael eu dadansoddi a'u hadrodd i'r Cyngor yn ddiweddarach eleni.

38 Petai penderfyniad yn cael ei wneud yn ddiweddarach i ddiddymu'r safonau hyn buasem yn manteisio ar y cyfle i weithio ag eraill er mwyn cyfeirio at ganllawiau o'r fath o'n gwefan, gan gynnig ymagwedd fwy cymesur tuag at ddiogelwch cleifion a gwarchodaeth i'r cyhoedd.

**39 Argymhelliad: Argymhellir bod y Cyngor yn cymeradwyo ein cynigion i ymgynghori ar ddiddymu ein Safonau rheoli meddyginiaethau.**

**Goblygiadau mewn perthynas ag amddiffyn y cyhoedd:**

40 Mae ein rhaglen o newid mewn addysg yn cael ei ysgogi gan yr angen i amddiffyn y cyhoedd a hyrwyddo hyder y cyhoedd mewn nyrsys a bydwragedd.

**Goblygiadau mewn perthynas ag adnoddau:**

41 Mae'r goblygiadau i'r rhaglen mewn perthynas ag adnoddau wedi cael eu hystyried yn y cynllun corfforaethol a'r gyllideb.

**Goblygiadau mewn perthynas â chydraddoldeb ac amrywiaeth:**

42 Rydym wedi datblygu asesiadau o'r effaith ar gydraddoldeb ar gyfer pob ffrwd gwaith o fewn y rhaglen addysg. Dilynwyd sgrinio cychwynnol gan asesiad mewnol o'r cynhyrchion a'r cynlluniau drafft. Mae camau i fynd i'r afael â materion wedi cael eu clustnodi ac ymgysylltwyd â grwpiau a randdeiliaid a warchodir. Bydd y cam nesaf yn cynnwys cael mwy o fewnwelediad drwy'r ymgynghoriad.

**Ymgysylltu â rhanddeiliaid:**

43 Rydym wedi ymgysylltu â Phrif Swyddogion Nyrsio, nyrsys, bydwragedd, cyflogwyr, addysgwyr, myfyrwyr, cleifion, defnyddwyr gwasanaeth a'r cyhoedd, a sefydliadau aelodaeth ar draws y DU.

44 Byddwn yn parhau i gydweithio â rhanddeiliaid ar y rhaglen uchelgeisiol hon o newid, ac mae digwyddiadau a gweithgareddau ychwanegol ar gyfer rhanddeiliaid yn cael eu cynllunio er mwyn cynorthwyo cyfranogiad yn yr ymgynghoriad.

**Goblygiadau risg:**

45 Mae risgiau allweddol y rhaglen yn benodol gysylltiedig â'r amserlenni ar gyfer cyhoeddi a gweithredu dilynol ar adeg o bwysau mawr ar ddarparu gwasanaethau, heriau i'r gweithlu, toriadau a newidiadau i iechyd a gofal ac addysg uwch.

46 Hefyd mae yna angen i reoli rhyngddibyniaethau gyda'n rhaglenni mawr eraill. Mae hynny'n cynnwys model y dyfodol ar gyfer Sicrwydd Ansawdd Addysg, rheoleiddio nyrsio yn y dyfodol, ac unrhyw oblygiadau fydd yn deillio o adael yr Undeb Ewropeaidd.

47 Hefyd, mae angen i ni fod yn ymwybodol bod ein cynnig i ddiddymu ein SMM yn cynrychioli newidiadau posibl i rai ffyrdd o weithio, a bydd angen i ni gynllunio a rheoli risgiau cysylltiedig fel rhan o gyfnod pontio ffurfiol pe penderfynid bwrw ymlaen â'r ymagwedd hon yn dilyn yr ymgynghoriad.

**Goblygiadau cyfreithiol:**

48 Mae sail gyfreithiol y swyddogaeth addysg a sicrwydd ansawdd yn cael ei nodi yng Ngorchymyn Nyrsio a Bydwreigiaeth 2001 yr NMC, y rheolau a'r gofynion addysg a chofrestru mewn perthynas ag addysg nyrsys fel rhan o ddeddfwriaeth yr UE. Derbyniwyd cyngor cyfreithiol ynghylch y newidiadau arfaethedig yn ôl yr angen.

Eitem 7: **Atodiad 1**
NMC/17/42
24 Mai 2017

Nursing & Midwifery Council

# Safonau hyfedredd ar gyfer nyrsys cofrestredig

## Rôl y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth

### Yr hyn a wnawn

Rydym yn rheoleiddio nyrsys a bydwragedd yng Nghymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon. Rydym yn bodoli er mwyn diogelu'r cyhoedd. Rydym yn pennu'r safonau ar gyfer addysg, hyfforddiant, ymddygiad a pherfformiad er mwyn i nyrsys a bydwragedd allu darparu gofal iechyd o safon uchel drwy eu gyrfaoedd.

Rydym yn sicrhau bod gan nyrsys a bydwragedd y sgiliau a'r wybodaeth ddiweddaraf a'u bod yn cynnal ein safonau proffesiynol. Mae gennym brosesau clir a thryloyw i ymchwilio i nyrsys a bydwragedd nad ydynt yn cyrraedd ein safonau. Rydym yn cynnal cofrestr o nyrsys a bydwragedd y caniateir iddynt ymarfer yn y DU.

# Rhagarweiniad

Mae nyrsys cofrestredig  yn chwarae rhan hanfodol yn y gwaith o ddiwallu anghenion pobl am ofal diogel o ansawdd uchel. Maent yn atebol am ddarparu, arwain a chydlynu gofal nyrsio sy'n seiliedig ar dystiolaeth, yn drugarog ac wedi'i deilwra i anghenion unigol pob person. Maent yn gwneud hyn drwy weithio'n annibynnol ac mewn partneriaeth â gweithwyr gofal iechyd proffesiynol eraill i ddiwallu anghenion iechyd a nyrsio pobl, teuluoedd, cymunedau a phoblogaethau.

Mae nyrsys cofrestredig yn darparu gofal i bobl ar bob cam bywyd ym mhob lleoliad gofal. Maent yn gweithio yng nghyd-destun newid parhaus, amgylcheddau heriol, amrywiaeth gynyddol a thechnolegau sy'n datblygu'n gyflym. Mae'n hanfodol felly bod ganddynt y wybodaeth, yr hyder a'r sgiliau trosglwyddadwy sydd eu hangen er mwyn ymateb i'r gofynion hyn.

Rhaid i bob nyrs gofrestredig feddu ar yr ymddygiadau proffesiynol a gofalgar a'r sgiliau cyfathrebu a rheoli cydberthnasau a gweithdrefnau nyrsio sydd eu hangen er mwyn nodi ac ymateb i unigolion sy'n agored i niwed ac i gefnogi poblogaeth sy'n heneiddio.  Mae angen iddynt sicrhau bod gofal nyrsio wrth wraidd gofal cleifion bob amser. Mae pwyslais cynyddol ar ddarparu gofal mewn lleoliadau cymunedol a gofalu am y rheini sydd ag anghenion gofal cymhleth, y rheini sy'n byw gyda dementia a'r rheini sy'n dod at ddiwedd eu hoes. Felly, mae'r gallu i feddwl yn feirniadol, cymhwyso eu gwybodaeth a'u sgiliau a darparu gofal nyrsio uniongyrchol arbenigol wrth wraidd holl ymarfer nyrsio cofrestredig.

Mae nyrsys cofrestredig yn gwneud cyfraniad pwysig at hyrwyddo iechyd ac atal salwch, gan rymuso pobl i arddel eu dewis, cymryd rheolaeth dros eu penderfyniadau ac ymddygiadau iechyd eu hunain a rheoli eu gofal eu hunain lle bynnag y bo'n bosibl. Rhaid i nyrsys cofrestredig hefyd fod yn wydn a gallu cydnabod effaith a phwysau ymarfer nyrsio proffesiynol ar eu hiechyd a'u lles eu hunain, gan ymgymryd â dulliau hunanofal a gofyn am gymorth pan fydd angen.

Mae mwy o wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol wrthi'n cael eu hintegreiddio ledled y DU, gan ei gwneud hi'n ofynnol i nyrsys drafod ffiniau iechyd a gofal cymdeithasol a chwarae rhan weithredol a chyfartal mewn timau amlddisgyblaethol. Bydd disgwyl iddynt nodi, cefnogi a rheoli anghenion gofal pobl sydd ag amrywiaeth o heriau iechyd meddwl, corfforol, gwybyddol ac ymddygiadol ym mhob lleoliad gofal. Mae'n rhaid i nyrsys hefyd ddangos dealltwriaeth o bobl o gefndiroedd a diwylliannau amrywiol a'r rheini sydd â chredoau gwahanol, a bod yn sensitif tuag atynt, er mwyn sicrhau bod y gofal y maent yn ei gynnig yn effeithiol, yn bersonol ac yn dderbyniol.

**Cyfeiriwch at y Rhestr termau i gael diffiniadau o'r termau a nodir mewn glas golau**

# Ynglŷn â'r safonau hyn

Mae'r NMC, fel y **rheoleiddiwr proffesiynol**, yn bodoli i amddiffyn y cyhoedd. Mae pennu safonau addysg yn un ffordd o wneud hyn. Mae cynnal diogelwch a lles y cyhoedd wrth wraidd y safonau hyn.

Y safonau hyfedredd yw'r safonau gofynnol y bydd yn rhaid i ddarpar nyrs eu bodloni er mwyn i'r NMC ystyried y gall ymarfer yn ddiogel ac yn effeithiol. Bydd yn rhaid i sefydliadau addysg sicrhau y caiff y rhaglenni eu dylunio i fod yn effeithiol o ran paratoi pobl i fodloni'r hyfedreddau hyn er mwyn cofrestru â'r NMC.

Mae'r safonau yn adlewyrchu anghenion disgwyliedig y cyhoedd yn y dyfodol am ofal nyrsio arbenigol.  Yn eu tro, maent yn cyfleu'r hyn y dylai nyrs sydd newydd gofrestru ei wybod a'r hyn y dylai fod yn gallu ei wneud i'r cyhoedd, addysgwyr, darparwyr gofal iechyd a gweithwyr gofal iechyd proffesiynol ar adeg cofrestru er mwyn ymarfer yn ddiogel ac yn effeithiol a pharhau i feithrin eu harbenigedd. Mae'r rheini sy'n addysgu nyrsys dan hyfforddiant yn gyfrifol am sicrhau bod y gwaith paratoi addysgol maent yn ei ddarparu yn rhoi'r sgiliau, y wybodaeth a'r rhinweddau sydd eu hangen ar nyrsys graddedig newydd er mwyn cyrraedd y safonau hyn a darparu gofal o ansawdd uchel sy'n canolbwyntio ar y claf ar adeg cofrestru.

Yn ogystal â sgiliau a gwybodaeth y gellir eu cael drwy addysg a hyfforddiant, mae'r cyhoedd hefyd yn disgwyl bod nyrsys cofrestredig yn meddu ar y gwerthoedd a'r priodoleddau personol sy'n gysylltiedig â bod yn ofalgar, yn empathatig ac yn drugarog. Fel gweithwyr proffesiynol mewn byd modern, rhaid i nyrsys hefyd ddatblygu cryfderau o ran deallusrwydd emosiynol  a gwydnwch.  Mae gan y gofynion hyn oblygiadau o ran y ffordd y mae darparwyr addysg yn dewis myfyrwyr nyrsio ac yn eu paratoi ar gyfer ymarfer proffesiynol. Caiff darpar fyfyrwyr nyrsio eu hasesu ar gyfer rhaglen cyn cofrestru gan gyfeirio at y priodoleddau hyn. Bydd y ffordd y caiff myfyrwyr eu hasesu drwy gydol y rhaglen hefyd yn cwmpasu'r priodoleddau hyn ynghyd â gwybodaeth, sgiliau a chymwyseddau.

Mae datganiadau deilliannau sydd wedi'u cynnwys yn y safonau wedi'u llunio i'w cymhwyso ym mhob maes presennol o ymarfer nyrsio a phob lleoliad gofal. Rhaid bod nyrsys cofrestredig yn gallu diwallu anghenion gofal sylfaenol pobl drwy gydol eu hoes lle wynebir amrywiaeth o heriau iechyd meddwl, corfforol, gwybyddol ac ymddygiadol. Rhaid iddynt hefyd allu diwallu anghenion gofal mwy cymhleth pobl yn eu dewis faes ymarfer nyrsio. Bydd y prif gynnwys damcaniaethol, cymhwyso ymarfer a phrofiad ymarfer yn adlewyrchu'r angen i fyfyrwyr gyflawni'r deilliannau yng nghyd-destun eu maes ymarfer. Mae'r atodiadau i'r safonau hyn yn dynodi'r prif agweddau ar gynnwys gofynnol maes benodol.

Mae'r safonau hyfedredd sy'n seiliedig ar ddeilliannau a gyflwynir isod wedi'u strwythuro o dan saith pennawd. Mae pob un o'r rhain yn disgrifio elfennau allweddol o rolau, cyfrifoldebau ac atebolrwydd nyrsys cofrestredig. Er bod rhywfaint o orgyffwrdd rhwng y saith pennawd, credwn y bydd y dull hwn o weithredu yn rhoi'r eglurder sydd ei angen ar y cyhoedd a'r gweithlu proffesiynol nyrsio ac iechyd o ran y wybodaeth, y sgiliau a'r cymwyseddau craidd y gallant eu disgwyl gan bob nyrs gofrestredig yn y dyfodol. Maent hefyd yn darparu'r meincnod i ymarferwyr sefydledig o dramor gofrestru, yn ogystal â'r rheini sydd am ailddechrau ymarfer ar ôl cyfnod penodol o absenoldeb.

Mae'n bwysig pwysleisio bod y datganiadau deilliannau sy'n ategu'r safonau hyn yn adlewyrchu'r hyn sy'n ofynnol gan nyrsys sydd newydd gofrestru wrth iddynt raddio yn y proffesiwn, ar ddechrau eu gyrfaoedd. Bydd yn rhoi sail gadarn o wybodaeth, sgiliau a chymwyseddau i raddedigion newydd a byddant yn adeiladu ar y rhain wrth iddynt feithrin profiad wrth ymarfer a chyflawni eu cyfrifoldeb proffesiynol i ddiweddaru eu gwybodaeth a'u sgiliau yn barhaus.

DRAFT

Ar adeg cofrestru, bydd nyrs gofrestredig yn cyflawni'r canlynol:

## 1 Bod yn weithiwr proffesiynol atebol

- bod yn gyfrifol ac yn atebol am ei weithredoedd
- gweithredu er budd gorau pobl, eu blaenoriaethu, a darparu gofal nyrsio sy'n canolbwyntio ar y claf, yn ddiogel ac yn drugarog
- datrys problemau a gwneud penderfyniadau cadarn ynghylch gofal pobl sy'n seiliedig ar dystiolaeth a gwybodaeth.

## 2 Hybu iechyd

- arwain y blaen o ran helpu pobl i wella a chynnal eu hiechyd a'u lles meddyliol, ymddygiadol, gwybyddol a chorfforol
- cefnogi a galluogi pobl ar bob cam o'u bywydau i wneud dewisiadau hyddysg ar sut i reoli a gwella eu hiechyd presennol ac atal salwch.

## 3 Asesu anghenion a chynllunio gofal

- asesu iechyd ac amgylchiadau pobl er mwyn llywio'r angen am ymyrraeth nyrsio, gofal a chymorth
- ystyried sefyllfa bersonol, nodweddion, a dymuniadau pobl a'u teuluoedd a'u gofalwyr
- derbyn bod cleifion a theuluoedd yn arbenigwyr o ran eu gofal eu hunain a sicrhau bod yr adnoddau ar gael iddynt er mwyn eu helpu i wneud penderfyniadau hyddysg, a bod cynlluniau ar gyfer ymyrraeth, gofal a chymorth wedi'u teilwra i'w hanghenion a'u dewisiadau unigol.

## 3 Darparu a gwerthuso gofal

- arwain y blaen o ran sicrhau a goruchwylio'r gwaith o ddarparu ymyriadau nyrsio, gofal a chymorth i bobl o bob oedran ac mewn unrhyw leoliad
- sicrhau y caiff pob agwedd ar ofal ei darparu'n drugarog ac yn ddiogel
- gweithio mewn partneriaeth â phobl, teuluoedd a gofalwyr er mwyn gwerthuso p'un a gyflawnir nodau o ran gofal yn unol â'u dymuniadau.

## 5 Arwain gofal nyrsio a gweithio mewn timau

- arwain gofal nyrsio drwy ddangos arfer gorau a bod yn atebol am ddirprwyo gofal yn briodol i eraill, gan gynnwys gofalwyr lleyg
- chwarae rhan ragweithiol a chyfartal mewn timau o weithwyr proffesiynol amlddisgyblaethol, gan gydweithio a chyfathrebu'n effeithiol â chydweithwyr, a gyda phobl a theuluoedd er mwyn eu helpu i reoli eu gofal eu hunain.

## 6 Gwella diogelwch ac ansawdd gofal

- gwneud cyfraniad allweddol i wella ansawdd y gofal a'r driniaeth a roddir yn barhaus, a gwella profiad pobl o ofal
- gallu asesu unrhyw risgiau i ddiogelwch neu brofiad cleifion, a chymryd camau priodol i reoli'r risgiau hynny, gan flaenoriaethu buddiannau gorau, anghenion a dymuniadau pobl
- deall sut i reoli risgiau o fewn sefydliadau a lleoliadau.

## 7 Cydlynu gofal

- ymgysylltu ag amrywiaeth o asiantaethau a gweithwyr gofal iechyd proffesiynol ac eraill er mwyn cefnogi'r gwaith o ddarparu llwybrau gofal cymhleth a phecynnau gofal.

DRAFT

## 1 Bod yn weithiwr proffesiynol atebol

**Mae Nyrsys Cofrestredig yn atebol am eu gweithredoedd. Maent yn gweithredu er budd pobl, gan eu blaenoriaethu a darparu gofal nyrsio sy'n ddiogel a thrugarog. Maent yn defnyddio eu gwybodaeth a'u profiad i wneud penderfyniadau yn seiliedig ar dystiolaeth a datrys problemau.**

**Deilliannau**

Ar adeg cofrestru, bydd nyrs gofrestredig yn cyflawni'r canlynol:

1.1 Deall sut i weithredu yn unol â'r **Cod: Safonau ymarfer proffesiynol ac ymddygiad ar gyfer nyrsys a bydwragedd** er mwyn bodloni gofynion cofrestru.[1]

1.2 Deall a chymhwyso gofynion cyfreithiol a rheoliadol perthnasol, gofynion llywodraethu, polisïau, a fframweithiau moesegol a chanllawiau ym mhob maes ymarfer.

1.3 Deall a chymhwyso egwyddorion gonestrwydd, dewrder a thryloywder, gan gydnabod a chofnodi unrhyw sefyllfaoedd, ymddygiadau neu gamgymeriadau a allai arwain at ganlyniadau gofal a thriniaeth gwael.

1.4 Cydnabod a chyfleu gofynion ymarfer proffesiynol a dangos sut i adnabod arwyddion bod y nyrs ei hun neu gydweithiwr yn agored i niwed a'r camau sydd eu hangen i leihau'r risg i iechyd.

1.5 Deall y cyfrifoldeb proffesiynol am fabwysiadu ffordd o fyw iach a chynnal lefel ffitrwydd a lles sydd ei hangen er mwyn diwallu anghenion pobl o ran gofal meddwl a chorfforol.

1.6 Deall ystyr gwydnwch a deallusrwydd emosiynol ac esbonio eu dylanwad ar ddyfarniadau a phenderfyniadau mewn sefyllfaoedd cymhleth a sefyllfaoedd na ellir eu rhagweld.

1.7 Dangos dealltwriaeth gadarn o ddulliau ymchwil, moeseg a llywodraethu er mwyn dadansoddi'n feirniadol, defnyddio, rhannu a chymhwyso canfyddiadau ymchwil i hyrwyddo a llywio ymarfer nyrsio gorau.

1.8 Dangos y sgiliau trosglwyddadwy a'r gallu i feddwl yn feirniadol, cymhwyso gwybodaeth a defnyddio tystiolaeth a phrofiad i ddatrys problemau a gwneud penderfyniadau hyddysg.

1.9 Dangos y gallu i gyfathrebu'n effeithiol gan ddefnyddio amrywiaeth o sgiliau a strategaethau gyda chydweithwyr a phobl ar bob cam mewn bywyd ac sy'n wynebu amrywiaeth o heriau iechyd meddwl, corfforol, gwybyddol ac ymddygiadol (Atodiad A).

DRAFT

[1] Y Cod – Safonau ymarfer proffesiynol ac ymddygiad ar gyfer nyrsys a bydwragedd (NMC, 2015)

1.10 Dangos y sgiliau a'r galluoedd sydd eu hangen er mwyn datblygu, rheoli a chynnal cydberthnasau â phobl, eu teuluoedd a'u gofalwyr a chydweithwyr.

1.11 Darparu a hybu gofal sensitif, nad yw'n gwahaniaethu, ac sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn drwy'r amser, adlewyrchu gwerthoedd a chredoau, cefndiroedd amrywiol, nodweddion diwylliannol, anghenion a dewisiadau pobl gan ystyried unrhyw addasiadau rhesymol angenrheidiol[2] i bobl anabl.

1.12 Deall yr angen i wneud pob penderfyniad ynghylch gofal a thriniaeth pobl yn seiliedig ar anghenion cleifion, ac nid ar eu hystyriaethau personol eu hunain, gan gydnabod ac ymdrin â ffactorau allanol a all gael dylanwad gormodol ar eu penderfyniadau.

1.13 Cynnal y sgiliau llythrennedd, digidol a rhifedd sydd eu hangen er mwyn sicrhau ymarfer nyrsio diogel ac effeithiol (Atodiadau A a B).

1.14 Bod yn gyfrifol am ddatblygiad parhaus eu gwybodaeth a'u sgiliau proffesiynol, gan geisio ac ymateb i gymorth ac adborth.

1.15 Dangos y wybodaeth a'r hyder i gyfrannu fel partner cyfartal mewn tîm amlddisgyblaethol fel cennad i'r proffesiwn a gwasanaethau iechyd.

1.16 Gweithredu fel cennad i'r proffesiwn a hyrwyddo hyder y cyhoedd mewn gwasanaethau nyrsio, iechyd a gofal.

DRAFT

[2] Link to Equality Act 2010 and Northern Ireland equivalent

## 2 Hybu iechyd

**Mae nyrsys cofrestredig yn chwarae rhan allweddol yn y gwaith o wella a chynnal iechyd a lles meddyliol, corfforol ac ymddygiadol pobl. Maent yn cefnogi ac yn galluogi pobl sydd ar bob cam o'u bywyd ac o bob lleoliad gofal i wneud dewisiadau hyddysg ynghylch sut i atal salwch a rheoli heriau iechyd er mwyn manteisio i'r eithaf ar ansawdd bywyd a gwella iechyd.**

Ar adeg cofrestru, bydd nyrs gofrestredig yn cyflawni'r canlynol:

2.1 Deall amcanion ac egwyddorion hyrwyddo iechyd a gwella iechyd ac yn gallu cymhwyso'r rhain wrth ofalu am unigolion, teuluoedd, cymunedau a phoblogaethau.

2.2 Nodi ac achub ar bob cyfle priodol i drafod effaith dewisiadau o ran ffordd o fyw gyda phobl, gan gynnwys effaith ysmygu, y defnydd o sylweddau, alcohol, ymddygiad rhywiol, deiet ac ymarfer corff ar iechyd a lles meddyliol, corfforol, gwybyddol ac ymddygiadol.

2.3 Deall ac esbonio'r egwyddorion ymarfer a'r sail dystiolaeth ar gyfer sgrinio iechyd wrth ymgysylltu ag unigolion, teuluoedd a phoblogaethau er mwyn hybu a gwella canlyniadau iechyd meddyliol a chorfforol.

2.4 Dangos gwybodaeth am epidemioleg, demograffeg, genomeg a phenderfynyddion ehangach iechyd, salwch a lles ar bob cam mewn bywyd a chymhwyso hyn at ddealltwriaeth o batrymau iechyd a salwch a chanlyniadau iechyd.

2.5 Deall ac esbonio cyfraniad dylanwadau cymdeithasol, llythrennedd iechyd, amgylchiadau unigol, ymddygiadau a dewisiadau o ran ffordd o fyw, at ganlyniadau iechyd meddyliol a chorfforol o ran pobl, teuluoedd a chymunedau.

2.6 Deall pwysigrwydd ymyriadau blynyddoedd cynnar ac effaith profiadau andwyol mewn bywyd ar ddewisiadau ffordd o fyw a lles meddyliol a chorfforol.

2.7 Gwerthuso a chymhwyso gwybodaeth am ganlyniadau iechyd yn feirniadol wrth gefnogi pobl a theuluoedd i reoli eu hanghenion gofal iechyd a gwneud dewisiadau o ran iechyd.

2.8 Esbonio a dangos y defnydd o'r dulliau diweddaraf o weithredu o ran newid ymddygiad i alluogi unigolion, teuluoedd a phoblogaethau i ddefnyddio eu cryfderau a'u harbenigedd i wneud dewisiadau hyddysg tra'n rheoli eu hiechyd eu hunain a gwneud addasiadau o ran ffordd o fyw (Atodiad A).

2.9 Defnyddio sgiliau cyfathrebu priodol i rymuso pobl i wneud dewisiadau hyddysg ynghylch eu gofal er mwyn eu helpu i fyw bywydau bodlon a chyflawn o fewn cyfyngiadau llai o allu, salwch ac anabledd.

2.10 Deall a chymhwyso egwyddorion pathogenesis ac imiwnoleg a'r sail dystiolaeth ar gyfer imiwneiddio, brechu ac imiwnedd poblogaeth wrth ymgysylltu ag unigolion, teuluoedd a phoblogaethau er mwyn hybu iechyd ac osgoi salwch.

2.11 Deall a chymhwyso egwyddorion atal, monitro a lledaenu haint ac effaith ymwrthedd i wrthficrobiaid ym mhob lleoliad.

DRAFT

## 3 Asesu anghenion a chynllunio gofal

| Mae Nyrsys cofrestredig yn asesu ac yn adolygu anghenion iechyd meddyliol, corfforol, gwybyddol, ymddygiadol, cymdeithasol ac ysbrydol pobl, gan ddefnyddio'r wybodaeth hon i nodi eu gofynion o ran ymyrraeth nyrsio, gofal a chymorth. Maent yn gweithio mewn partneriaeth â phobl er mwyn datblygu cynlluniau gofal sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn ac yn ystyried eu hamgylchiadau, eu nodweddion a'u dewisiadau. | |
|---|---|
| Deilliannau | Ar adeg cofrestru, bydd nyrs gofrestredig yn cyflawni'r canlynol:<br><br>3.1 Deall a chymhwyso gwybodaeth am ddatblygiad dynol o adeg cenhedlu hyd at farwolaeth, er mwyn llywio asesiadau nyrsio cywir sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn a datblygu cynlluniau gofal priodol.<br><br>3.2 Dangos a chymhwyso gwybodaeth am systemau'r corff a homeostasis, anatomi a ffisioleg ddynol, bioleg, genomeg, ffarmacoleg, gwyddorau cymdeithasol ac ymddygiadol, er mwyn llywio asesiadau nyrsio cywir a datblygu cynlluniau gofal priodol sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn<br><br>3.3 Dangos a chymhwyso gwybodaeth am gyflyrau iechyd meddwl, corfforol, gwybyddol ac ymddygiadol y deuir ar eu traws yn gyffredin, er mwyn llywio asesiad nyrsio llawn a datblygu ac adolygu cynlluniau gofal nyrsio sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn (Atodiad B)<br><br>3.4 Adnabod pobl sy'n agored i niwed a sefyllfaoedd a allai wneud unigolion yn agored i niwed. Cymryd cyfrifoldeb personol i weithio o fewn polisïau lleol a chenedlaethol a fframweithiau deddfwriaethol gan sicrhau y cymerir camau priodol i ddiogelu'n ddigonol.<br><br>3.5 Deall a chymhwyso egwyddorion sy'n ategu partneriaeth mewn gofal nyrsio, gan ddangos y caiff y gwaith o asesu, cynllunio, gwneud penderfyniadau a phennu nodau ei rannu wrth weithio gyda phobl, eu teuluoedd, cymunedau a phoblogaethau o bob oedran.<br><br>3.6 Dangos y gallu i asesu gallu unigolyn i wneud penderfyniadau cadarn am ei iechyd ei hun yn gywir ac i roi neu wrthod caniatâd. Lle nad oes gan unigolyn y gallu i wneud hynny, deall a chymhwyso'r egwyddorion [3] a'r prosesau ar gyfer gwneud addasiadau rhesymol a phenderfyniadau er budd gorau'r unigolyn.<br><br>3.7 Cynnal asesiad meddyliol, corfforol, ymddygiadol, cymdeithasol, ysbrydol a gwybyddol gan ymgorffori dealltwriaeth o feddyginiaeth a thriniaethau cyfredol er mwyn llywio cynllun gofal wedi'i flaenoriaethu sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn.<br><br>3.8 Dangos y gallu i brosesu'n gywir yr holl wybodaeth a gesglir yn ystod y broses asesu er mwyn nodi anghenion gofal nyrsio sylfaenol a datblygu cynlluniau seiliedig ar dystiolaeth sy'n canolbwyntio ar yr |

[3] Link to Equality Act 2010 and Northern Ireland equivalent

DRAFT

unigolyn ar gyfer ymyrraeth nyrsio â nodau cytûn.

3.9 Nodi ac asesu anghenion pobl a'u teuluoedd o ran gofal diwedd bywyd, gan gynnwys gofynion gofal lliniarol a gwneud penderfyniadau ynghylch eu triniaeth a'u gofal (Atodiad B).

3.10 Adnabod arwyddion dirywiad o ran gofid meddwl, bregusrwydd emosiynol a symptomau corfforol a deall sut i gymryd camau prydlon er mwyn atal neu leihau'r risg o niwed i'r unigolyn ac eraill (Atodiad B).

DRAFT

| | |
|---|---|
| Deilliannau | 3.11 Cynnal archwiliadau rheolaidd, gan ddehongli a rhannu canfyddiadau fel sy'n briodol. Cymryd camau prydlon pan fo angen, gan weithredu ymyriadau priodol, gofyn am archwiliadau neu uwchgyfeirio i weithwyr proffesiynol eraill (Atodiad B).<br><br>3.12 Dangos dealltwriaeth o afiechydon eilaidd a gofynion diwallu anghenion nyrsio a gofal cymdeithasol pobl wrth flaenoriaethu cynlluniau gofal.<br><br>3.13 Dangos gwybodaeth ynghylch pryd a sut i atgyfeirio unigolion yn ddiogel i weithwyr proffesiynol neu wasanaethau eraill ar gyfer ymyrraeth neu gefnogaeth glinigol gan gynnwys asiantaethau gofal ysbyty, iechyd a gofal cymdeithasol, trydydd sector, preifat ac asiantaethau yn y gymuned. |

DRAFT

## 4 Darparu a gwerthuso gofal

**Bydd nyrsys cofrestredig yn arwain y blaen o ran darparu ymyriadau nyrsio, gofal a chymorth diogel, t sy'n seiliedig ar dystiolaeth i bobl o bob oedran ac mewn amrywiaeth o leoliadau gofal.**

**Maent yn sicrhau bod unrhyw ofal nyrsio sydd wedi'i ddirprwyo ganddynt o safon uchel gyson. Maent y gweithio mewn partneriaeth â phobl, teuluoedd a gofalwyr er mwyn gwerthuso p'un a gyflawnir nodau gofal yn unol â'u dymuniadau a'u dewis ganlyniadau.**

| | |
|---|---|
| Deilliannau | Ar adeg cofrestru, bydd nyrs gofrestredig yn cyflawni'r canlynol:<br><br>4.1 Dangos a chymhwyso dealltwriaeth o'r hyn sy'n bwysig i bobl a sut y caiff y wybodaeth hon ei defnyddio i sicrhau bod eu hanghenion o ran urddas, preifatrwydd, cwsg, diogelwch a chysur yn gallu cael eu diwallu a gweithredu fel model rôl o ran darparu gofal sy'n seiliedig ar dystiolaeth ac sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn (Atodiad B).<br><br>4.2 Gweithio mewn partneriaeth â phobl er mwyn annog penderfyniadau a rennir a helpu unigolion, a'u teuluoedd a'u gofalwyr, i reoli eu gofal eu hunain pan fo'n briodol.<br><br>4.3 Dangos y wybodaeth, y sgiliau cyfathrebu a'r sgiliau rheoli cydberthnasau sydd eu hangen er mwyn rhoi gwybodaeth gywir i bobl, teuluoedd a gofalwyr cyn, yn ystod, ac ar ôl amrywiaeth o ymyriadau (Atodiad A).<br><br>4.4 Dangos y wybodaeth, y sgiliau a'r gallu i weithredu fel model rôl er mwyn diwallu anghenion pobl sy'n ymwneud â maethiad, hydradiad a gwaredu, gan ddefnyddio gofal nyrsio sy'n seiliedig ar dystiolaeth (Atodiad B).<br><br>4.5 Dangos y wybodaeth, y sgiliau a'r gallu i weithredu fel model rôl er mwyn diwallu anghenion pobl sy'n ymwneud â symudedd, hylendid, gofal y geg, gofal clwyfau a chyfanrwydd y croen, gan ddefnyddio gofal nyrsio sy'n seiliedig ar dystiolaeth (Atodiad B).<br><br>4.6 Dangos y wybodaeth a'r sgiliau sydd eu hangen i gefnogi pobl â heriau meddyliol, ymddygiadol, gwybyddol a dysgu a symptomau corfforol, gan gynnwys gorbryder, dryswch a phoen (Atodiad B).<br><br>4.7 Dangos y wybodaeth a'r sgiliau sydd eu hangen i flaenoriaethu'r hyn sy'n bwysig i bobl a'u teuluoedd fel y gellir darparu gofal seiliedig ar dystiolaeth sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn ar ddiwedd ei fywyd (gan gynnwys pobl sy'n marw, teuluoedd, y sawl a fu farw ac eraill sydd wedi cael profedigaeth) (Atodiad B).<br><br>4.8 Dangos y wybodaeth a'r gallu i ymateb yn rhagweithiol ac yn brydlon i arwyddion dirywiad neu ofid o ran iechyd meddyliol, corfforol, gwybyddol ac ymddygiadol. Defnyddio'r wybodaeth hon i wneud penderfyniadau clinigol cadarn, cymryd y camau priodol a chadw cofnodion cywir. |

DRAFT

4.9 Dangos y gallu i berfformio'r holl weithdrefnau nyrsio a rheoli dyfeisiau sydd eu hangen i ddiwallu anghenion pobl o ran ymyriadau effeithiol a gofal nyrsio sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn (Atodiad B).

4.10 Deall yr egwyddorion sy'n ategu gweithdrefnau cymorth cyntaf a chymorth bywyd canolradd, a dangos y gallu i berfformio'r rhain yn effeithiol (Atodiad B).

4.11 Dangos egwyddorion optimeiddio diogel ac effeithiol a rhoi meddyginiaeth yn unol â pholisïau lleol a chenedlaethol. Dangos hyfedredd a chywirdeb wrth gyfrifo dognau meddyginiaeth ragnodedig (Atodiad B).

4.12 Dangos gwybodaeth am ffarmacoleg er mwyn llywio'r gwaith o ragnodi yn ddiogel o gyffurlyfr cytûn, gan adnabod effeithiau meddyginiaeth, alergeddau, sensitifrwydd i gyffuriau, sgil effeithiau, gwrtharwyddion, anghydnawseddau ac effaith polyfferylliaeth.

4.13 Dangos gwybodaeth am ddulliau o greu presgripsiynau a rôl rhagnodi cyffredinol, di-drwydded ac all-drwydded. Deall y risgiau posibl sy'n gysylltiedig â'r dulliau hyn.

4.14 Dangos y gallu i weithio mewn partneriaeth â phobl, teuluoedd a gofalwyr er mwyn monitro, gwerthuso ac ailasesu'n barhaus effeithiolrwydd pob cynllun gofal nyrsio cytûn, penderfyniadau a rennir ac ailaddasu nodau cytûn. Dogfennu cynnydd a phenderfyniadau.

4.15 Dangos y gallu i gydlynu prosesau a chyflawni gweithdrefnau sydd ynghlwm wrth gynllunio a rheoli'r gwaith o ryddhau cleifion yn ddiogel o'r ysbyty neu drosglwyddo pobl rhwng lleoliadau gofal.

DRAFT

## 5 Arwain gofal nyrsio a gweithio mewn timau

<table>
<tr><th colspan="2">Mae nyrsys cofrestredig yn rhoi arweiniad nyrsio drwy weithredu fel model rôl ar gyfer arfer gorau wrth ddarparu gofal nyrsio. Maent yn atebol am ddirprwyo gofal a ddarperir gan eraill yn y tîm, gan gynnwys gofalwyr lleyg, a'i oruchwylio. Maent yn chwarae rhan ragweithiol a chyfartal mewn timau rhyngddisgyblaethol, gan gydweithio a chyfathrebu'n effeithiol ag amrywiaeth o gydweithwyr.</th></tr>
<tr><td>Deilliannau</td><td>Ar adeg cofrestru, bydd nyrs gofrestredig yn cyflawni'r canlynol:<br><br>5.1 Deall y theori sy'n ategu egwyddorion arweinyddiaeth effeithiol, dynameg grŵp, ffactorau dynol a dulliau gweithredu sy'n seiliedig ar gryfderau a chymhwyso hyn at broses o weithio mewn tîm a gwneud penderfyniadau (Atodiad A).<br><br>5.2 Deall egwyddorion a phrosesau rheoli perfformiad a sut y mae'r rhain yn berthnasol i rolau arwain ym maes nyrsio.<br><br>5.3 Deall ac esbonio rolau, cyfrifoldebau a chwmpas ymarfer pob aelod o'r tîm nyrsio ac amlddisgyblaethol, a sut i wneud y defnydd gorau o'u cyfraniadau.<br><br>5.4 Arddangos potensial arwain drwy ddangos y gallu i reoli, cefnogi ac ysgogi unigolion a rhyngweithio yn hyderus ag aelodau eraill o'r tîm gofal.<br><br>5.5 Defnyddio amrywiaeth o dechnolegau digidol yn effeithiol ac yn gyfrifol er mwyn cael mynediad at wybodaeth a data, eu mewnbynnu, eu rhannu a'u cymhwyso yn y timau a rhwng asiantaethau.<br><br>5.6 Arwain a rheoli gofal nyrsio grŵp bach o bobl yn effeithiol gan ddangos blaenoriaethu, dirprwyo a neilltuo cyfrifoldebau gofalu priodol i eraill sy'n ymwneud â rhoi gofal.<br><br>5.7 Dangos y gallu i fonitro a gwerthuso ansawdd y gofal a ddarperir gan eraill yn y tîm gan gynnwys cydweithwyr nad ydynt wedi'u cofrestru a gofalwyr lleyg, a'r potensial i ddarparu her a rhoi adborth adeiladol a nodi a chytuno ar unrhyw anghenion dysgu (Atodiad A).<br><br>5.8 Goruchwylio ac addysgu myfyrwyr a chydweithwyr llai profiadol, gan arfarnu ansawdd y gofal nyrsio maent yn ei ddarparu, gan ddogfennu perfformiad, hyrwyddo myfyrio a rhoi adborth adeiladol (Atodiad A).<br><br>5.9 Cyfrannu at oruchwyliaeth glinigol a gweithgareddau myfyrio tîm, er mwyn hyrwyddo gwelliannau mewn ymarfer a gwasanaethau.<br><br>5.10 Deall y systemau y gellir eu defnyddio i ddylanwadu ar bolisi ac ysgogi newid mewn sefydliadau gofal iechyd, gan ddangos datblygiad mewn sgiliau ac ymwybyddiaeth wleidyddol.</td></tr>
</table>

DRAFT

## 6 Gwella diogelwch ac ansawdd gofal

| | |
|---|---|
| **Mae nyrsys cofrestredig yn gwneud cyfraniad allweddol at fonitro gofal a thriniaeth yn barhaus a gwella ansawdd gofal a thriniaeth er mwyn gwella profiad pobl o ganlyniadau iechyd a gofal. Maent yn asesu risgiau i ddiogelwch neu brofiadau ac yn cymryd camau priodol i reoli'r risgiau hynny, gan roi diddordebau, anghenion a dewisiadau pobl yn gyntaf.** | |
| Deilliannau | Ar adeg cofrestru, bydd nyrs gofrestredig yn cyflawni'r canlynol:<br><br>6.1 Dangos dealltwriaeth o egwyddorion methodolegau gwella, cymryd rhan ym mhob cam o weithgarwch archwilio a nodi strategaethau gwella ansawdd priodol.<br><br>6.2 Deall sut y gellir gwerthuso ansawdd ac effeithiolrwydd gofal nyrsio yn ymarferol a dangos sut i ddefnyddio canfyddiadau i gyflwyno gwelliant parhaus.<br><br>6.3 Dangos y gallu i weithio gyda phobl, eu teuluoedd, gofalwyr a chydweithwyr er mwyn datblygu strategaethau gwella ansawdd a diogelwch effeithiol, gan rannu adborth a dysgu o gamgymeriadau a phrofiadau niweidiol a chadarnhaol.<br><br>6.4 Cynnal asesiadau risg mewn lleoliadau cymunedol ac ysbytai yn gywir, gan ddefnyddio amrywiaeth o adnoddau asesu a gwella cyfoes yn rhagweithiol (Atodiad B).<br><br>6.5 Deall a chymhwyso egwyddorion rheoliadau iechyd a diogelwch a chynnal amgylcheddau gwaith a gofal diogel. Nodi'r angen i wneud gwelliannau ac ymateb yn rhagweithiol i beryglon posibl.<br><br>6.6 Deall y gydberthynas rhwng lefelau staffio diogel, cymysgedd digonol o sgiliau a diogelwch ac ansawdd gofal. Adnabod lefelau staffio annigonol ac uwchgyfeirio pryderon yn briodol.<br><br>6.7 Deall a gweithredu yn unol â fframweithiau lleol a chenedlaethol, deddfwriaeth a rheoliadau ar gyfer asesu, rheoli a rhoi gwybod am risgiau, gan sicrhau y cymerir y camau priodol.<br><br>6.8 Dangos dealltwriaeth o sut i nodi a rhoi gwybod am **achosion y bu bron iddynt ddigwydd**, **digwyddiadau critigol**, **digwyddiadau difrifol** a **digwyddiadau andwyol** difrifol a myfyrio'n feirniadol arnynt er mwyn dysgu o hynny a dylanwadu ar ymarfer yn y dyfodol.<br><br>6.9 Cymhwyso dealltwriaeth o'r gwahaniaethau rhwng rheoli risg ac osgoi risg yn effeithiol a all effeithio ar ganlyniadau ansawdd gofal ac iechyd.<br><br>6.10 Cydnabod yr angen i dderbyn a rheoli ansicrwydd, a dangos ymwybyddiaeth o strategaethau sy'n datblygu hunan-wydnwch a gwydnwch eraill.<br><br>6.11 Deall rolau nyrsys cofrestredig a gweithwyr iechyd proffesiynol eraill ar |

lefelau gwahanol o brofiad a lefel swydd wahanol wrth reoli a blaenoriaethu camau gweithredu os bydd digwyddiad difrifol.

DRAFT

## 7 Cydlynu gofal

| **Mae nyrsys cofrestredig yn chwarae rôl arweiniol yn y gwaith o gydlynu a rheoli anghenion nyrsio cymhleth ac anghenion gofal integredig pobl ar unrhyw gam o'u bywydau, a rheoli risgiau mewn amrywiaeth o sefydliadau a lleoliadau.** | |
| --- | --- |
| Deilliannau | Ar adeg cofrestru, bydd nyrs gofrestredig yn cyflawni'r canlynol:<br><br>7.1 Esbonio a deall sut i gymhwyso egwyddorion gweithio mewn partneriaeth, cydweithio a dulliau amlasiantaethol o weithio ym mhob sector iechyd a gofal cymdeithasol<br><br>7.2 Deall deddfwriaeth iechyd a pholisïau iechyd a gofal cymdeithasol presennol a'r systemau sy'n rhan o ddylanwadu ar ddatblygu a newid polisïau<br><br>7.3 Dangos y gallu i nodi goblygiadau polisïau iechyd sy'n bodoli eisoes a newidiadau polisi i broffesiynau nyrsio, iechyd a gofal cymdeithasol a deall eu dylanwad ar sefydliadau a darpariaeth gofal<br><br>7.4 Deall egwyddorion **economeg iechyd** a'u perthnasedd i ddirprwyo adnoddau i sefydliadau iechyd a gofal cymdeithasol mewn asiantaethau eraill.<br><br>7.5 Dangos dealltwriaeth o'r prosesau sy'n rhan o'r gwaith o ddatblygu achos busnes sylfaenol ar gyfer cyllid ychwanegol, drwy gymhwyso gwybodaeth am adnoddau dynol staff ac ariannol, cyllidebau a lefelau staffio diogel<br><br>7.6 Deall a chyfleu'r heriau sy'n gysylltiedig â darparu gofal nyrsio diogel i bobl sydd ag afiechydon eilaidd cymhleth sydd â sawl cyflwr iechyd cymhleth ac anghenion gofal lluosog a dangos y sgiliau a'r priodoleddau personol sydd eu hangen i weithredu fel partner cyfartal mewn tîm amlddisgyblaethol<br><br>7.7 Dangos dealltwriaeth o'r cymhlethdodau o reoli darpariaeth anghenion gofal meddwl, gwybyddol, ymddygiadol a chorfforol mewn ystod eang o leoliadau gofal a'r gallu i gyfleu Strategaethau i wella gofal i gleifion a rheoli risgiau<br><br>7.8 Deall sut i fonitro a gwerthuso ansawdd profiad pobl o ofal cymhleth a datblygu'r gallu i ymgymryd â mesurau rhagweithiol i wella ansawdd gofal a gwasanaethau pan fydd angen<br><br>7.9 Cyfleu egwyddorion trosglwyddo gofal yn ddiogel a deall y prosesau cysylltiedig er mwyn cynllunio a sicrhau y caiff pobl eu rhyddhau a'u trosglwyddo ar draws y gwasanaethau, llwythi achos a lleoliadau yn ddiogel |

DRAFT

| | |
|---|---|
| Deilliannau | 7.10 Datblygu'r wybodaeth a'r sgiliau sydd eu hangen i drafod ac eirioli ar ran pobl er mwyn hwyluso eu hawliau mewn perthynas â mynediad cyfartal at ofal a chymorth.<br><br>7.11 Deall yr egwyddorion a'r prosesau sydd ynghlwm wrth gefnogi pobl a'u teuluoedd fel y gallant barhau i fod yn annibynnol cymaint â phosibl ac osgoi ymyriadau diangen ac amharu ar eu bywydau<br><br>7.12 Dangos dealltwriaeth o bwysigrwydd arddel ymwybyddiaeth wleidyddol drwy gydol eu gyrfa er mwyn sicrhau y caiff gofal nyrsio cofrestredig a diogelwch cleifion, ansawdd a chosteffeithiolrwydd yr effaith fwyaf posibl. |

DRAFT

# Atodiad A: Sgiliau cyfathrebu a rheoli cydberthnasau

## Cyflwyniad

Er mwyn cyflawni'r deilliannau hyfedredd a amlinellir ym mhrif gorff y ddogfen hon (XX) rhaid i nyrsys allu dangos y sgiliau cyfathrebu a rheoli cydberthnasau a ddisgrifir yn yr atodiad hwn, pan fyddant yn cofrestru.

Mae'r gallu i gyfathrebu'n effeithiol, mewn ffordd sensitif a thrugarog, a rheoli cydberthnasau â phobl wrth wraidd y gwaith o ddarparu gofal nyrsio o ansawdd uchel sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn. Rhaid i'r cymwyseddau hyn gael eu dangos ym mhob lleoliad ymarfer a'u haddasu i ddiwallu anghenion pobl o bob oed. Mae angen i nyrsys feddu ar ystod eang o sgiliau a strategaethau cyfathrebu cadarn er mwyn sicrhau bod unigolion, eu teuluoedd a'u gofalwyr yn rhan o'r broses o wneud penderfyniadau gofal sy'n canolbwyntio ar y claf a darparu gofal lle bo'n briodol, a'u bod yn cael y wybodaeth ddiweddaraf ac wedi ymbaratoi'n dda. Mae angen iddynt wneud asesiadau cywir, sy'n ystyriol o ddiwylliant, er mwyn sicrhau bod anghenion, blaenoriaethau a dewisiadau'r unigolyn bob amser yn cael eu gwerthfawrogi a'u diwallu.

Os bydd gan bobl anghenion cyfathrebu arbennig neu anabledd, rhaid gwneud addasiadau rhesymol er mwyn darparu a rhannu gwybodaeth mewn ffordd sy'n sicrhau'r iechyd gorau posibl ac nad yw'n eu hatal rhag cael mynediad cyfartal i ofal o'r ansawdd gorau.

Mae'r sgiliau a restrir isod yn rhai y disgwylir i nyrsys o bob maes ymarfer eu dangos pan fyddant yn cofrestru. Cydnabyddwn fod angen dangos sgiliau dyfnach ac ychwanegol, mwy penodol neu lefel uwch mewn rhai meysydd er mwyn bodloni gofynion cofrestru mewn maes ymarfer nyrsio penodol.

Rhestrir enghreifftiau o ble mae'n rhaid cynnwys dyfnder a chynnwys ychwanegol yn yr Atodiad fel a ganlyn:

- Anabledd Dysgu (AD): mae angen dyfnder a chynnwys ychwanegol ym maes ymarfer nyrsio anableddau dysgu
- Iechyd Meddwl (IM): mae angen dyfnder a chynnwys ychwanegol ym maes ymarfer nyrsio iechyd meddwl
- Iechyd Plant (IP): mae angen dyfnder a chynnwys ychwanegol ym maes ymarfer nyrsio iechyd plant
- Iechyd Oedolion (IO): mae angen dyfnder a chynnwys ychwanegol ym maes ymarfer nyrsio iechyd oedolion.

### Cyfathrebu a rheoli cydberthnasau wrth asesu, cynllunio, darparu a rheoli gofal nyrsio sy'n seiliedig ar dystiolaeth

#### A. Sgiliau cyfathrebu sylfaenol

- gwrando ar arwyddion llafar ac arwyddion nad ydynt yn rhai llafar, eu hadnabod ac ymateb iddynt
- defnyddio awgrymiadau ac atgyfnerthu cadarnhaol llafar neu nad yw'n llafar
- defnyddio dulliau cyfathrebu priodol nad ydynt yn rhai llafar gan gynnwys cyffwrdd, cyswllt llygad a gofod personol
- gwneud defnydd priodol o gwestiynau agored a chaeedig

- defnyddio technegau sgwrsio gofalgar
- sicrhau bod eraill yn deall a defnyddio technegau egluro
- bod yn ymwybodol o duedd anymwybodol eich hun wrth gyfathrebu
- ysgrifennu cofnodion a dogfennaeth gywir, clir a dealladwy
- mewn ffordd hyderus ac eglur, rhannu a chyflwyno gwybodaeth ar lafar ac yn ysgrifenedig gydag unigolion a grwpiau
- dadansoddi a chofnodi a rhannu'n glir wybodaeth a data digidol
- darparu gwybodaeth a chyfarwyddiadau clir ar lafar, yn ddigidol neu'n ysgrifenedig wrth ddirprwyo neu drosglwyddo cyfrifoldeb am ofal
- cydnabod yr angen i ddefnyddio gwasanaethau cyfieithu a deunydd wedi'i gyfieithu a hwyluso hynny

**B. Sgiliau cyfathrebu i helpu pobl i reoli eu heriau iechyd ac atal salwch**

Rhannu gwybodaeth a sicrhau y deellir achosion a goblygiadau a thriniaeth amrywiaeth o gyflyrau iechyd cyffredin gan gynnwys iselder, diabetes, dementia, asthma, clefyd y galon, clefyd anadlu rhwystrol cronig, canser, problemau croen, diffygion imiwnedd, seicosis, strôc ac arthritis.

- defnyddio iaith glir a deunyddiau ysgrifenedig priodol er mwyn helpu pobl i ddeall beth sydd wedi achosi eu cyflwr iechyd a goblygiadau gofal a thriniaeth
- ailadrodd a defnyddio strategaethau atgyfnerthu cadarnhaol
- asesu cymhelliant a'r gallu i newid ymddygiad gan ddefnyddio strategaethau cyfathrebu arfer gorau, sy'n seiliedig ar dystiolaeth
- egluro cydberthnasau achos ac effaith sy'n gysylltiedig ag ymddygiadau risg iechyd cyffredin gan gynnwys smygu, gordewdra, arferion rhywiol, alcohol a chamddefnyddio sylweddau
- adnabod namau ar y synhwyrau gan gynnwys y golwg, lleferydd a chlyw a mabwysiadu strategaethau cyfathrebu priodol
- cefnogi a rheoli'r defnydd o gymhorthion cyfathrebu personol gan gynnwys cymhorthion clyw, sbectol darllen a dyfeisiau gwella'r llais
- egluro gwybodaeth am gamau ataliol, triniaeth a gofal yn briodol, fel ei bod yn gwella dealltwriaeth pobl a'u teuluoedd a'u gofalwyr
- ymdrin â chwestiynau pobl a'u teuluoedd a'u gofalwyr, a'u hateb, gan gydnabod meysydd ansicr
- nodi'r angen am amrywiaeth o dechnegau cyfathrebu cynyddol, a'u rheoli, gan gynnwys iaith arwyddion, arwyddion cymhorthion gweledol a chwyddo
- cael sgyrsiau anodd, gan gynnwys rhannu newyddion drwg a chefnogi pobl sy'n teimlo'n agored i niwed neu mewn trallod, gan gyfleu trugaredd a sensitifrwydd a defnyddio strategaethau cyfathrebu priodol.

**C. Sgiliau cyfathrebu ar gyfer ymyriadau therapiwtig**

- nodi'r angen am ddulliau arfer gorau priodol wrth ddatblygu cydberthnasau therapiwtig â phobl, a'u defnyddio *IM *AD
- Dangos y defnydd effeithiol o'r canlynol:
  - technegau cyfweld cymhellol
  - therapïau seiliedig ar ateb *IM *AD
  - therapïau hel atgofion
  - therapïau siarad *IM
  - strategaethau a thechnegau dad-ddwysáu
  - technegau therapi ymddygiad gwybyddol *IM *AD
  - therapi chwarae *IP, *AD
  - therapïau seiliedig ar ateb *IM
  - strategaethau tynnu sylw a gwyro
  - cymorth i ymddwyn yn gadarnhaol

DRAFT

## D. Sgiliau cyfathrebu ar gyfer gweithio mewn timau proffesiynol

Dangos sgiliau goruchwylio, addysgu ac arfarnu perfformiad effeithiol a darparu:

- cyfarwyddiadau clir ac esboniadau wrth oruchwylio, addysgu neu arfarnu eraill
- cyfarwyddiadau clir a sicrhau bod pawb wedi deall wrth ddirprwyo cyfrifoldebau gofalu i eraill
- adborth adeiladol a chlir ar gryfderau a gwendidau a'r potensial i wella
- anogaeth i gydweithwyr sy'n eu helpu i fyfyrio ar eu hymarfer
- cofnodion perfformiad clir

Dangos sgiliau effeithiol wrth reoli timau drwy:

- ddulliau seiliedig ar gryfderau o ddatblygu timau a rheoli newid
- gwrando'n astud wrth ymdrin â phryderon a gorbryderon aelodau o'r tîm
- presenoldeb digyffro wrth ymdrin â gwrthdaro
- strategaethau gwrthdaro priodol ac effeithiol
- strategaethau a thechnegau dad-ddwysáu wrth ymdrin â gwrthdaro

Dangos sgiliau cydlynu a llywio effeithiol drwy:

- strategaethau negodi priodol
- strategaethau uwchgyfeirio priodol
- dulliau priodol o eirioli

DRAFT

# Atodiad B: Gweithdrefnau nyrsio

## Cyflwyniad

Er mwyn cyflawni'r deilliannau hyfedredd a amlinellir ym mhrif gorff y ddogfen hon (XX) rhaid i nyrsys allu cyflawni'r gweithdrefnau a ddisgrifir yn yr atodiad hwn, pan fyddant yn cofrestru.

Mae'r gallu i gyflawni'r gweithdrefnau hyn, mewn ffordd ddiogel a thrugarog, yn hanfodol i ddarparu gofal seiliedig ar dystiolaeth, sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn. Rhaid i'r gweithdrefnau nyrsio hyn gael eu dangos mewn amrywiaeth o leoliadau gofal gyda phobl o bob oed.  Rhaid i weithdrefnau nyrsio gael eu cyflawni mewn ffordd sy'n adlewyrchu ymwybyddiaeth ddiwylliannol ac yn sicrhau bod anghenion, blaenoriaethau, arbenigedd a dewisiadau unigolion a'u teuluoedd a'u gofalwyr bob amser yn cael eu gwerthfawrogi.

Rhaid sicrhau bod anghenion pobl anabl neu bobl â nam gwybyddol yn cael eu nodi'n briodol a'u diwallu wrth gyflawni gweithdrefnau nyrsio.

Cydnabyddwn fod angen dangos hyfedredd dyfnach ac ychwanegol, mwy penodol neu lefel uwch mewn rhai meysydd er mwyn bodloni gofynion cofrestru mewn maes ymarfer nyrsio penodol.

Rhestrir enghreifftiau o ble mae'n rhaid cynnwys dyfnder a chynnwys ychwanegol yn yr atodiad fel a ganlyn:

- Anabledd Dysgu (AD): mae angen dyfnder a chynnwys ychwanegol ym maes ymarfer nyrsio anableddau dysgu
- Iechyd Meddwl (IM): mae angen dyfnder a chynnwys ychwanegol ym maes ymarfer nyrsio iechyd meddwl
- Iechyd Plant (IP): mae angen dyfnder a chynnwys ychwanegol ym maes ymarfer nyrsio iechyd plant
- Iechyd Oedolion (IO): mae angen dyfnder a chynnwys ychwanegol ym maes ymarfer nyrsio iechyd oedolion.

## Gweithdrefnau ar gyfer asesu anghenion ar gyfer gofal seiliedig ar dystiolaeth sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn

I. Defnyddio dulliau arfer gorau i gymryd hanes, arsylwi ac asesu'n gywir:

- statws iechyd meddwl a lles mewn oedolion a phobl ifanc gan gynnwys iselder, mania a seicosis *IM
- arwyddion o ofid meddyliol ac emosiynol gan gynnwys gorbryder, ofn, profedigaeth, hunan-niwed, syniadaeth hunan-laddol a chamddefnyddio sylweddau

II. Defnyddio dulliau arfer gorau i gymryd hanes, arsylwi ac asesu'n gywir:

- statws iechyd a lles gwybyddol
- arwyddion o ofid gwybyddol gan gynnwys dryswch, nam ar y cof, dementia, blinder a deliriwm

III. Defnyddio dulliau arfer gorau i gymryd hanes, arsylwi ac asesu'n gywir:

- anghenion ymddygiadol seiliedig ar ofid
- arwyddion o ofid meddyliol ac emosiynol gan gynnwys cynnwrf, ymddygiad ymosodol a heriol *AD

IV. Defnyddio dulliau arfer gorau i gymryd hanes, arsylwi ac asesu'n gywir:

- statws iechyd corfforol a lles *IO *IP
- symptomau corfforol ac arwyddion o ofid neu ddirywiad

V. Defnyddio dulliau arfer gorau i gyflawni'r gweithdrefnau canlynol:

- defnyddio technegau llaw a dyfeisiau electronig er mwyn cymryd, cofnodi a dehongli arwyddion hanfodol gan gynnwys tymheredd, pwls, anadlu (TPR), pwysedd gwaed (BP) ac ocsifesurydd pwls

- cyflawni gweithdrefnau gwythïen-bigo a gosod canwla a samplu gwaed, dehongli proffiliau gwaed rheolaidd a nwyon gwaed gwythiennol *IO *IP

- sefydlu a rheoli archwiliadau electrocardiogram (ECG) rheolaidd a dehongli olion annormal normal y deuir ar eu traws yn gyffredin *IO

- rheoli a monitro trallwysiadau cyfansoddion gwaed *IO *IP

- rheoli a dehongli monitorau cardiaidd, pympiau trwytho, monitorau glwcos yn y gwaed a dyfeisiau monitro eraill *IO *IP

- mesur pwysau a thaldra yn gywir, cyfrifo mynegai crynswth corfforol ac adnabod ystod iach ac arwyddocâd clinigol darlleniadau isel/uchel

- cynnal asesiad o'r corff cyfan gan gynnwys statws anadlol, cylchredol, cyhyrysgerbydol, cardiofasgwlaidd a statws y croen *IO *IP

- gwrando ar y frest a dehongli'r canfyddiadau *IO *IP

- casglu ac arsylwi ar sbesimenau sbwtwm, wrin a charthion, gan gynnal dadansoddiadau rheolaidd a dehongli'r canfyddiadau

- mesur a dehongli lefelau'r glwcos yn y gwaed

- adnabod ac ymateb i arwyddion o gam-drin meddyliol, emosiynol neu gorfforol

- cynnal asesiad risg gardiofasgwlaidd llawn *IO

- cynnal a dehongli arsylwadau ac asesiadau niwrolegol

- nodi arwyddion o ddirywiad a sepsis

- rhoi cymorth cyntaf iechyd meddwl sylfaenol

- rhoi cymorth cyntaf iechyd corfforol sylfaenol

- adnabod a rheoli ffitiau, tagu ac anaffylacsis, gan ddarparu cymorth bywyd canolradd priodol

## Gweithdrefnau ar gyfer cynllunio, darparu a rheoli gofal nyrsio sy'n seiliedig ar dystiolaeth

## A. Diwallu anghenion gofal a chymorth o ran gorffwys, cwsg, cysur a chynnal urddas

- arsylwi ar lefelau o gysur a phatrymau gorffwys a chysgu a'u hasesu
- pennu i ba raddau y gall yr unigolyn fod yn annibynnol a rheoli ei ofal ei hun
- defnyddio technegau priodol i wneud y gwely gan gynnwys ar gyfer pobl sy'n anymwybodol neu sydd â symudedd cyfyngedig
- defnyddio technegau lleoli a rhyddhau pwysedd priodol gan gynnwys clustogau a chymhorthion eraill
- cymryd camau priodol i sicrhau preifatrwydd ac urddas drwy'r amser
- cymryd camau priodol i gefnogi hylendid cysgu gwell

## B. Diwallu anghenion gofal a chymorth o ran hylendid a chynnal uniondeb y croen

- arsylwi ar statws y croen a hylendid a'i asesu a phennu'r angen i ymyrryd, gan sicrhau bod yr unigolyn yn aros mor annibynnol â phosibl a'i fod yn gallu rheoli ei ofal ei hun gorau y gall gan ddefnyddio dulliau arfer gorau i asesu uniondeb y croen a risg gan gynnwys mesuriadau dopler
- helpu i ymolchi, cael bath, eillio a gwisgo
- asesu anghenion a darparu gofal y geg, gofal deintyddol, gofal llygaid a gofal ewinedd a phenderfynu pryd mae angen atgyfeirio at ddeintydd, optegydd neu awdiolegydd
- dewis a defnyddio cynhyrchion priodol i atal a rheoli methiant y croen
- gofalu am glwyfau gan gynnwys rhwymiadau, tynnu llinynnau, a chau-sugno (*vacuum closure*) gan ddefnyddio rhwymau cywasgu *IO *IP
- rheoli prosesau draenio clwyfau a'r frest *IO *IP

## C. Diwallu anghenion gofal a chymorth o ran maeth a hydradiad

- arsylwi ar yr angen i ymyrryd, ei asesu a'i bennu, a'r lefel o annibyniaeth a hunanreoli gofal y gall unigolyn feddu arni o bosibl
- defnyddio adnoddau asesu maeth cyfoes
- helpu i fwyta ac yfed a defnyddio cymhorthion bwyta ac yfed priodol
- cofnodi faint o hylif sy'n mynd i mewn i'r corff ac yn dod allan ohono ac adnabod arwyddion o ddadhydradu neu ddargadw dŵr
- gosod, rheoli a thynnu tiwbiau yn y geg/trwyn/gastrig *IP *IO
- rheoli maeth a hydradiad artiffisial gan ddefnyddio llwybrau geneuol, ymysgarol a mamol *IO *IP
- rheoli'r broses o roi hylifau IV
- rheoli pympiau a dyfeisiau trwytho hylif a maethol

## D. Diwallu anghenion gofal a chymorth o ran gwaredu

- arsylwi ar y lefel o ymataliaeth wrinol a choluddol, a'i hasesu, er mwyn pennu'r angen am gymorth, ymyrraeth, lefel o annibyniaeth a lefel o annibyniaeth a hunanreoli gofal a all fod gan unigolyn efallai
- helpu i fynd i'r tŷ bach, cynnal urddas a phreifatrwydd a rheoli'r defnydd o gymhorthion priodol gan gynnwys paniau, poteli a chomodau
- dewis a defnyddio cynhyrchion ymataliaeth priodol gan gynnwys padiau, gweiniau a theclynnau
- gosod, rheoli a thynnu cathetrau ar gyfer pob rhyw a helpu i hunan-gathetreiddio pan fo angen *IO *IP
- rheoli draenio'r bledren
- asesu patrymau gwaredu er mwyn adnabod rhwymedd, dolur rhydd a dargadw wrinol ac ysgarthol
- rhoi enemâu, tawddgyffuriau rhefrol a chynnal archwiliadau rhefrol a gwaredu â llaw pan fo'n briodol
- darparu gofal stoma a defnyddio technegau a chynhyrchion arfer gorau

## E. Diwallu anghenion gofal a chymorth o ran symudedd a diogelwch

- arsylwi ar adnoddau asesu risg cyfoes, a'u defnyddio, er mwyn pennu'r angen am gymorth, ymyrraeth, lefelau o annibyniaeth a'r lefel o annibyniaeth a hunanreoli gofal a all fod gan unigolyn efallai
- nodi a rheoli'r risg o gwympo gan ddefnyddio dulliau asesu risg arfer gorau
- defnyddio amrywiaeth o dechnegau symud a thrafod arfer gorau a chymhorthion symudedd gan gynnwys fframiau a chadeiriau olwyn
- defnyddio cyfarpar priodol gan gynnwys teclynnau codi, dyfeisiau trosglwyddo a sleidwyr cleifion er mwyn helpu pobl i symud
- defnyddio technegau a dyfeisiau diogelwch ac ataliaeth priodol

**F. Diwallu anghenion gofal a chymorth anadlu**

- arsylwi ar yr angen i ymyrryd, a'i asesu, a phennu'r lefel o annibyniaeth a hunanreoli gofal y gall unigolyn feddu arni o bosibl a rheoli'r broses o roi ocsigen gan ddefnyddio amrywiaeth o lwybrau a dulliau arfer gorau
- cymryd a dehongli mesuriadau ocsimetrig a llif uchaf
- defnyddio technegau sugno trwynol a geneuol priodol *IO *IP
- rheoli dyfeisiau anadlu, lleithyddion a nebiwlyddion *IO *IP
- rheoli prosesau a chyfarpar anadlu *IO *IP

**G. Diwallu anghenion gofal a chymorth o ran symptomau cyffredin**

- arsylwi ar adnoddau asesu arfer gorau a'u defnyddio er mwyn pennu graddau symptomau a'r angen am ymyrraeth briodol a'r gallu i hunanreoli
- nodi ymyriadau arfer gorau priodol er mwyn rheoli amrywiaeth o symptomau gan gynnwys:
    - poen
    - cyfog a chwydu
    - dadhydradu
    - anesmwythder
    - cynnwrf
    - newidiadau sydyn mewn hwyliau
    - gorbryder
    - diffyg anadl
    - pyrecsia
    - brech ar y croen a chosi
    - blinder
    - diffyg cwsg
    - angina

**H. Diwallu anghenion gofal a chymorth o ran atal a rheoli heintiau**

- arsylwi ar risgiau haint posibl, eu hasesu ac ymateb iddynt yn gyflym gan ddefnyddio canllawiau arfer gorau
- defnyddio protocolau rhagrybuddio safonol
- defnyddio technegau aseptig, nad ydynt yn cyffwrdd, effeithiol
- defnyddio cyfarpar diogelu personol priodol gan gynnwys menig a masgiau
- rhoi gweithdrefnau ynysu ar waith
- defnyddio technegau golchi dwylo seiliedig ar dystiolaeth
- diheintio cyfarpar a'r amgylchedd yn ddiogel
- defnyddio a gwaredu gwastraff, golch ac eitemau miniog yn ddiogel
- asesu a rheoli dyfeisiau a llinellau meddygol ymwthiol yn ddiogel

**I. Diwallu anghenion gofal a chymorth ar ddiwedd bywyd**


DRAFT

- arsylwi ar yr angen am ymyrraeth, a'i asesu, o ran pobl, teuluoedd a gofalwyr, gan bennu'r lefel o annibyniaeth a hunanreoli gofal a all fod gan unigolyn efallai
- nodi, asesu ac ymateb i symptomau nas rheolir ac arwyddion o ofid gan gynnwys:
  - poen
  - cyfog
  - sychder
  - iselder
  - anesmwythder
  - gorbryder
  - cynnwrf

- rheoli a monitro meddyginiaeth lleddfu symptomau, pympiau trwytho a dyfeisiau eraill
- asesu ac adolygu dewisiadau a blaenoriaethau gofal y sawl sy'n marw ynghyd â'u teulu a'u gofalwyr
- deall a chymhwyso protocolau rhoi organau a meinwe, penderfyniadau blaengynllunio, ewyllysiau byw ac iechyd a phwerau atwrnai parhaol iechyd.
- gofalu am y sawl a fu farw sy'n parchu gofynion a phrotocolau diwylliannol
- cymhwyso a deall penderfyniadau na cheisier dadebru a dilysu marwolaeth ddisgwyliedig

## Cymwyseddau gweithdrefnol gofynnol ar gyfer rheoli meddyginiaethau seiliedig ar dystiolaeth

- cynnal asesiad cychwynnol a pharhaus o bobl sy'n derbyn gofal a'u gallu i gymryd eu meddyginiaeth eu hunain
- cydnabod y gwahanol lwybrau gweithdrefnol y gellir rhagnodi, cyflenwi, a rhoi meddyginiaethau oddi tanynt; a'r cyfreithiau, polisïau, rheoliadau a chanllawiau sy'n eu hategu
- defnyddio egwyddorion rhagnodi diogel o bell a chyfarwyddiadau rhoi meddyginiaeth
- cyfrifo cyffuriau yn gywir ar gyfer amrywiaeth o feddyginiaethau gan gynnwys inswlin a chyffuriau a reolir
- cynnal gwiriadau cywir, gan gynnwys trawsgrifio a thitradu, o unrhyw gyfarwyddyd i gyflenwi neu roi cynnyrch meddyginiaethol
- arfer atebolrwydd proffesiynol wrth sicrhau y rhoddir meddyginiaeth yn ddiogel i'r rheini sy'n derbyn gofal
- rhoi pigiadau gan ddefnyddio llwybrau mewngyhyrol, o dan y croen a thrwy'r gwythiennau a rheoli cyfarpar pigiadau
- rhoi meddyginiaethau gan ddefnyddio amrywiaeth o lwybrau gan gynnwys yn lleol, yn drawsgroenol, drwy anadlu, yn eneuol, yn glywedol, yn drwynol, drwy'r llygaid, yn rhefrol ac yn weiniol
- rhoi a monitro meddyginiaethau gan ddefnyddio dyfeisiau mynediad fasgwlaidd a chyfarpar tiwb
- adnabod ac ymateb i adweithiau andwyol neu annormal i feddyginiaethau gan gynnwys cyffuriau gwrth-seicotig
- storio, cludo a gwaredu cynhyrchion meddyginiaethol yn ddiogel

DRAFT

DRAFT

# Rhestr termau

**Afiechydon eilaidd:** presenoldeb un neu fwy o glefydau neu anhwylderau ychwanegol sy'n digwydd ar y cyd â chlefyd neu anhwylder sylfaenol.

**Anghenion gofal cymhleth:** anghenion unigolyn y mae angen ymateb cydlynol iddynt gan fwy nag un sector neu sefydliad

**Anghydnawseddau:** methu bodoli gyda'i gilydd.

**Archwiliad:** mae hwn yn adolygiad ffurfiol o weithgareddau clinigol er mwyn sicrhau y dilynir arfer gorau

**Asesiad nyrsio:** y broses o gasglu gwybodaeth am nodweddion ffisiolegol, seicolegol, cymdeithaseg ac ysbrydol gan Nyrs Gofrestredig. Gall ystyried popeth am iechyd unigolyn, neu, gall ystyried un agwedd unigol, e.e. eu hiechyd meddwl. Defnyddir asesiad nyrsio fel arfer i nodi anghenion presennol cleifion a'u hanghenion yn y dyfodol. Mae'n ystyried yr hyn sy'n normal a'r hyn nad yw'n normal o ran yr unigolyn a'i iechyd. Mae'n galluogi nyrs i nodi a blaenoriaethu'r gofal a'r driniaeth y gall fod eu hangen ar yr unigolyn.

**Atebolrwydd neu fod yn atebol:** bod yn gyfrifol am eich gweithredoedd eich hun

**Brechu:** triniaeth sy'n galluogi'r corff i ymladd haint penodol.

**Canolbwyntio ar yr unigolyn:** dull gweithredu lle y mae'r unigolyn wrth galon prosesau gwneud penderfyniadau a llunio'r cynllun gofal nyrsio a thriniaeth.

**Cyfanrwydd y croen:** pan fydd y croen yn iach, heb ei niweidio ac yn gallu perfformio ei swyddogaethau sylfaenol.

**Cyffurlyfr:** rhestr o feddyginiaethau.

**Cynlluniau gofal nyrsio:** cynllun gofal a thriniaeth, sydd wedi'i lunio gan y nyrs gofrestredig ac wedi'i gytuno gan yr unigolyn sy'n derbyn y cynllun, er mwyn helpu i reoli iechyd yr unigolyn o ddydd i ddydd.

**Deallusrwydd emosiynol:** bod yn ymwybodol o deimladau ac emosiynau eraill, ac i reoli a mynegi eich emosiynau eich hun. Delio â chydberthnasau rhyngbersonol yn ystyriol a chan ystyried teimladau pobl eraill.

**Digwyddiadau andwyol (gweler hefyd digwyddiadau critigol a digwyddiadau y bu bron iddynt ddigwydd):** digwyddiadau anghyffredin sy'n aml yn annisgwyl ac yn bygwth neu'n achosi niwed gwirioneddol i bobl.

**Digwyddiadau critigol:** unrhyw ddigwyddiad anfwriadol neu annisgwyl a allai fod wedi achosi niwed neu wedi achosi niwed i fwy nag un unigolyn sy'n derbyn gofal.

**Digwyddiadau difrifol:** unrhyw argyfwng y mae'n rhaid rhoi trefniadau arbennig ar waith gan un Gwasanaeth Brys neu fwy, y GIG neu awdurdod lleol ar gyfer y driniaeth gychwynnol, achub a chludo nifer fawr o anafusion.

**Digwyddiadau y bu bron iddynt ddigwydd:** pan fydd digwyddiad andwyol neu gritigol bron â digwydd, ond cafodd ei osgoi yn fwriadol neu'n anfwriadol.

**Diogelu:** diogelu iechyd, lles a hawliau dynol pobl, a'u galluogi i fyw yn rhydd rhag niwed, camdrin ac esgeulustod.

DRAFT

**Dulliau gweithredu yn seiliedig ar gryfderau:** mae ymarfer yn seiliedig ar gryfderau yn broses gydweithredol rhwng yr unigolyn sydd wedi'i gefnogi gan wasanaethau a'r rheini sy'n eu cefnogi, gan eu galluogi i weithio gyda'i gilydd i gyrraedd canlyniad sy'n manteisio ar gryfderau ac asedau'r unigolyn.

**Dynamig grŵp:** prosesau dan sylw pan fydd pobl mewn grŵp yn rhyngweithio.

**Economeg iechyd:** cangen o economeg sy'n ymwneud â materion sy'n gysylltiedig ag effeithlonrwydd, effeithiolrwydd, gwerth ac ymddygiad yn y broses o greu a defnyddio iechyd a gofal iechyd.

**Eiriolwr cleifion:** mae eiriolwr cleifion yn unigolyn sydd wedi'i hyfforddi i helpu pobl i lywio'r system gofal iechyd, yn sicrhau y caiff eu hawliau a'u dymuniadau eu hystyried, ac yn gweithredu fel cyswllt rhwng y claf a'i deulu a staff sefydliadau iechyd neu ofal cymdeithasol.

**Epidemioloeg:** data sy'n galluogi'r gwaith o astudio a dadansoddi patrymau, achosion ac effeithiau cyflyrau iechyd a chlefydau mewn poblogaethau wedi'u diffinio.

**Ffactorau dynol:** mae'n cyfeirio at ffactorau amgylcheddol, sefydliadol a gwaith, a nodweddion dynol ac unigol, sy'n dylanwadu ar ymddygiad yn y gwaith mewn ffordd a all effeithio ar iechyd a diogelwch.

**Gallu:** y gallu i ddefnyddio a deall gwybodaeth i wneud penderfyniad a rhoi gwybod am unrhyw benderfyniad a wneir.

**Gofal nad yw'n gwahaniaethu:** lle mae gweithwyr proffesiynol yn sicrhau na chaiff unrhyw un ei drin yn llai ffafriol yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol nag eraill o dan yr un amgylchiadau neu amgylchiadau tebyg, ar sail oed, lliw, credoau, collfarnau troseddol, diwylliant, anabledd, tarddiad ethnig neu genedlaethol, rhyw, statws priodasol, cyflwr meddygol, iechyd meddwl, cenedligrwydd, ymddangosiad corfforol, credoau gwleidyddol, hil, crefydd, cyfrifoldeb am ddibynyddion, hunaniaeth rywiol, cyfeiriadedd rhywiol neu ddosbarth cymdeithasol.

**Gofal sy'n canolbwyntio ar y claf:** canolbwyntio ar atal, ymyrryd yn gynnar gan gefnogi annibyniaeth a lles.

**Gofal yn seiliedig ar dystiolaeth:** sicrhau y rhoddir unrhyw ofal a thriniaeth i bobl drwy edrych ar ba ymchwil sydd wedi profi ei bod fwyaf effeithiol. Dylid hefyd ystyried dyfarniad a phrofiad y nyrs a barn y claf wrth ddewis y driniaeth sy'n fwyaf tebygol o fod yn llwyddiannus i'r claf unigol.

**Gonestrwydd:** rhaid i weithwyr iechyd proffesiynol fod yn agored ac yn onest pan fydd pethau'n mynd o chwith.

**Goruchwylio clinigol:** nyrs gofrestredig sy'n cyfarfod yn aml â gweithiwr proffesiynol arall, nid o reidrwydd ar lefel uwch, ond fel arfer gyda hyfforddiant o ran sgiliau goruchwylio, i drafod gwaith achos a materion proffesiynol eraill mewn ffordd strwythuredig.

**Gwaredu:** y broses o gael gwared ar rywbeth, boed hynny'n wastraff neu'n gamgymeriadau.

**Gwrtharwyddion:** cyflwr neu ffactor y gellir ei ddefnyddio fel rheswm i wrthod triniaeth feddygol benodol o ganlyniad i'r niwed y byddai'n ei achosi i'r claf.

**Gwybyddol:** Prosesau meddyliol canfyddiad, cof, barn ac ymresymu.

**Heriau iechyd gwybyddol ac ymddygiadol:** ymddygiad sy'n newid a all amrywio o fod yn ysgafn i fod yn ddifrifol, ac sy'n gallu bod yn aflonydd, yn beryglus neu beri straen i eraill. Gall pobl o unrhyw oedran gyflwyno'r heriau hyn o ganlyniad i gyflyrau iechyd meddwl megis dementia neu seicosis, neu gyflyrau corfforol megis strôc neu anafiadau i'r ymennydd. Gall heriau iechyd gwybyddol gyfeirio at broblemau sy'n gysylltiedig â'r cof, iaith, meddwl neu swyddogaethau eraill yr ymennydd, gan amrywio o drafferth ysgafn i drafferth ddifrifol.

**Homeostasis:** gallu neu duedd organeb, cell neu gr ŵp byw i g
un peth er gwaethaf unrhyw newidiadau i'r amgylchiadau o'u cwmpas, neu gyflwr y cydbwysedd mewnol.

**Hydradiad:** cyflenwi dŵr i unigolyn er mwyn adfer neu gynnal y swm cywir o hylif yn y corff.

**Imiwnedd poblogaeth:** pan fydd gan y rhan fwyaf o bobl mewn poblogaeth imiwnedd i haint, mae hwn yn amddiffyn gweddill y bobl yn y boblogaeth rhag yr haint, gan eu bod yn llai tebygol o ddod i gysylltiad â'r haint.

**Imiwneiddio:** y broses o sicrhau bod gan unigolyn imiwnedd neu ymwrthedd i afiechyd heintus, fel arfer drwy roi brechiad iddo.

**Llwyth achos nyrsio:** nifer y bobl y mae nyrs yn gyfrifol am ddarparu gofal iddynt.

**Llythrennedd iechyd:** y graddau y gall unigolion gael, prosesu a deall y wybodaeth a'r gwasanaethau iechyd sylfaenol sydd eu hangen arnynt i wneud dewisiadau iechyd priodol.

**Maethiad:** y broses o ddarparu neu gael y bwyd sydd ei angen ar gyfer iechyd a thwf.

**Meddwl yn feirniadol:** yr arfer o ddadansoddi ac ystyried pob agwedd ar sefyllfa, a thystiolaeth am yr hyn sy'n gweithio orau, wrth wneud penderfyniadau neu gymryd camau gweithredu.

**Methodolegau gwella:** dulliau gweithredu i wella gwasanaethau neu brosesau.

**Moeseg:** yr egwyddorion moesol sy'n llywodraethu ymddygiad unigolyn neu'r gwaith o gynnal gweithgaredd. Mae fframwaith moesegol yn strwythur sy'n cefnogi cydymffurfiaeth â'r egwyddorion hyn ac yn llywodraethu ymddygiad personol a phroffesiynol.

**Myfyrio:** ystyried camau gweithredu neu benderfyniadau yn ofalus a dysgu oddi wrthynt.

**Nyrs gofrestredig:** unrhyw un sy'n meddu ar gymwysterau o gwrs cyn cofrestru a gymeradwyir gan yr NMC neu beth tebyg ac unrhyw un sydd wedi'i gofrestru ar gofrestr yr NMC.

**Osgoi risg:** amharodrwydd i gymryd risgiau neu'n awyddus i osgoi risgiau gymaint â phosibl.

**Penderfyniadau er budd gorau:** rhywbeth a wneir ar ran unigolyn, neu benderfyniad a wneir ar ran yr unigolyn o dan y Ddeddf Galluedd Meddyliol [YEAR], sydd er budd gorau'r unigolyn, pan na fydd gan unigolyn y gallu i wneud penderfyniadau o'r fath ei hun.

**Penderfynyddion cymdeithasol iechyd a lles:** effaith y sefyllfaoedd cymdeithasol y cafodd pobl eu magu ynddynt, a'r sefyllfaoedd y maent yn byw ac yn gweithio ynddynt, ar eu hiechyd, pa mor iach y maent yn teimlo, a pha mor debygol ydynt o fynd yn sâl (er enghraifft, eu cyflogaeth, eu gwaith, eu hincwm, ble maent yn byw, eu hamgylchiadau teuluol).

**Pobl:** yn cynnwys unigolion, cleifion, cleientiaid, teuluoedd a chymunedau a phoblogaethau ar bob cam mewn bywyd.

**Pobl sy'n agored i niwed:** y rheini, o unrhyw oedran, sydd mewn perygl o gael eu camdrin. Rhywbeth a all achosi niwed i unigolyn arall, peryglu ei fywyd, neu dreisio ei hawliau yw camdrin. Gall yr unigolyn sy'n gyfrifol am y camdrin fod yn gwneud hyn yn fwriadol neu efallai nad ydynt yn sylweddoli'r niwed y maent yn ei achosi. Gall y math o
niwed fod yn gorfforol, yn rhywiol, yn seicolegol, yn faterol neu'n ariannol, neu gall fod o ganlyniad i esgeulustod, er enghraifft, achosi creulondeb i blant yn gorfforol, camfanteisio'n ariannol ar bobl hŷn, caethwasiaeth fodern a radicaleiddio.

**Rheoleiddiwr proffesiynol neu reoleiddiwr gweithwyr proffesiynol:** diogelu'r cyhoedd wrth ryngweithio â gweithiwr iechyd neu ofal cymdeithasol proffesiynol, p'un a fydd hynny'n breifat neu yn y GIG, a sicrhau bod y gweithiwr proffesiynol yn bodloni'r safonau a bennwyd gan y rheoleiddiwr perthnasol.

**Rheoli risg:** y dechneg o asesu, lleihau, ac osgoi colled ddamweiniol i'r gwaith o ddarparu gwasanaethau iechyd a gofal.

**Technolegau digidol:** y gallu i ddefnyddio cyfrifiaduron ac adnoddau cyfrifiadurol i ddatrys problemau a chael mynediad at wybodaeth o amrywiaeth o ffynonellau, ei rhannu a chwilio amdani.

**Timau amlddisgyblaethol:** mae timau amlddisgyblaethol yn cynnwys grwpiau o weithwyr proffesiynol sydd o gefndiroedd proffesiynol gwahanol, sy'n arbenigo mewn meysydd clinigol gwahanol.

**Trosglwyddo gofal:** y broses o symud gofal unigolyn rhwng gwasanaethau, llwythi achos a lleoliadau.

**Trydydd sector:** yr amrywiaeth o sefydliadau nad ydynt yn perthyn i'r sector cyhoeddus (sefydliadau sydd wedi'u hariannu gan y wlad drwy drethu ac sy'n rhad ac am ddim ar adeg eu defnyddio) nac i'r sector preifat (sefydliadau lle mae angen i bobl dalu darparwr y gwasanaethau yn uniongyrchol). Mae'n cynnwys sefydliadau gwirfoddol a chymunedol (elusennau cofrestredig a sefydliadau eraill megis cymdeithasau, grwpiau hunangymorth a grwpiau cymunedol), mentrau cymdeithasol, mentrau cydfuddiannol a mentrau cydweithredol.

**Y Cod: Safonau ymarfer ac ymddygiad proffesiynol:** y safonau proffesiynol y mae'n rhaid i nyrsys a bydwragedd eu cynnal er mwyn bod yn gofrestredig i ymarfer yn y DU.

**Ymwrthedd i wrthficrobiaid:** lle y defnyddiwyd rhai gwrthfiotigau yn rhy aml dros sawl blwyddyn, mae'r bacteria yn gyfarwydd â'r gwrthfiotigau, ac felly nid ydynt yn effeithiol mwyach wrth drin heintiau.

**Ymyrraeth:** unrhyw ymchwiliadau, gweithdrefnau neu driniaethau a roddir i unigolyn.

DRAFT

Nursing &
Midwifery
Council

23 Portland Place, London W1B 1PZ
**Ffôn** +44 20 7637 7181 **Ffacs** +44 20 7436 2924
**www.nmc.org.uk**

Y rheoleiddiwr nyrsio a bydwreigiaeth dros
Gymru, Lloegr, yr Alban, a Gogledd Iwerddon

Elusen gofrestredig yng Nghymru a Lloegr (1091434) ac yn yr Alban (SC038362)

Eitem 7: **Atodiad 2**
NMC/17/42
24 Mai 2017

Nursing & Midwifery Council

# Fframwaith addysg: Safonau ar gyfer addysg a hyfforddiant

## Ar gyfer holl ddarparwyr addysg nyrsio a bydwreigiaeth y Deyrnas Unedig

**Noder mai hwn yw'r drafft diweddaraf. Bydd yn cael ei adolygu ymhellach a bydd y Cyngor yn rhoi adborth arno hefyd.**

## Rôl y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth (NMC)

## Yr hyn a wnawn

Rydym yn rheoleiddio nyrsys a bydwragedd yng Nghymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon. Rydym yn bodoli er mwyn diogelu'r cyhoedd. Rydym yn pennu'r safonau ar gyfer addysg, hyfforddiant, ymddygiad a pherfformiad er mwyn i nyrsys a bydwragedd allu darparu gofal iechyd o safon uchel drwy eu gyrfaoedd.

Rydym yn sicrhau bod gan nyrsys a bydwragedd y sgiliau a'r wybodaeth ddiweddaraf a'u bod yn cynnal ein safonau proffesiynol. Mae gennym brosesau clir a thryloyw i ymchwilio i nyrsys a bydwragedd nad ydynt yn cyrraedd ein safonau. Rydym yn cynnal cofrestr o nyrsys a bydwragedd y caniateir iddynt ymarfer yn y DU.

## Cynnwys (i'w gadarnhau)


Cyflwyniad ........................................................................ **Error! Bookmark not defined.**

Cyflwyniad i'n safonau addysg a'r gofynion sy'n sylfaen iddynt ..................................... 6

Graffig drafft........................................................................................................... 7

Egwyddor 1: Diwylliant dysgu ................................................................................ 8

Egwyddor 2: Llywodraethu addysgol ac ansawdd ........................................................ 10

Egwyddor 3: Dysgu a grymuso myfyrwyr.................................................................. 12

Egwyddor 4: Addysgwyr ........................................................................................ 14

Egwyddor 5: Cwricwla ac asesu ............................................................................. 15

Rhestr termau ....................................................................................................... 17

Gwybodaeth ategol (i'w gadarnhau) ................................**Error! Bookmark not defined.**


## Cyhoeddwyd XX

## Yn dod i rym ar XX

## Ynglŷn â'r fframwaith addysg

Mae'r ddogfen hon yn pennu'r safonau ar gyfer addysg a hyfforddiant y mae'n rhaid i bob sefydliad addysg cymeradwy (SAC), lleoliad ymarfer a darparwr dysgu seiliedig ar waith eu cyrraedd er mwyn rheoli a chyflwyno holl raglenni addysg cymeradwy'r NMC.

Mae diogelwch pobl yn ganolog i'r safonau hyn, gan y bydd myfyrwyr mewn cysylltiad â phobl, teuluoedd a gofalwyr drwy gydol eu haddysg a'u hyfforddiant.

Rydym yn pennu gwerthoedd ac ymddygiad proffesiynol pob nyrs a bydwraig sy'n gweithio yn y DU yn *y Cod: Safonau ymarfer ac ymddygiad proffesiynol ar gyfer nyrsys a bydwragedd*. Disgwyliwn i fyfyrwyr nyrsio a bydwreigiaeth gyrraedd y safonau hyn.

Mae'r fframwaith addysg yn cynnwys y safonau a'r gofynion sydd, gyda'i gilydd, yn dynodi beth yw addysg a hyfforddiant proffesiynol effeithiol. Mae gwybodaeth am sut y byddwn yn sicrhau y caiff y safonau addysg a hyfforddiant hyn eu cyrraedd wedi'i nodi yn ein dogfen *Fframwaith Sicrhau Ansawdd*. Ni fyddwn yn cymeradwyo nac yn cynnal cymeradwyaeth rhaglenni addysg a hyfforddiant, oni bai:

1. bod y diwylliant dysgu yn foesegol, yn agored ac yn onest, yn annog dysgu diogel ac effeithiol sy'n parchu egwyddorion cydraddoldeb ac amrywiaeth, ac yn gwneud arloesed, dysgu rhyngbroffesiynol a gwaith tîm yn rhan ohono

2. bod cyfrifoldeb am gydymffurfio â'r holl ofynion cyfreithiol a rheoliadol yn cael ei dderbyn

3. bod myfyrwyr yn cael eu grymuso ac yn cael cynnig y cyfleoedd dysgu sydd eu hangen arnynt mewn amrywiaeth o leoliadau, gan ddefnyddio amrywiaeth o ddulliau i sicrhau deilliannau dymunol y rhaglen a chyrraedd safonau hyfedredd yr NMC

4. bod y rhai sy'n cyflwyno, yn cefnogi, yn goruchwylio ac yn asesu myfyrwyr yn barod, yn fedrus ac yn meddu ar y cymwysterau priodol; a'u bod yn cael y gefnogaeth angenrheidiol ar gyfer eu rôl

5. bod cwricwla a dulliau asesu yn galluogi myfyrwyr i sicrhau'r deilliannau sydd eu hangen i ymarfer yn ddiogel ac yn effeithiol yn eu dewis faes.

SACau sy'n gyfrifol am reoli ansawdd o ddydd i ddydd mewn partneriaeth â phartneriaid lleoliadau ymarfer a dysgu yn y gwaith sy'n cynnig profiad 'ymarferol' o ymarfer i fyfyrwyr. Drwy ein prosesau sicrhau ansawdd, rydym yn sicrhau bod rhaglenni addysg yn cyrraedd ein safonau a bod risgiau’n cael eu rheoli'n effeithiol. Mae'r NMC yn defnyddio amrywiaeth o ffynonellau i fonitro risgiau i ansawdd addysg a hyfforddiant, gan gynnwys adroddiadau gan reoleiddwyr systemau.

Mae ein fframwaith addysg a'r gofynion newydd ar gyfer dysgu ac asesu yn cynnig hyblygrwydd i SACau, lleoliadau ymarfer a darparwyr dysgu seiliedig ar waith wrth iddynt ddatblygu dulliau arloesol o addysgu nyrsys a bydwragedd, tra'n bod yn gyfrifol am gyflwyno a rheoli rhaglenni cymeradwy'r NMC yn lleol yn unol â'n safonau.

Bydd gwybodaeth benodol am ofynion rheoliadol ar gyfer cyflwyno rhaglenni unigol yn cael ei chynnwys mewn safonau gofynion rhaglen ar wahân. Bydd y safonau hyn yn ystyried yn briodol ofynion cyfreithiol, gofynion mynediad, argaeledd dulliau o gydnabod dysgu blaenorol, hyd y rhaglen ac asesiadau.

# Pum egwyddor ar gyfer addysg a hyfforddiant

Mae ein safonau ar gyfer SACau, partneriaid lleoliadau ymarfer a dysgu yn y gwaith wedi'u rhannu'n bum egwyddor sy'n diffinio addysg effeithiol a datblygu, cyflwyno a rheoli rhaglenni. Mae pob safon yn sylfaen i gyfres o ofynion, y mae'n rhaid bodloni pob un ohonynt er mwyn cyrraedd y safon yn ei chyfanrwydd.

Mae'r safonau hyn a'r gofynion sy'n sylfaen iddynt yn gymwys i'r gwaith o ddatblygu, cyflwyno a rheoli pob rhaglen gymeradwy’r NMC. Maent yn gymwys i ddysgu damcaniaethol yn yr ystafell ddosbarth a hefyd i leoliadau ymarfer a dysgu yn y gwaith.

## Egwyddorion addysg a hyfforddiant

Mae pob un o egwyddorion y fframwaith addysg yn canolbwyntio ar agwedd benodol ar addysg a hyfforddiant fel y nodir isod.

**Egwyddor 1: Diwylliant dysgu** blaenoriaethu diogelwch a gwerthfawrogi dysgu ym mhob lleoliad

**Egwyddor 2: Llywodraethu addysgol ac ansawdd** cydymffurfiaeth a gwelliant parhaus ym maes cyflwyno a rheoli addysg

**Egwyddor 3: Dysgu a grymuso myfyrwyr** cefnogi a galluogi myfyrwyr i gyflawni eu deilliannau dysgu a chyrraedd safonau hyfedredd yr NMC

**Egwyddor 4: Addysgwyr ac aseswyr** cefnogi a galluogi goruchwylwyr, addysgwyr ac aseswyr i fod yn effeithiol yn eu rolau

**Egwyddor 5: Cwricwla a dulliau asesu** datblygu a chyflwyno cwricwla yn effeithiol a chadarnhau hyfedredd drwy asesiad cadarn.

## Diagram: Pum egwyddor ar gyfer addysg a hyfforddiant



# Egwyddor 1: Diwylliant dysgu

### Safonau

| | |
|---|---|
| S1.1 | Mae'r diwylliant dysgu yn blaenoriaethu diogelwch pobl, gan gynnwys gofalwyr, myfyrwyr ac addysgwyr, ac yn sicrhau bod modd cynnal gwerthoedd y Cod. |
| S1.2 | Caiff addysg a hyfforddiant ei werthfawrogi ym mhob amgylchedd dysgu. |

### Gofynion

### Dysgu diogel

**Rhaid i SACau, ynghyd â phartneriaid lleoliadau ymarfer a dysgu yn y gwaith, wneud y canlynol:**

G1.1 dangos bod diogelwch pobl yn brif flaenoriaeth ym mhob amgylchedd dysgu

G1.2 blaenoriaethu llesiant pobl, gan hyrwyddo hunanfyfyrio'n feirniadol a dulliau ymarfer diogel yn unol â'r Cod

G1.3 sicrhau y caiff pobl y cyfle i gydsynio'n ddeallus i gael gofal gan y myfyrwyr

G1.4 sicrhau bod myfyrwyr ac addysgwyr yn deall sut i godi pryderon[1] ac y cânt eu hannog a'u cefnogi i wneud hynny heb boeni am ganlyniadau anffafriol

G1.5 sicrhau yr ymchwilir i unrhyw bryderon ac yr ymdrinnir â'r pryderon hynny yn effeithiol

G1.6 sicrhau yr eir i'r afael â phryderon sy'n effeithio ar lesiant defnyddwyr gwasanaeth neu fyfyrwyr ar unwaith ac mewn modd effeithiol

G1.7 sicrhau yr ymchwilir i gamgymeriadau a digwyddiadau yn llawn, ac y caiff myfyrdodau dysgu eu cofnodi a'u rhannu

G1.8 sicrhau y caiff myfyrwyr eu hannog i fod yn agored ac yn onest gyda defnyddwyr gwasanaeth a gofalwyr pan fydd pethau'n mynd o chwith, yn unol â'r ddyletswydd gonestrwydd broffesiynol.[2]

[1] www.nmc.org.uk/standards/guidance/raising-concerns-guidance-for-nurses-and-midwives/
[2] www.nmc.org.uk/standards/guidance/the-professional-duty-of-candour/

**Gwerthfawrogi dysgu**

**Rhaid i SACau, ynghyd â phartneriaid lleoliadau ymarfer a dysgu yn y gwaith, wneud y canlynol:**

G1.9 sicrhau bod y diwylliant dysgu yn deg, yn ddiduedd, yn dryloyw ac yn cydymffurfio ag egwyddorion cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant

G1.10 hyrwyddo gwella rhaglenni drwy ddefnydd effeithiol o ddata amrywiaeth a deilliannau myfyrwyr

G1.11 ceisio adborth gan fyfyrwyr, addysgwyr, defnyddwyr gwasanaeth a gofalwr, a gweithredu ar sail yr adborth hwnnw er mwyn gwella'r ffordd y caiff rhaglenni eu dylunio, eu cyflwyno a'u rheoli

G1.12 gweithio gyda darparwyr gwasanaeth i hyrwyddo a modelu dulliau rhyngbroffesiynol o ddysgu a gweithio

G1.13 cefnogi cyfleoedd i gydweithio ar ymchwil a gwella ar sail tystiolaeth ym maes addysg ac wrth ddarparu gwasanaethau.

# Egwyddor 2: Llywodraethu addysgol ac ansawdd

**Safonau**

S2.1 Mae gan SACau a'u partneriaid lleoliadau ymarfer a dysgu yn y gwaith systemau llywodraethu effeithiol sy'n sicrhau cydymffurfiaeth â'r holl ofynion cyfreithiol, rheoliadol, proffesiynol ac addysgol, yn ogystal â chyfrifoldebau ac atebolrwydd clir ar gyfer bodloni'r gofynion hynny ac ymateb pan nad yw safonau'n cael eu cyrraedd.

S2.2 Mae SACau a'u partneriaid lleoliadau ymarfer a dysgu yn y gwaith yn sicrhau'r diogelwch a'r ansawdd gorau posibl, gan ystyried anghenion amrywiol myfyrwyr, defnyddwyr gwasanaeth, gofalwyr a phob rhanddeiliad arall a gweithio mewn partneriaeth â nhw.

**Gofynion**

**Llywodraethu ac atebolrwydd**

**Rhaid i SACau, ynghyd â phartneriaid lleoliadau ymarfer a dysgu yn y gwaith, wneud y canlynol:**

G2.1 cydymffurfio â'r holl ofynion cyfreithiol,[3] rheoliadol, proffesiynol ac addysgol perthnasol

G2.2 mabwysiadu dull partneriaeth â chyfrifoldeb a rennir ar gyfer dysgu ac asesu ym maes theori ac wrth ymarfer, gan gynnwys cyfathrebu'n glir a derbyn cyfrifoldeb am ddatblygu, cyflwyno a gwerthuso eu rhaglenni

G2.3 sicrhau bod y broses o recriwtio a dethol myfyrwyr yn agored, yn deg ac yn dryloyw

G2.4 sicrhau bod prosesau recriwtio a dethol myfyrwyr yn cynnwys cynrychiolwyr o'r grwpiau rhanddeiliaid perthnasol, gan gynnwys ystod amrywiol o ddefnyddwyr gwasanaeth a gofalwyr

G2.5 dangos proses gadarn o gydnabod dysgu blaenorol a sut mae wedi'i fapio i ddeilliannau dysgu'r rhaglen a safonau hyfedredd yr NMC[4]

G2.6 sicrhau y caiff myfyrwyr eu hysbysu'n llawn am y gofyniad i ddatgan, ar unwaith, unrhyw rybuddion a/neu gollfarnau, cyhuddiadau sydd yn yr arfaeth neu faterion disgyblaethol na chawsant eu datrys gyda chyflogwyr presennol neu flaenorol, ac yr ymdrinnir â datganiadau yn brydlon ac yn deg

[3] Yn cynnwys, ond nid yw'n gyfyngedig i, ddeddfwriaeth berthnasol yr Undeb Ewropeaidd sy'n ymwneud ag addysg a hyfforddiant
[4] Insert link to proficiencies

G2.7 sicrhau bod myfyrwyr yn bodloni gofynion iechyd a chymeriad yr NMC[5] o'r adeg maent yn dechrau ar y rhaglen, hyd at ei chwblhau ac wrth gofnodi eu dyfarniad ar y gofrestr. Mae hyn yn cynnwys asesiad iechyd galwedigaethol boddhaol a gwiriadau cofnodion troseddol

G2.8 rhoi'r wybodaeth a'r cymorth sydd eu hangen ar y myfyrwyr yn eu hamgylcheddau dysgu, er mwyn eu galluogi i ddeall a chydymffurfio â'r prosesau a'r polisïau llywodraethu perthnasol

G2.9 rhoi gweithdrefnau addasrwydd i ymarfer ar waith sy'n gadarn, yn effeithiol, yn deg ac yn ddiduedd er mwyn mynd i'r afael â phryderon yn gyflym am ymddygiad myfyrwyr a allai danseilio mesurau i ddiogelu ac amddiffyn y cyhoedd

G2.10 cadarnhau bod myfyrwyr yn cyrraedd safonau hyfedredd yr NMC yn llawn, gan ddangos eu haddasrwydd i ymarfer a'u cymhwysedd ar gyfer dyfarniad academaidd a phroffesiynol

G2.11 darparu'r wybodaeth a'r dystiolaeth sy'n ofynnol gan y rheoleiddwyr.

**Diogelwch a sicrhau ansawdd**

**Rhaid i SACau, ynghyd â phartneriaid lleoliadau ymarfer a dysgu yn y gwaith, wneud y canlynol:**

G2.12 rhoi sicrwydd bod yr amgylcheddau dysgu yn ddiogel ac yn effeithiol

G2.13 sicrhau bod y capasiti, y cyfleusterau a'r adnoddau ar waith i gynnig cyfleoedd dysgu a phrofiadau ymarferol diogel ac effeithiol i fyfyrwyr fel sy'n ofynnol gan ddeilliannau dysgu eu rhaglenni

G2.14 cydymffurfio â'r fframwaith addysg ar gyfer unrhyw ddysgu y tu allan i'r DU

G2.15 gwella ansawdd, rheoli risg a rhannu arferion effeithiol drwy geisio gwybodaeth a data yn rhagweithiol a'u rhannu'n briodol

G2.16 nodi a chymryd camau rhagweithiol ar unrhyw feysydd i'w gwella, gan fesur perfformiad a deilliannau rhaglen yn rheolaidd yn erbyn safonau a gofynion yr NMC[6] a fframweithiau ansawdd cydnabyddedig eraill ym maes addysg

G2.17 penodi pobl brofiadol sydd â'r cymwysterau priodol i gyflwyno rhaglenni, a nodi nyrsys a bydwragedd fel arweinwyr rhaglen[7] sy'n atebol o ran sicrhau bod pob myfyriwr wedi cyrraedd holl safonau hyfedredd yr NMC erbyn diwedd ei raglen.

---

[5] Canllawiau i SACau ar iechyd a chymeriad
[6] Safonau'r NMC
[7] Bydwraig Arweiniol Addysg ar gyfer rhaglenni addysg bydwreigiaeth cyn cofrestru

## Egwyddor 3: Dysgu a grymuso myfyrwyr

### Safonau

S3.1 Caiff myfyrwyr amrywiaeth o gyfleoedd dysgu ac adnoddau priodol sy'n eu galluogi i gyflawni deilliannau dysgu eu rhaglen, cyrraedd safonau hyfedredd yr NMC a datblygu'r gallu i ddangos yr ymddygiadau proffesiynol a geir yn y Cod.

S3.2 Caiff myfyrwyr eu grymuso a'u cefnogi i fod yn wydn, yn ofalgar, yn fyfyriol ac yn ddysgwyr gydol oes sy'n gallu gweithio mewn timau rhyngbroffesiynol ac amlasiantaeth.

### Gofynion

**Darparu cyfleoedd dysgu a chymorth**

**Rhaid i SACau, ynghyd â phartneriaid lleoliadau ymarfer a dysgu yn y gwaith, sicrhau bod pob myfyriwr:**

G3.1 yn cael ei ystyried a'i barchu waeth beth fo'i anghenion, gan dderbyn cymorth ac addasiadau rhesymol yn unol â deddfwriaeth cydraddoldeb ac anableddau ac arfer da

G3.2 yn cael defnyddio'r adnoddau sydd eu hangen arno i sicrhau'r deilliannau dysgu a chyrraedd safonau hyfedredd yr NMC sy'n ofynnol ar gyfer ei rôl broffesiynol

G3.3 wedi'i baratoi'n dda ar gyfer dysgu ym maes theori ac wrth ymarfer ar ôl cael hyfforddiant sefydlu perthnasol

G3.4 yn cael gwybodaeth amserol a chywir am y cwricwlwm, yr addysgu, yr asesu a'r lleoliadau ymarfer, a gwybodaeth arall sy'n berthnasol i'w raglen

G3.5 yn gallu dysgu drwy ddefnyddio amrywiaeth o ddulliau, gan gynnwys dysgu sydd wedi'i wella drwy dechnoleg a dysgu seiliedig ar efelychu, sy'n briodol ar gyfer ei raglen

G3.6 yn cael cyfleoedd, drwy ei raglen, i gydweithio a dysgu gyda gweithwyr proffesiynol eraill, i ddysgu gyda a chan gyfoedion, ac i ddatblygu sgiliau mentora ac arwain

G3.7 yn cael amser dysgu a gefnogir wrth ymarfer

G3.8 yn cael ei oruchwylio a'i gefnogi pan fydd yn dysgu wrth ymarfer, a hynny gan oruchwylwyr ymarfer[8] sy'n weithwyr iechyd a gofal cymdeithasol proffesiynol, cofrestredig sydd wedi'u paratoi'n dda ac sydd â gwybodaeth a phrofiad cyfredol

[8] gweler Atodiad 1

G3.9 yn cael cyfleoedd drwy gydol ei raglen i ddysgu mewn amrywiaeth o leoliadau ymarfer a rhyngweithio ag amrywiaeth o ddefnyddwyr gwasanaeth, gan ei baratoi i ddarparu gofal i bobl sydd ag anghenion amrywiol

G3.10 yn cael ei gefnogi gan unigolion a thimau mewn amgylcheddau dysgu ym maes theori ac wrth ymarfer yn unol â'i anghenion dysgu, ei alluoedd, ei hyder a'i brofiadau unigol

G3.11 yn cael y gefnogaeth dysgu a bugeiliol i'w rymuso i baratoi ar gyfer ymarfer broffesiynol annibynnol a myfyriol

G3.12 yn cael adborth adeiladol drwy ei raglen gan amrywiaeth o randdeiliaid perthnasol, gan gynnwys defnyddwyr gwasanaeth a gofalwyr i gynorthwyo dysgu myfyriol

G3.13 yn cael ei neilltuo i aseswr ymarfer enwebedig yn ogystal ag aseswr academaidd enwebedig ar gyfer pob rhan o'r rhaglen, a'i fod yn gallu mynd at yr aseswyr hynny

G3.14 yn cael y cymorth a'r wybodaeth angenrheidiol i ymdopi ag unrhyw amharu ar astudio'r rhaglenni am unrhyw reswm

G3.15 yn cael gwybodaeth amserol a chywir am gofrestru â'r NMC neu anodi ei ddyfarniad.

**Grymuso myfyrwyr**

**Rhaid i SACau, ynghyd â phartneriaid lleoliadau ymarfer a dysgu yn y gwaith, sicrhau bod pob myfyriwr:**

G3.16 yn cael cymorth a gwybodaeth sy'n ei annog i gymryd cyfrifoldeb am ei iechyd a'i llesiant corfforol a meddyliol ei hun

G3.17 yn cael cyfleoedd drwy gydol ei raglen i roi adborth ar ansawdd pob agwedd ar ei ddysgu ym maes theori ac wrth ymarfer

G3.18 yn cael ei ddiogelu rhag ymddygiad sy'n tanseilio ei hunanhyder, ei berfformiad neu ei hyder proffesiynol.

# Egwyddor 4: Addysgwyr ac aseswyr

## Safonau

| | |
|---|---|
| S4.1 | Caiff dysgu ac asesu ym maes theori ac wrth ymarfer eu hwyluso'n effeithiol ac yn ddiduedd gan weithwyr proffesiynol profiadol, sy'n meddu ar y cymwysterau priodol ac sydd â'r arbenigedd angenrheidiol ar gyfer eu rolau addysgol. |

## Gofynion

**Rhaid i SACau, ynghyd â phartneriaid lleoliadau ymarfer a dysgu yn y gwaith, sicrhau bod pob addysgwr ac aseswr:**

G4.1 yn bodloni'r gofynion a bennir gan yr NMC[9]

G4.2 yn gosod esiampl broffesiynol bob amser

G4.3 yn cael hyfforddiant sefydlu perthnasol a mynediad at hyfforddiant a chymorth parhaus, gan ystyried deddfwriaeth cydraddoldeb

G4.4 yn cael amser ac adnoddau a gefnogir i'w alluogi i gyflawni ei rôl addysgol yn ogystal â'i gyfrifoldebau proffesiynol eraill

G4.5 yn effeithiol ac yn ymateb i anghenion amrywiol myfyrwyr, gan rannu ei arfer effeithiol ei hun a dysgu gan eraill

G4.6 yn sicrhau dull cyson o ddysgu ac asesu ym maes theori ac wrth ymarfer drwy gysylltu a chydweithio â chydweithwyr a sefydliadau partner

G4.7 yn cael ei gefnogi i ymateb yn effeithiol i bryderon am ddiogelu'r cyhoedd a pherfformiad myfyrwyr yn yr amgylchedd dysgu

G4.8 yn cael adborth gan ystod eang o fyfyrwyr a phobl am effeithiolrwydd ei addysgu, ei oruchwylio a'i asesu

G4.9 yn rhannu ac yn defnyddio tystiolaeth yn briodol i wneud penderfyniadau ar asesu myfyrwyr a'u cynnydd.

[9] Atodiad 1: Gofynion ar gyfer dysgu ac asesu pob rhaglen nyrsio a bydwreigiaeth

## Egwyddor 5: Cwricwla ac asesu

### Safon

| | |
|---|---|
| S5.1 | Caiff cwricwla ac asesiadau eu datblygu, eu rhoi ar waith a'u hadolygu er mwyn sicrhau bod myfyrwyr yn sicrhau'r deilliannau dysgu ac yn cyrraedd safonau hyfedredd yr NMC ar gyfer eu rhaglen gymeradwy. |

### Gofynion

### Cwricwla

**Rhaid i SACau, ynghyd â phartneriaid lleoliadau ymarfer a dysgu yn y gwaith, sicrhau bod eu cwricwla:**

G5.1 yn bodloni gofynion rhaglen yr NMC, gan gynnig cyfleoedd dysgu sy'n galluogi myfyrwyr i gyrraedd safonau hyfedredd yr NMC

G5.2 yn parhau i fod yn berthnasol o ran yr agenda iechyd a gofal cymdeithasol gyfredol

G5.3 yn pwyso a mesur dysgu ym maes theori ac wrth ymarfer yn briodol ar gyfer y rhaglen

G5.4 yn cael eu datblygu gyda mewnbwn gan addysgwyr ac ymarferwyr sydd â phrofiad a chymwysterau digonol a'u llywio gan farn rhanddeiliaid allweddol, gan gynnwys defnyddwyr gwasanaeth, fel y bo'n briodol i'r rhaglen

G5.5 yn darparu strwythur a dilyniannu priodol sy'n integreiddio theori ac ymarfer ar lefelau mwyfwy cymhleth

G5.6 wedi'u strwythuro a'u dilyniannu i alluogi myfyrwyr i reoli eu profiad dysgu eu hunain yn effeithiol ym maes theori ac wrth ymarfer.

### Asesiad

**Rhaid i SACau, ynghyd â phartneriaid lleoliadau ymarfer a dysgu yn y gwaith, sicrhau:**

G5.7 bod asesiadau'n deg, yn ddibynadwy ac yn ddilys i alluogi myfyrwyr i ddangos eu bod wedi cyrraedd safonau hyfedredd yr NMC ar gyfer eu rhaglen

G5.8 bod myfyrwyr sydd ag anableddau yn cael addasiadau rhesymol wrth gael eu hasesu ym maes theori ac wrth ymarfer yn unol â deddfwriaeth cydraddoldeb berthnasol

G5.9 bod myfyrwyr yn cael eu hasesu ym mhob lleoliad ymarfer yn ôl gofynion eu rhaglen

G5.10 bod asesiadau'n cael eu cynnal o bryd i'w gilydd, a'u bod wedi'u mapio yn unol â'r cwricwlwm ac wedi'u dilyniannu i gyfateb i gynnydd drwy'r rhaglen

G5.11 bod asesiadau wrth ymarfer yn cael eu hwyluso a'u cynnal drwy arsylwadau uniongyrchol ac anuniongyrchol a thrwy ddulliau priodol eraill

G5.12 bod ystod o ddefnyddwyr gwasanaeth yn cyfrannu at broses asesu'r myfyriwr

G5.13 bod asesiadau ym maes theori ac wrth ymarfer yn cael eu pwyso a mesur yn briodol i'r rhaglen

G5.14 nad oes unrhyw ddigolledu rhwng asesiadau o ddysgu ym maes theori ac wrth ymarfer

G5.15 bod asesiadau'n cael eu cynnal gan unigolion sydd â gwybodaeth a phrofiad cyfredol ac sydd wedi'u dethol, eu paratoi a'u cefnogi'n briodol ar gyfer eu rôl fel aseswr

G5.16 bod yn rhaid i asesiadau ar gyfer symud drwy raglen a chadarnhau bod y safonau hyfedredd wedi'u cyrraedd ar ôl cwblhau rhaglen gael eu gwneud gan aseswyr academaidd ac ymarfer sy'n nyrsys neu'n fydwragedd cofrestredig â gwybodaeth a phrofiad cyfredol

G5.17 bod aseswyr academaidd ac ymarfer yn cydweithio, gan gytuno ar y dull o asesu myfyrwyr sy'n symud drwy'r rhaglen a chadarnhau bod safonau hyfedredd wedi'u cyrraedd ar ôl cwblhau rhaglen

G5.18 bod y prosesau asesu, dilyniant a gwneud penderfyniadau wedi'u llywio gan gofnodion myfyrwyr gwrthrychol, cywir a thryloyw

G5.19 bod tystiolaeth ar gyfer dysgu ac asesu sy'n digwydd y tu allan i'r DU

G5.20 bod myfyrwyr yn cael adborth gwrthrychol ar eu perfformiad ym maes theori ac wrth ymarfer ar adegau priodol yn eu rhaglen.

## Rhestr termau

1. **Cydnabod dysgu blaenorol:** yn cynnwys cyflawniadau ym maes theori ac wrth ymarfer.

2. **Addysgwyr:** yng nghyd-destun fframwaith addysg yr NMC, mae addysgwyr yn darparu, yn cefnogi, yn goruchwylio a/neu'n asesu dysgu ym maes theori a/neu wrth ymarfer.

3. **Sefydliadau addysg cymeradwy (SACau):** dyma'r statws a ddyfernir i sefydliad, neu ran o sefydliad, neu gyfuniad o sefydliadau sy'n gweithio mewn partneriaeth â lleoliadau ymarfer a darparwyr dysgu seiliedig ar waith. Bydd SACau wedi rhoi sicrwydd i ni eu bod yn gyfrifol am gyflwyno rhaglenni addysg cymeradwy'r NMC a'u bod yn gallu gwneud hynny.

4. **Partneriaid lleoliadau ymarfer a dysgu yn y gwaith:** sefydliadau sy'n cynnig dysgu seiliedig ar ymarfer a'r cymorth angenrheidiol ar gyfer cyrraedd safonau hyfedredd yr NMC.

5. **Amgylcheddau dysgu:** mae hyn yn cynnwys unrhyw amgylchedd o ran lleoliad ffisegol, lle mae dysgu'n digwydd a lle y gwelir y system gwerthoedd, barn ac ymddygiadau a rennir yn y lleoliadau hyn.

6. **Gofynion iechyd a chymeriad (da):** fel y nodir yn ein deddfwriaeth, a hynny yn Erthyglau 9(2)(b) a 5(2)(b) o'r Gorchymyn, mae 'iechyd da' yn golygu y gall yr ymgeisydd ymarfer yn ddiogel ac yn effeithiol naill ai gyda neu heb addasiadau rhesymol. Nid yw'n golygu nad oes ganddo gyflwr iechyd neu anabledd. Bydd yn ofynnol i unrhyw un sy'n ceisio ymuno neu ailymuno â'r gofrestr, p'un a yw wedi cofrestru o'r blaen ai peidio, ddatgan unrhyw gyhuddiadau sydd yn yr arfaeth, collfarnau, rhybuddion gan yr heddlu a phenderfyniadau a wnaed gan gyrff rheoleiddio eraill. Ewch i'n gwefan am ragor o wybodaeth.

7. **Goruchwylwyr ymarfer:** unrhyw weithwyr iechyd a gofal cymdeithasol proffesiynol sy'n cefnogi myfyrwyr â'u dysgu wrth ymarfer.

8. **Aseswr wrth ymarfer ac aseswr academaidd:** yn asesu ac yn cadarnhau bod myfyrwyr wedi sicrhau'r deilliannau dysgu ac wedi cyrraedd safonau hyfedredd yr NMC.

9. **Amser dysgu a gefnogir:** rhaid i bob dysgwr sydd wedi cofrestru ar gyfer un o raglenni addysg cymeradwy'r NMC gael ei gefnogi a'i oruchwylio mewn modd sy'n annog dysgu. Dylai ei gyfranogiad at ddysgu ym maes theori, dysgu wrth ymarfer neu ddysgu seiliedig ar efelychu fod yn seiliedig ar ei angen dysgu a lefel cymhwysedd, a dylai gael ei gefnogi i ymarfer a dysgu heb i ddim darfu arno.

10. **Addasiadau rhesymol:** cyflawnir y ddyletswydd i wneud 'addasiadau rhesymol' yn yr amgylchedd dysgu pan fyddai myfyriwr anabl fel arall dan anfantais sylweddol o gymharu â myfyrwyr nad ydynt yn anabl.

11. **Adnoddau:** yng nghyd-destun fframwaith addysg yr NMC, mae'n cynnwys adnoddau ffisegol yn ogystal ag adnoddau dynol ym maes theori ac wrth ymarfer.

12. **Sicrhau ansawdd:** ein proses i sicrhau bod yr holl SACau yn parhau i fodloni ein gofynion a bod eu rhaglenni addysg cymeradwy yn cydymffurfio â'n safonau.

13. **Defnyddwyr gwasanaeth:** pob unigolyn neu grŵp sy'n cael gwasanaeth gan nyrsys a bydwragedd, gan gynnwys cleifion, unigolion iach, rhieni, plant, teuluoedd, gofalwyr a chynrychiolwyr.

14. **Rhanddeiliaid:** unrhyw unigolyn, grŵp neu sefydliad sydd â diddordeb neu fudd yn y sefyllfa dan sylw, a all effeithio ar weithrediadau, amcanion neu bolisïau'r sefyllfa honno, neu y gallai'r gweithrediadau, amcanion neu bolisïau hynny effeithio arno. Yng nghyd-destun fframwaith addysg yr NMC, mae hyn yn cynnwys myfyrwyr, addysgwyr, sefydliadau partner, defnyddwyr gwasanaeth, gweithwyr proffesiynol eraill, rheoleiddwyr eraill a chomisiynwyr addysg.

15. **Myfyrwyr:** unrhyw unigolyn sy'n cofrestru ar gyfer un o raglenni cymeradwy'r NMC ar lefel cyn cofrestru neu ôl-gofrestru, p'un a yw hynny'n llawn amser neu'n llai na llawn amser.

Nursing & Midwifery Council

# Fframwaith Addysg

# Atodiad 1: Gofynion ar gyfer dysgu ac asesu pob rhaglen nyrsio a bydwreigiaeth

**Noder mai hwn yw'r drafft diweddaraf. Bydd yn cael ei adolygu ymhellach a bydd y Cyngor yn rhoi adborth arno hefyd.**

**Cyflwyniad**

Mae'r *Fframwaith Addysg* a'r *Gofynion ar gyfer dysgu ac asesu pob rhaglen nyrsio a bydwreigiaeth* hyn yn disodli ein *Safonau ar gyfer dysgu ac asesu wrth ymarfer* (2008).

Rhaid darllen y gofynion ar gyfer dysgu ac asesu ar y cyd â'r *Fframwaith Addysg* a gofynion ar wahân yr NMC sy'n benodol i raglenni. Er mwyn i raglenni gael eu cymeradwyo gan yr NMC, rhaid i brifysgolion a'u partneriaid lleoliadau ymarfer a dysgu seiliedig ar waith gyrraedd yr holl safonau sy'n berthnasol i'r rhaglen maent yn ceisio ei chyflwyno.

Mae'r ddogfen hon yn nodi'r rolau y mae'n rhaid iddynt for ar waith er mwyn i ddysgu ac asesu ddigwydd fel rhan o raglenni addysg cymeradwy'r NMC ar gyfer nyrsio a bydwreigiaeth, a rhaid eu cymhwyso at bob rhaglen gymeradwy.

Mae'r gofynion hyn ar gyfer dysgu ac asesu yn cynnig hyblygrwydd i SACau, darparwyr lleoliadau ymarfer a darparwyr dysgu seiliedig ar waith wrth iddynt ddatblygu dulliau arloesol o addysgu nyrsys a bydwragedd, tra'n bod yn gyfrifol am gyflwyno a rheoli rhaglenni cymeradwy'r NMC yn lleol yn unol â'n safonau.

**Gofynion ar gyfer dysgu ac asesu**

1 Er mwyn i SACau, partneriaid lleoliadau ymarfer a phartneriaid dysgu yn y gwaith gael eu cymeradwyo i gyflwyno cyrsiau addysg a hyfforddiant, rhaid iddynt sicrhau:

1.1 bod myfyrwyr yn cael eu cefnogi a'u goruchwylio wrth ymarfer er mwyn sicrhau bod ansawdd y dysgu wrth wneud hynny'n dda a bod deilliannau dysgu'n cael eu sicrhau

1.2 bod person yn cael ei enwebu ym mhob lleoliad ymarfer neu ddysgu yn y gwaith i gefnogi myfyrwyr a mynd i'r afael â materion a phryderon myfyrwyr

1.3 bod rhywun yn ymgymryd â'r rolau canlynol; gellir nodi a/neu ddatblygu rolau ychwanegol i fodloni gofynion lleol:

i. goruchwylwyr ymarfer

ii. aseswr ymarfer (enwebedig)

iii. aseswr academaidd (enwebedig)

2 **Goruchwylwyr ymarfer**

**Rhaid i SACau, ynghyd â phartneriaid lleoliadau ymarfer a phartneriaid dysgu yn y gwaith, sicrhau:**

2.1 bod goruchwylwyr ymarfer yn weithwyr iechyd a gofal cymdeithasol proffesiynol cofrestredig sy'n hwyluso'r broses o sicrhau deilliannau dysgu myfyrwyr pan fyddant yn dysgu wrth ymarfer

2.2 bod pob myfyriwr sy'n astudio rhaglen a gymeradwywyd gan yr NMC yn cael ei oruchwylio pan fydd yn dysgu wrth ymarfer, a hynny gan unigolyn a/neu grŵp o oruchwylwyr ymarfer a drefnwyd sy'n gweithio yn y lleoliad ymarfer hwnnw

2.3 bod goruchwylwyr ymarfer yn cael cymorth priodol i'w paratoi ar gyfer cefnogi a goruchwylio myfyrwyr er mwyn sicrhau eu deilliannau dysgu

2.4 bod digon o weithwyr iechyd a gofal cymdeithasol proffesiynol cofrestredig ar gael i oruchwylio ymarfer mewn lleoliadau, a bod ganddynt wybodaeth bwnc am y maes maent yn ei gefnogi a'i oruchwylio

2.5 bod goruchwylwyr ymarfer yn deall eu rôl yn y broses dysgu ac asesu yn ddigonol, a'r ffaith y bydd eu harsylwadau yn cyfrannu at y broses asesu

2.6 bod goruchwylwyr ymarfer yn cefnogi ac yn goruchwylio'n ddigonol er mwyn eu galluogi i gael sicrwydd o ddysgu a chyflawniad y myfyriwr a chyfrannu at y penderfyniad asesu. Gellir cyflawni hyn drwy fodelau goruchwylio unigolyn neu grŵp

2.7 bod goruchwylwyr ymarfer yn cyfrannu at gofnodion myfyriwr drwy gofnodi, o bryd i'w gilydd, eu harsylwadau ar ddysgu a chyflawniadau'r myfyrwyr maent yn eu goruchwylio

2.8 bod goruchwylwyr ymarfer yn cael digon o gyfleoedd i ymgysylltu ag aseswyr ymarfer ac aseswyr academaidd i rannu eu safbwyntiau ar ddysgu a chyflawniad y myfyrwyr maent yn eu goruchwylio

2.9 bod goruchwylwyr ymarfer yn cael eu cefnogi i godi a/neu ymateb i unrhyw bryderon sy'n ymwneud â diogelu'r cyhoedd neu ymddygiad a chymhwysedd myfyrwyr yn briodol.

## 3 Aseswr ymarfer

**Rhaid i SACau, ynghyd â phartneriaid lleoliadau ymarfer a phartneriaid dysgu yn y gwaith, sicrhau:**

3.1 bod pob myfyriwr sy'n astudio rhaglen a gymeradwywyd gan yr NMC yn cael ei neilltuo i aseswr ymarfer enwebedig ar gyfer pob rhan o'r rhaglen addysg

3.2 bod aseswyr ymarfer yn nyrsys neu'n fydwragedd a gofrestrwyd â'r NMC sydd wedi'u paratoi'n addas ac sy'n cael cymorth parhaus i ymgymryd â'u rôl

3.3 bod gan yr aseswr ymarfer wybodaeth ac arbenigedd cyfredol

3.4 bod myfyrwyr yn cael eu neilltuo i aseswyr ymarfer ar y rhan honno o gofrestr yr NMC maent yn bwriadu ymuno â hi. Nid oes angen iddynt fod ar yr un is-ran o'r gofrestr mae'r myfyriwr yn bwriadu ymuno â hi

3.5 bod myfyrwyr sy'n astudio rhaglen ragnodi anfeddygol a gymeradwywyd gan yr NMC yn cael eu neilltuo i weithiwr iechyd a gofal cymdeithasol

cofrestredig a baratowyd yn addas sy'n rhagnodydd anfeddygol â gwybodaeth ac arbenigedd cyfredol

3.6 bod aseswyr ymarfer yn asesu ac yn cadarnhau cyflawniad dysgu myfyrwyr yn unol â deilliannau dysgu'r rhaglen a'r safonau hyfedredd a sefydlwyd gan yr NMC

3.7 bod digon o aseswyr ymarfer i sicrhau bod pob myfyriwr yn cael ei neilltuo i aseswr ymarfer newydd ar ddechrau pob rhan o'r rhaglen

3.8 bod aseswyr ymarfer yn cael cymorth priodol i'w paratoi ar gyfer asesu a chefnogi myfyrwyr i sicrhau eu deilliannau dysgu

3.9 nad yw aseswyr ymarfer sydd hefyd yn oruchwylwyr ymarfer neu'n ymgymryd â rolau addysgu ac asesu eraill yn goruchwylio ac yn asesu myfyriwr ar gyfer yr un rhan o'r rhaglen addysg.

## 4 Aseswr academaidd

**Rhaid i SACau, ynghyd â phartneriaid lleoliadau ymarfer a phartneriaid dysgu yn y gwaith, sicrhau:**

4.1 bod pob myfyriwr sy'n astudio rhaglen a gymeradwywyd gan yr NMC yn cael ei neilltuo i aseswr academaidd enwebedig ar gyfer pob rhan o'r rhaglen addysg

4.2 bod aseswyr academaidd yn nyrsys neu'n fydwragedd a gofrestrwyd â'r NMC sydd wedi'u paratoi'n addas ac sy'n cael cymorth parhaus i ymgymryd â'u rôl

4.3 bod gan yr aseswr academaidd wybodaeth ac arbenigedd cyfredol

4.4 bod myfyrwyr yn cael eu neilltuo i aseswyr academaidd ar y rhan honno o gofrestr yr NMC maent yn bwriadu ymuno â hi. Nid oes angen iddynt fod ar yr un is-ran o'r gofrestr mae'r myfyriwr yn bwriadu ymuno â hi

4.5 bod aseswyr academaidd yn cyfrannu at ddulliau asesu a chadarnhau cyflawniad dysgu myfyrwyr yn unol â deilliannau dysgu'r rhaglen a'r safonau hyfedredd a sefydlwyd gan yr NMC

4.6 bod digon o aseswyr academaidd i sicrhau bod pob myfyriwr yn cael ei neilltuo i aseswr academaidd newydd ar ddechrau pob rhan o'r rhaglen

4.7 bod aseswyr academaidd yn cael cymorth priodol i'w paratoi ar gyfer asesu a chefnogi myfyrwyr wrth sicrhau eu deilliannau dysgu

4.8 nad yw aseswyr academaidd sydd hefyd yn oruchwylwyr ymarfer neu'n ymgymryd â rolau addysgu a goruchwylio eraill yn goruchwylio ac yn asesu myfyriwr ar gyfer yr un rhan o'r rhaglen addysg.

Nursing & Midwifery Council

# Gofynion ar gyfer rhaglenni addysg nyrsio cyn cofrestru

**Noder mai hwn yw'r drafft diweddaraf. Bydd yn cael ei adolygu ymhellach a bydd y Cyngor yn rhoi adborth arno hefyd.**

# Cyflwyniad

## Rôl y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth (NMC)

## Yr hyn a wnawn

Rydym yn rheoleiddio nyrsys a bydwragedd yng Nghymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon. Rydym yn bodoli er mwyn diogelu'r cyhoedd. Rydym yn pennu'r safonau ar gyfer addysg, hyfforddiant, ymddygiad a pherfformiad er mwyn i nyrsys a bydwragedd allu rhoi gofal iechyd o safon uchel drwy eu gyrfaoedd.

Rydym yn sicrhau bod gan nyrsys a bydwragedd y sgiliau a'r wybodaeth ddiweddaraf a'u bod yn cynnal ein safonau proffesiynol. Mae gennym brosesau clir a thryloyw i ymchwilio i nyrsys a bydwragedd nad ydynt yn cyrraedd ein safonau. Rydym yn cynnal cofrestr o nyrsys a bydwragedd y caniateir iddynt ymarfer yn y DU.

## Y Fframwaith Addysg

Mae'r Fframwaith Addysg, y Safonau hyfedredd ar gyfer y nyrs gofrestredig a'r Gofynion hyn ar gyfer rhaglenni addysg nyrsio cyn cofrestru yn disodli safonau 2010 ar gyfer addysg nyrsio cyn cofrestru.

Mae'r fframwaith addysg a'r gofynion penodol hyn ar gyfer rhaglenni yn datgan y safonau addysg a hyfforddiant y mae'n rhaid i raglenni nyrsio sy'n gofyn am radd eu cael, a'r addysg a'r hyfforddiant y mae'n rhaid i fyfyrwyr nyrsio yn y Deyrnas Unedig (DU) eu cwblhau er mwyn cyrraedd y safonau hyfedredd angenrheidiol ym maes nyrsio yn y dyfodol at ddibenion ymuno â chofrestr yr NMC fel nyrs lefel un.

## Pedwar maes ymarfer nyrsio

Yn unol â Gorchymyn Nyrsys a Bydwragedd (Rhannau o'r Gofrestr a Chofnodion yn y Gofrestr) y Cyngor 2004 (OS 2004/1765), sy'n datgan bod yn rhaid i gofnodion yn y gofrestr gynnwys maes ymarfer yr unigolyn cofrestredig, gall myfyrwyr y DU sy'n cymhwyso mewn maes ymarfer penodol fel nyrs lefel 1 wneud cais i ymuno â chofrestr yr NMC fel nyrs mewn un neu ragor o'r pedwar maes: nyrsio oedolion, nyrsio plant, nyrsio anableddau dysgu a nyrsio iechyd meddwl.

Mae sefydliadau addysg cymeradwy (SACau) a'u partneriaid lleoliadau ymarfer yn gyfrifol ac yn atebol am ddatblygu, cyflwyno a rheoli cwricwla rhaglenni nyrsio. Rhaid i hyn gynnwys llwybrau o fewn y rhaglen sy'n benodol i'r meysydd ymarfer nyrsio perthnasol: nyrsio oedolion, plant, anableddau dysgu ac iechyd meddwl.

Mae'r fframwaith addysg a'r gofynion penodol hyn ar gyfer rhaglenni yn rhoi'r hyblygrwydd i SACau lunio eu cwricwlwm eu hunain a'r ymreolaeth i benderfynu ar y gyfran o oriau generig ac oriau sy'n benodol i faes a ddarperir. Wrth lunio cwricwla ar gyfer dyfarniad deuol, hynny yw rhaglen astudio sy'n arwain at gofrestru mewn dau faes ymarfer nyrsio, mae'r NMC yn disgwyl i'r SACau gyflwyno rhaglen o hyd addas sy'n sicrhau bod y myfyriwr yn hyfedr wrth roi gofal diogel ac effeithiol yn y ddau faes nyrsio.

Rhaid i gwricwla rhaglen gwmpasu'r holl sgiliau hyfedredd, cyfathrebu a meithrin perthynas a'r gweithdrefnau nyrsio[1]. Rhaid i'r maes ymarfer nyrsio oedolion hefyd gynnwys y cynnwys a'r cymwyseddau a nodir yn neddfwriaeth berthnasol yr UE. Rhaid i bob myfyriwr nyrsio ddysgu a chael eu hasesu i'r graddau angenrheidiol wrth baratoi ar gyfer ymarfer fel nyrs gofrestredig yn broffesiynol.

Rydym yn credu y bydd cynnwys ein defnyddwyr gwasanaeth yn y broses o gynllunio a chyflwyno'r cwricwla yn cynyddu hyder y cyhoedd yn addysg nyrsys, yn annog y defnydd o dystiolaeth ategol ac yn annog pobl sy'n ymwneud yn uniongyrchol â nyrsio oedolion, plant, anableddau dysgu neu iechyd meddwl i ymgysylltu yn ystod y gwaith o ddylunio a chyflwyno rhaglenni.

Bydd myfyrwyr nyrsio yn dysgu ac yn cael eu hasesu mewn amgylcheddau theori, efelychu ac ymarfer. Rhaid i SACau a phartneriaid lleoliadau ymarfer sicrhau bod myfyrwyr yn cyrraedd y safonau hyfedredd sy'n berthnasol i'w maes ymarfer disgwyliedig erbyn diwedd y rhaglen. Ar ôl cwblhau rhaglen yn llwyddiannus, bydd myfyrwyr yn cael eu cofrestru gan yr NMC fel unigolion sydd wedi cymhwyso mewn un neu ragor o feysydd ymarfer nyrsio.

## Gofynion ar gyfer rhaglenni nyrsio cyn cofrestru

Mae'r gofynion ar gyfer rhaglenni nyrsio cyn cofrestru yn dilyn taith y myfyriwr, ac maent i'w gweld o dan y penawdau canlynol:

- **Dethol, mynediad a dilyniant:** y gofynion ar gyfer addasrwydd ymgeisydd i astudio rhaglen addysg
- **Cwricwlwm:** cynnwys y rhaglen a sut y caiff ei dylunio, ei chyflwyno a'i gwerthuso
- **Lleoliadau ymarfer:** y gofynion sy'n benodol i ddysgu o fewn ymarfer nyrsio
- **Dysgu ac asesu:** yn ymwneud â dysgu ac asesu myfyrwyr nyrsio cyn cofrestru
- **Cymhwysedd i wneud cais i ymuno â'r gofrestr:** yn datgan y dyfarniad a'r wybodaeth sy'n angenrheidiol ar gyfer ymuno â'r gofrestr

### 1. Dethol, mynediad a dilyniant

**Rhaid i SACau a phartneriaid lleoliadau ymarfer wneud y canlynol:**

1.1 sicrhau, pan fydd myfyrwyr yn dechrau rhaglen ac yn ei hastudio, eu bod yn addas ar gyfer y maes ymarfer nyrsio bwriadedig: nyrsio oedolion, nyrsio plant, nyrsio anableddau dysgu a nyrsio iechyd meddwl

1.2 cynnwys meini prawf dethol a mynediad ar gyfer ymarfer ac ymddygiad proffesiynol yn unol â'r Cod

1.3 sicrhau bod myfyrwyr a gaiff eu recriwtio o'r tu allan i'r DU wedi sefyll prawf y System Brofi Ryngwladol ar gyfer yr Iaith Saesneg (IELTS) yn flaenorol ac wedi ennill isafswm sgôr o 7 ym mhob maes

[1] Nyrs y Dyfodol

1.4 caniatáu dull cyfrifol o gydnabod dysgu blaenorol y gellir ei fapio i'r safonau hyfedredd a deilliannau'r rhaglen ar gyfer y nyrs gofrestredig hyd at uchafswm o 50% o'r rhaglen

1.5 sicrhau bod pob myfyriwr nyrsio cyn cofrestru yn cydymffurfio â Chyfarwyddeb 2005/36/EC ar hyd addysg gyffredinol fel yr amlinellir yn Atodiad 1 i'r ddogfen hon.

## 2. Cwricwlwm

**Rhaid i SACau a phartneriaid lleoliadau ymarfer wneud y canlynol:**

2.1 dylunio a chyflwyno rhaglen sy'n cefnogi dysgu myfyrwyr ac sy'n rhoi profiad o'r pedwar maes ymarfer nyrsio iddynt

2.2 datgan llwybrau o fewn eu rhaglen addysg nyrsio cyn cofrestru sy'n caniatáu i fyfyrwyr ymuno â'r gofrestr fel unigolion sydd wedi cymhwyso mewn un neu ragor o'r meysydd ymarfer nyrsio penodol: nyrsio oedolion, iechyd meddwl, anableddau dysgu neu blant

2.3 datgan y cynnwys cyffredinol a phroffesiynol sy'n angenrheidiol i sicrhau deilliannau'r rhaglen

2.4 datgan y cynnwys sy'n angenrheidiol i sicrhau deilliannau'r rhaglen ar gyfer pob maes ymarfer nyrsio ac, yn arbennig, sicrhau bod cynnwys sy'n benodol i faes o ran diogelu, y gyfraith a chydsyniad, rheoli meddyginiaethau a rhagnodi wedi'i gynnwys er mwyn i fyfyrwyr ymuno â'r gofrestr fel rhai sydd wedi cymhwyso mewn un neu ragor o feysydd ymarfer nyrsio

2.5 sicrhau bod y cwricwlwm yn cydbwyso dysgu theori a dysgu wrth ymarfer (gan gynnwys dysgu efelychu) gan ddefnyddio ystod o strategaethau dysgu ac addysgu

2.6 sicrhau bod llwybrau sy'n arwain at y maes ymarfer nyrsio oedolion wedi'u mapio i'r cynnwys ar gyfer nyrsys sy'n gyfrifol am roi gofal cyffredinol a nodir yn Atodiad V.2 pwynt 5.2.1 o Gyfarwyddeb 2005/36/EC, sydd wedi'i amlinellu yn Atodiad 1 i'r ddogfen hon

2.7 sicrhau bod yr holl raglenni nyrsio cyn cofrestru yn cydymffurfio â gofynion Cyfarwyddeb 2005/36/EC ar gyfer hyd gofynnol rhaglen a amlinellir yn Atodiad 1 i'r ddogfen hon.

## 3. Lleoliadau ymarfer

**Rhaid i SACau a phartneriaid lleoliadau ymarfer wneud y canlynol:**

3.1 darparu lleoliadau ymarfer a fydd yn galluogi myfyrwyr i ddatblygu a chyrraedd y safonau hyfedredd ar gyfer rhoi gofal diogel ac effeithiol i amrywiaeth eang o ddefnyddwyr gwasanaeth, a hynny yn y pedwar maes ymarfer nyrsio

3.2 darparu lleoliadau ymarfer sy'n galluogi myfyrwyr i ddatblygu'r sgiliau cyfathrebu a meithrin perthynas a dilyn y gweithdrefnau nyrsio o fewn eu maes ymarfer nyrsio dewisol (oedolion, plant, anableddau dysgu neu iechyd meddwl)

3.3 sicrhau nad yw dysgu wrth ymarfer a ddarperir drwy efelychu yn fwy na hanner cyfanswm yr oriau a dreuliwyd mewn lleoliadau ymarfer gwirioneddol

3.4 sicrhau bod myfyrwyr yn cael profiad o'r ymarfer amrywiol a ddisgwylir gan nyrsys cofrestredig i ddiwallu anghenion cyfannol pobl ar bob cam mewn bywyd

3.5 sicrhau bod myfyrwyr yn cael profiad o'r oriau amrywiol a ddisgwylir gan nyrsys cofrestredig

3.6 sicrhau y bydd gan fyfyrwyr statws ychwanegol[2] pan fyddant yn dysgu wrth ymarfer.

## 4. Dysgu ac asesu

**Rhaid i SACau a phartneriaid lleoliadau ymarfer wneud y canlynol:**

4.1 sicrhau bod holl ddeilliannau dysgu'r rhaglen yn adlewyrchu'r pedwar maes ymarfer nyrsio sy'n angenrheidiol i gyrraedd y safonau hyfedredd ar gyfer nyrsys cofrestredig

4.2 sicrhau bod dysgu myfyrwyr a'r dulliau o'u cefnogi, eu goruchwylio a'u hasesu yn unol â gofynion yr NMC[3]

4.3 rhoi adborth drwy gydol y rhaglen i gefnogi datblygiad myfyrwyr i'r graddau sy'n angenrheidiol i gyrraedd y safonau hyfedredd ar gyfer nyrsys cofrestredig er mwyn rhoi gofal diogel ac effeithiol i'r amrywiaeth o bobl a defnyddwyr gwasanaeth ym mhob maes ymarfer nyrsio

4.4 sicrhau bod y myfyriwr, drwy gydol y rhaglen, wedi cyrraedd y safonau hyfedredd ar gyfer nyrsys cofrestredig ac wedi sicrhau deilliannau'r rhaglen ar gyfer ei faes ymarfer nyrsio dewisol

4.5 sicrhau bod y myfyriwr wedi datblygu'r sgiliau cyfathrebu a meithrin perthynas ac wedi dilyn y gweithdrefnau nyrsio o fewn ei faes ymarfer nyrsio dewisol (oedolion, plant, anableddau dysgu neu iechyd meddwl)

4.6 sicrhau bod y wybodaeth a'r sgiliau ar gyfer nyrsys sy'n gyfrifol am ofal cyffredinol a nodir yn erthygl 31(6) a'r cymwyseddau ar gyfer nyrsys sy'n gyfrifol am ofal cyffredinol a nodir yn erthygl 31(7) o Gyfarwyddeb 2005/36/EC sy'n berthnasol i'r rhai sy'n ceisio cymhwyso yn y maes ymarfer nyrsio oedolion wedi cael eu datblygu (mae'r rhain wedi'u nodi yn Atodiad 1 isod)

4.7 sicrhau bod yr un pwysoliad yn cael ei roi i waith asesu theori a gwaith asesu dysgu wrth ymarfer.

## 5. Cymhwysedd i wneud cais i ymuno â'r gofrestr

**Rhaid i SACau a phartneriaid lleoliadau ymarfer wneud y canlynol:**

5.1 sicrhau mai gradd baglor yw'r dyfarniad isaf ar gyfer rhaglen nyrsio cyn cofrestru

5.2 rhoi gwybod i fyfyrwyr yn ystod a chyn cwblhau'r rhaglen fod ganddynt bum mlynedd i gofrestru eu dyfarniad gyda'r NMC.

---

[2] Mae statws ychwanegol yn golygu na fydd myfyrwyr sy'n cael profiad o ymarfer fel rhan o'u rhaglen astudio yn cael eu contractio gan unrhyw berson na chorff i roi gofal nyrsio

[3] Gofynion ar gyfer dysgu ac asesu pob rhaglen nyrsio a bydwreigiaeth (Atodiad i'r Fframwaith Addysg)

## Atodiad 1

Yn y DU, mae myfyrwyr yn cymhwyso mewn maes ymarfer nyrsio penodol a gallant wneud cais i ymuno â chofrestr yr NMC fel nyrs mewn un neu ragor o bedwar maes, sef nyrsio oedolion, iechyd meddwl, anableddau dysgu a phlant. Rhaid i raglenni addysg nyrsio oedolion fodloni gofynion yr EU ar gyfer hyfforddiant mewn gofal cyffredinol.

Er mwyn sicrhau cysondeb, rydym hefyd wedi cymhwyso gofynion yr UE o ran hyd cyffredinol addysg a hyd gofynnol rhaglenni at bob un o'r pedwar maes ymarfer.

### Cyfarwyddeb 2005/36/EC yr Undeb Ewropeaidd ar gydnabod cymwysterau proffesiynol (fel y'i diwygiwyd gan Gyfarwyddeb 2013/55/EU)

**Yn gymwys i bob un o'r pedwar maes nyrsio**

Rhaid i'r darparwr addysg sicrhau bod myfyrwyr yn rhoi tystiolaeth dystysgrifiedig o gwblhau addysg gyffredinol o 12 mlynedd.

Rhaid i'r darparwr addysg sicrhau:

- bod y rhaglen nyrsio cyn cofrestru yn gofyn astudio am isafswm o dair blynedd yn llawn amser ac am isafswm o 4,600 o oriau[4]
- bod y rhaglen addysg yn gofyn astudio isafswm o 4,600 o oriau o ddysgu theori a dysgu wrth ymarfer

**Rhaglenni nyrsio oedolion**

Mae Erthygl 31 yn nodi'r gofynion ar gyfer hyfforddi nyrsys sy'n gyfrifol am ofal cyffredinol ac yn nodi'r llinell sylfaen ar gyfer nyrsio cyffredinol yn yr UE. Mae'r gofynion hyn wedi'u nodi isod ac yn cynnwys gofynion ar gyfer y cynnwys, y sgiliau a'r wybodaeth, yn ogystal â'r cymwyseddau y mae'n rhaid i nyrsys oedolion allu eu rhoi ar waith.

Rhaid i raglenni nyrsio oedolion gydymffurfio â'r gofynion hyn.

Rhaid i'r darparwr addysg sicrhau bod y cwricwlwm wedi'i lunio i gynnwys y cynnwys canlynol:

A. Hyfforddiant damcaniaethol

a. Nyrsio:

- natur a moeseg y proffesiwn
- egwyddorion cyffredinol iechyd a nyrsio

[4] Caniateir rhaglen nyrsio cyn cofrestru rhan amser ar yr amod nad yw'r hyd, y lefel na'r ansawdd cyffredinol yn is na'r rhaglen llawn amser tair blynedd fel y nodir yn erthygl 22(a) o Gyfarwyddeb 2005/36/EC

Egwyddorion nyrsio mewn perthynas â'r canlynol:

- meddygaeth gyffredinol ac arbenigol
- llawfeddygaeth gyffredinol ac arbenigol
- gofal plant a phediatreg
- gofal mamolaeth
- iechyd meddwl a seiciatreg
- gofalu am hen bobl a geriatreg

b. Gwyddorau sylfaenol:

- anatomi a ffisioleg
- patholeg
- bacterioleg, feiroleg a pharasitoleg
- bioffiseg, biocemeg a radioleg
- dieteteg
- hylendid
- meddygaeth ataliol
- addysg iechyd
- ffarmacoleg

c. Gwyddorau cymdeithasol:

- cymdeithaseg
- seicoleg
- egwyddorion gweinyddu
- egwyddorion addysgu
- deddfwriaeth gymdeithasol a deddfwriaeth ynglŷn ag iechyd
- agweddau cyfreithiol ar nyrsio

Rhaid i'r darparwr addysg sicrhau bod y cwricwlwm wedi'i lunio i gynnwys y cynnwys canlynol:

B. Hyfforddiant clinigol

a. Nyrsio mewn perthynas â'r canlynol:

- meddygaeth gyffredinol ac arbenigol
- llawfeddygaeth gyffredinol ac arbenigol
- gofal plant a phediatreg
- gofal mamolaeth
- iechyd meddwl a seiciatreg
- gofalu am hen bobl a geriatreg
- nyrsio yn y cartref

Rhaid i'r darparwr addysg sicrhau bod myfyrwyr nyrsio wedi datblygu'r wybodaeth a'r sgiliau canlynol ac yn gallu rhoi'r cymwyseddau canlynol ar waith:

(a) gwybodaeth gynhwysfawr am y gwyddorau y mae nyrsio cyffredinol yn seiliedig arnynt, gan gynnwys dealltwriaeth ddigonol o strwythur, gweithrediadau ffisiolegol ac ymddygiad pobl iach a sâl, a'r berthynas rhwng cyflwr iechyd ac amgylchedd ffisegol a chymdeithasol yr unigolyn;

(b) gwybodaeth am natur a moeseg y proffesiwn ac egwyddorion cyffredinol iechyd a nyrsio;

(c) digon o brofiad clinigol; dylai profiad o'r fath, y dylid ei ddewis oherwydd ei werth

hyfforddi, gael ei feithrin o dan oruchwyliaeth staff nyrsio cymwys ac mewn mannau lle mae nifer y staff cymwys a'r cyfarpar yn briodol i'r gofal nyrsio a roddir i'r claf;

(d) y gallu i gymryd rhan yn y broses o hyfforddi personél iechyd yn ymarferol a phrofiad o weithio gyda phersonél o'r fath;

(e) profiad o gydweithio ag aelodau o broffesiynau eraill yn y sector iechyd.

Rhaid i'r darparwr addysg sicrhau bod myfyrwyr nyrsio wedi datblygu'r wybodaeth a'r sgiliau canlynol ac yn gallu rhoi'r cymwyseddau canlynol ar waith:

(a) cymhwysedd i nodi'r gofal nyrsio sydd ei angen yn annibynnol gan ddefnyddio gwybodaeth ddamcaniaethol a chlinigol gyfredol a chynllunio, trefnu a gweithredu gofal nyrsio wrth drin cleifion ar sail y wybodaeth a'r sgiliau a ddatblygwyd;

(b) cymhwysedd i gydweithio'n effeithiol â chyfranogwyr eraill yn y sector iechyd, gan gynnwys cymryd rhan yn y gwaith o hyfforddi personél iechyd yn ymarferol ar sail y wybodaeth a'r sgiliau a ddatblygwyd;

(c) cymhwysedd i rymuso unigolion, teuluoedd a grwpiau i fabwysiadu ffyrdd iach o fyw a gofalu amdanynt eu hunain ar sail y wybodaeth a'r sgiliau a ddatblygwyd;

(d) cymhwysedd i roi mesurau diogelu bywyd ar waith ar unwaith yn annibynnol a chymryd camau mewn argyfyngau a sefyllfaoedd trychineb;

(e) cymhwysedd i roi cyngor i bobl y mae angen gofal arnynt a'u ffigyrau ymlynol ('attachment figures'), eu cyfarwyddo a'u cefnogi, a hynny'n annibynnol;

(f) cymhwysedd i sicrhau ansawdd gofal nyrsio a'i werthuso, a hynny'n annibynnol;

(g) cymhwysedd i gyfathrebu'n broffesiynol mewn ffordd gynhwysfawr a chydweithredu ag aelodau o broffesiynau eraill yn y sector iechyd;

(h) cymhwysedd i ddadansoddi ansawdd y gofal er mwyn gwella ei hymarfer proffesiynol ei hun fel nyrs sy'n gyfrifol am ofal cyffredinol.

Nursing & Midwifery Council

# Gofynion ar gyfer rhaglenni rhagnodi i nyrsys a bydwragedd cofrestredig

**Noder mai hwn yw'r drafft diweddaraf. Bydd yn cael ei adolygu ymhellach a bydd y Cyngor yn rhoi adborth arno hefyd.**

# Cyflwyniad

## Rôl y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth (NMC)

## Yr hyn a wnawn

Rydym yn rheoleiddio nyrsys a bydwragedd yng Nghymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon. Rydym yn bodoli er mwyn diogelu'r cyhoedd. Rydym yn pennu'r safonau ar gyfer addysg, hyfforddiant, ymddygiad a pherfformiad er mwyn i nyrsys a bydwragedd allu darparu gofal iechyd o safon uchel drwy eu gyrfaoedd.

Rydym yn sicrhau bod gan nyrsys a bydwragedd y sgiliau a'r wybodaeth ddiweddaraf a'u bod yn cynnal ein safonau proffesiynol. Mae gennym brosesau clir a thryloyw i ymchwilio i nyrsys a bydwragedd nad ydynt yn cyrraedd ein safonau. Rydym yn cynnal cofrestr o nyrsys a bydwragedd y caniateir iddynt ymarfer yn y DU.

## Gofynion ar gyfer rhaglenni rhagnodi

Mae'r gofynion hyn ar gyfer rhaglenni addysg a hyfforddiant ym maes rhagnodi yn disodli ein safonau addysg a hyfforddiant blaenorol a nodir yn Safonau hyfedredd nyrsys a bydwragedd sy'n rhagnodi 2006.

Mae'r fframwaith addysg a'r gofynion ar gyfer rhaglenni yn datgan y safonau addysg a hyfforddiant hynny y mae'n rhaid i raglenni rhagnodi mynediad ar gyfer graddedigion eu cyrraedd. Dyma'r rhaglenni y mae'n rhaid i ragnodwyr dan hyfforddiant yn y DU eu cwblhau er mwyn cyrraedd y safonau hyfedredd sy'n angenrheidiol i ymuno â chofrestr yr NMC fel nyrs neu fydwraig sy'n rhagnodi.

Fel rhan o'n hymrwymiad i ddysgu rhyngbroffesiynol, ac i gydnabod dull amlbroffesiynol o sicrhau hyfedredd ym maes rhagnodi, rydym wedi penderfynu bod yn rhaid i bob un o raglenni cymeradwy'r NMC sicrhau deilliannau sy'n bodloni gofynion Fframwaith Cymwyseddau'r Gymdeithas Fferyllol Frenhinol ar gyfer Rhagnodwyr[1] yn y dyfodol.

Ar gyfer pob categori o ragnodydd, mae Fframwaith Cymwyseddau'r Gymdeithas yn gwbl gymwys, a rhaid llwyddo i ddangos pob un o'r cymwyseddau a geir ynddo er mwyn dyfarnu statws rhagnodydd, yn ogystal â pharhau i'w dangos wedi hynny wrth ragnodi. Mae categori'r dyfarniad yn pennu'r llyfrau fformiwlâu y gall rhagnodydd cymwys ragnodi ohonynt.

[1] https://www.rpharms.com/resources/frameworks/prescribers-competency-framework

## Deddfwriaeth a therminoleg sy'n berthnasol i nyrsys a bydwragedd sy'n rhagnodi

Mae'r Gorchymyn Nyrsio a Bydwreigiaeth [Erthygl 19(6)] yn datgan bod gan ein Cyngor yr awdurdod i bennu'r safonau addysg a hyfforddiant y mae'n rhaid i Sefydliadau Addysg Cymeradwy (SACau) eu cyrraedd o ran cymwysterau ychwanegol y gellir eu cofnodi ar y gofrestr.

Mae SACau, eu partneriaid dysgu yn y gwaith a chyflogwyr yn gyfrifol ac yn atebol am ddatblygu, cyflwyno a rheoli cwricwla rhaglenni rhagnodi ar gyfer nyrsys a bydwragedd.

### Teitlau, cymwysterau a llyfrau fformiwlâu

Mae'r tri theitl canlynol yn dal i fod yn gymwys fel o'r blaen i'r nyrsys, y bydwragedd a'r Nyrsys Iechyd y Cyhoedd Cymunedol Arbenigol (NICCA) hynny sy'n gallu rhagnodi.

1. **Ymarferydd nyrsio (neu fydwreigiaeth) cymunedol sy'n rhagnodi** – Mae hwn yn cyfeirio at nyrs (lefel 1), bydwraig neu NICCA gofrestredig sydd ag anodiad yn erbyn ei henw ar ein cofrestr sy'n cadarnhau ei bod yn gymwys i ragnodi cyffuriau, meddyginiaethau a chyfarpar o Lyfr Fformiwlâu Nyrsys sy'n Rhagnodi ar gyfer Ymarferwyr Cymunedol[2] yn rhifyn presennol Llyfr Fformiwlâu Cenedlaethol Prydain[3].

Er mwyn ennill statws ymarferydd nyrsio (neu fydwreigiaeth) cymunedol sy'n rhagnodi, rhaid i nyrs, bydwraig neu NICCA gwblhau'r naill gwrs neu'r llall yn llwyddiannus:

- cwrs i ddod yn ymarferydd nyrsio cymunedol sy'n rhagnodi (V100) fel rhan o raglen addysg ar gyfer y rhai sydd â chymhwyster NICCA presennol a gymeradwywyd neu gymhwyster ymarfer arbenigol (CYA) presennol a gymeradwywyd ym maes nyrsio ardal, neu
- cwrs V150 i nyrsys neu fydwragedd **nad** oes ganddynt y cymhwyster ymarferydd nyrsio cymunedol (V100) fel rhan o raglen addysg integredig, er enghraifft fel rhan o CYA ym maes nyrsio ardal neu raglen ymweliadau iechyd NICCA, ond sydd am feddu ar gymhwyster i ragnodi o Lyfr Fformiwlâu Nyrsys sy'n Rhagnodi ar gyfer Ymarferwyr Cymunedol yn rhifyn presennol Llyfr Fformiwlâu Cenedlaethol Prydain.

2. **Nyrs-ragnodydd (neu fydwraig-ragnodydd) annibynnol** – Mae hwn yn cyfeirio at nyrs (lefel 1), bydwraig neu NICCA gofrestredig sydd ag anodiad yn erbyn ei henw ar ein cofrestr sy'n cadarnhau y gall ragnodi unrhyw feddyginiaeth am unrhyw gyflwr meddygol yn unol â'i chymhwysedd (heblaw cyffuriau penodol a reolir).

3. **Rhagnodydd atodol** – Mae hwn yn cyfeirio at nyrs (lefel 1), bydwraig neu NICCA gofrestredig sydd ag anodiad yn erbyn ei henw ar ein cofrestr sy'n cadarnhau ei bod yn gallu gweithio mewn partneriaeth â rhagnodydd annibynnol

[2] https://www.evidence.nhs.uk/formulary/bnfc/current/nurse-prescribers-formulary/nurse-prescribers-formulary-for-community-practitioners
[3] https://www.evidence.nhs.uk/formulary/bnf/current

(megis meddyg neu ddeintydd) er mwyn gweithredu cynllun rheoli clinigol y cytunwyd arno ar ôl i'r claf/cleient y mae'r cynllun yn berthnasol iddo gytuno i hynny.

Er mwyn ennill statws rhagnodydd annibynnol/atodol, rhaid i nyrs, bydwraig neu NICCA gwblhau rhaglen baratoi i ddod yn rhagnodydd annibynnol/atodol (V300).

Roedd statws rhagnodydd llyfr fformiwlâu estynedig ac annibynnol ar gael yn flaenorol drwy gwblhau rhaglen ragnodi V200 yn llwyddiannus cyn i ragnodi atodol gael ei gyflwyno yn 2003.[4]

Mae'r teitlau hyn wedi'u nodi yn y gyfraith[5] ac yn ein deddfwriaeth fewnol ein hun[6].

[4] Nid yw'r cwrs hwn ar gael mwyach, ond bydd nyrsys a bydwragedd gweithredol ar y gofrestr o hyd sy'n cynnwys hwn fel anodiad dilys yn erbyn eu henw ar y gofrestr.
[5] Rheoliadau Meddyginiaethau Dynol OS 2012/1916, rheoliadau 214(3)(c), 214(3)(d) a 214(4).
[6] Gorchymyn Nyrsys a Bydwragedd (Rhannau o'r Gofrestr a Chofnodion yn y Gofrestr) y Cyngor 2004 OS 2004/1765, Erthygl 7(2).

**Gofynion ar gyfer rhaglenni**

## 1 Dethol, mynediad a dilyniant

**Rhaid i SACau a phartneriaid yn y gwaith wneud y canlynol:**

1.1. sicrhau bod ymgeiswyr yn nyrsys neu'n fydwragedd lefel 1 cyn eu bod yn gymwys i astudio rhaglen ragnodi ôl-gofrestru a gymeradwywyd gan yr NMC

1.2. sicrhau bod y rhai sy'n ymgeisio i astudio rhaglen ragnodi V300 wedi cwblhau o leiaf un flwyddyn o ymarfer ôl-gofrestru

1.3. ystyried cydnabod dysgu blaenorol y gellir ei fapio i fframwaith cymwyseddau'r Gymdeithas Fferyllol Frenhinol

1.4. cadarnhau bod gan ymgeiswyr gymorth priodol wrth ddechrau'r rhaglen a drwy gydol ei hastudio, o ran dysgu yn y gwaith

1.5. sicrhau bod y dyfarniad gofynnol ar gyfer eu rhaglenni rhagnodi ar lefel gradd baglor

## 2 Cwricwlwm

**Rhaid i SACau a phartneriaid yn y gwaith wneud y canlynol:**

2.1 sicrhau bod deilliannau'r rhaglen ragnodi wedi'u dylunio i gyrraedd y safonau cymhwysedd a nodir yn fframwaith cymwyseddau'r Gymdeithas Fferyllol Frenhinol

2.2 datgan y strategaethau dysgu ac addysgu a ddefnyddir i helpu i fodloni gofynion fframwaith cymwyseddau'r Gymdeithas Fferyllol Frenhinol

2.3 datblygu deilliannau'r rhaglen sy'n llywio dysgu myfyrwyr o ran y llyfr fformiwlâu y mae angen i'r myfyriwr sy'n rhagnodi ei wybod

2.3.1 datgan y cynnwys cyffredinol a phroffesiynol sy'n angenrheidiol i sicrhau deilliannau'r rhaglen

2.3.2 datgan y cynnwys sy'n benodol i ragnodi sy'n angenrheidiol i sicrhau deilliannau'r rhaglen

2.3.3 cadarnhau y gellir cymhwyso deilliannau'r rhaglen at bob un o bedwar maes ymarfer nyrsio (nyrsio oedolion, iechyd meddwl, anableddau dysgu a phlant) a bydwreigiaeth

2.4 sicrhau bod y cwricwlwm yn cydbwyso dysgu ym maes theori, dysgu seiliedig ar efelychu a dysgu wrth ymarfer, gan ddefnyddio ystod o strategaethau dysgu ac addysgu

## 3 Dysgu yn y gwaith

**Rhaid i SACau a phartneriaid yn y gwaith wneud y canlynol:**

3.1 sicrhau nad yw dysgu yn y gwaith a ddarperir drwy efelychu yn fwy na chyfran yr oriau a dreulir mewn lleoliadau gwaith

3.2 sicrhau bod dysgu yn y gwaith yn cael ei oruchwylio a'i asesu gan 'aseswr ymarfer'. Bydd y person hwn yn ymgymryd â'r un rôl a bydd angen yr un cymwysterau arno â'r aseswr ymarfer ar gyfer unrhyw raglen addysg cyn cofrestru neu ôl-gofrestru arall a gymeradwywyd gan yr NMC, ond gall yr aseswr ymarfer ar gyfer rhagnodi fod yn unrhyw weithiwr gofal iechyd proffesiynol cofrestredig sydd â chymwysterau addas ac sy'n rhagnodydd profiadol – nid oes angen iddo/iddi fod yn nyrs neu'n fydwraig

3.3 sicrhau bod myfyrwyr yn gweithio mewn partneriaeth gyda'r darparwr addysg a'u partneriaid yn y gwaith i drefnu eu haseswr ymarfer

3.4 sicrhau bod SACau yn gyfrifol am roi'r trefniadau a'r dulliau llywodraethu ar gyfer dysgu yn y gwaith ar waith ar gyfer yr ymgeiswyr hynny sy'n hunangyflogedig.

## 4 Dysgu ac asesu

**Rhaid i SACau a phartneriaid yn y gwaith wneud y canlynol:**

4.1 sicrhau bod arweinydd y rhaglen yn nyrs a/neu'n fydwraig gofrestredig a/neu'n weithiwr gofal iechyd proffesiynol sydd â chymwysterau a phrofiad proffesiynol, rhagnodi ac addysgu

4.2 sicrhau bod arweinydd y rhaglen yn gweithio ar y cyd â'r Fydwraig Arweiniol Addysg a'r aseswr ymarfer er mwyn sicrhau cefnogaeth ddigonol i unrhyw fydwragedd sy'n astudio rhaglenni rhagnodi

4.3 sicrhau bod dysgu myfyrwyr a'r broses o'u cefnogi, eu goruchwylio a'u hasesu yn unol â gofynion yr NMC[7] a bod yr aseswr ymarfer yn rhagnodydd

4.4 rhoi adborth drwy'r rhaglen i gefnogi datblygu myfyrwyr i'r graddau sy'n angenrheidiol i gyrraedd safonau cymhwysedd y Gymdeithas Fferyllol Frenhinol

4.5 asesu addasrwydd myfyrwyr ar gyfer dyfarniad yn seiliedig ar gwblhau cyfnod o ddysgu yn y gwaith sy'n berthnasol i'w maes ymarfer rhagnodi yn llwyddiannus

4.6 sicrhau bod holl ddeilliannau dysgu'r rhaglen yn cael eu sicrhau, gan fynd i'r afael â'r holl feysydd sy'n angenrheidiol i fodloni gofynion fframwaith cymwyseddau'r Gymdeithas Fferyllol Frenhinol. Mae hyn yn golygu bod pob myfyriwr:

[7] Gofynion ar gyfer dysgu ac asesu pob rhaglen nyrsio a bydwreigiaeth (Atodiad i'r Fframwaith Addysg)

4.6.1 yn llwyddo mewn arholiad ffarmacoleg (rhaid ennill sgôr o 80% o leiaf i lwyddo yn yr arholiad)

4.6.2 yn llwyddo mewn asesiad rhifedd sy'n ymwneud â rhagnodi a chyfrifo meddyginiaethau (rhaid ennill sgôr o 100% yn yr asesiad)

## 5 Cymhwysedd i ymuno â'r gofrestr

**Rhaid i SACau a phartneriaid yn y gwaith wneud y canlynol:**

5.1 ar ôl i'r nyrs, y fydwraig neu'r NICCA gwblhau rhaglen baratoi a gymeradwywyd gan yr NMC yn llwyddiannus, cadarnhau ei bod yn gymwys i gael ei chofnodi'n rhagnodydd, yn y naill neu'r ddau gategori isod:

5.1.1 ymarferydd nyrsio (neu fydwreigiaeth) cymunedol sy'n rhagnodi (V100/V150), neu

5.1.2 nyrs-ragnodydd neu fydwraig-ragnodydd annibynnol/rhagnodydd atodol (V300)

5.2 rhoi gwybod i'r myfyriwr sy'n rhagnodi bod yn rhaid cofrestru'r dyfarniad gyda ni o fewn blwyddyn o gwblhau'r rhaglen yn llwyddiannus. Bydd methu â chofrestru'r dyfarniad o fewn blwyddyn yn golygu nad yw'r cymhwyster yn ddilys mwyach a bydd yn rhaid i'r unigolyn dan sylw ail-astudio’r rhaglen a'i chwblhau'n llwyddiannus er mwyn bod yn gymwys a chofrestru ei ddyfarniad fel rhagnodydd

5.3 rhoi gwybod i'r myfyriwr sy'n rhagnodi mai dim ond ar ôl i'r cymhwyster gael ei gofnodi gyda ni y gall ragnodi.

Eitem 7: **Atodiad 6**
NMC/17/42
24 Mai 2017

ROYAL PHARMACEUTICAL SOCIETY

# Fframwaith Cymhwysedd i Bawb sy'n Presgripsiynu

Dyddiad cyhoeddi: Gorffennaf 2016

Dyddiad adolygu: Gorffennaf 2020

NICE accredited
www.nice.org.uk/accreditation

Mae NICE wedi achredu'r broses a ddefnyddir gan y Gymdeithas Fferyllol Frenhinol er mwyn cynhyrchu ei chanllawiau a safonau proffesiynol. Mae'r achrediad yn ddilys am 5 mlynedd o 17 Chwefror 2017.

I gael mwy o fanylion am achrediad NICE, ewch i: www.nice.org.uk/accreditation

Association for Prescribers | BDA The Association of UK Dietitians | BDA British Dental Association | British Pharmacological Society | Chartered Society of Physiotherapy | The Society & College of Radiographers | The College of Optometrists | The College of Podiatry | Royal College of General Practitioners | Royal College of Nursing | Royal College of Physicians

# CYNNWYS

1.0 CYFLWYNIAD 2

2.0 SUT Y DIWEDDARWYD Y FFRAMWAITH 3

3.0 PWRPAS A DIBENION Y FFRAMWAITH 4

4.0 CWMPAS Y FFRAMWAITH 7

5.0 RÔL PROFFESIYNOLDEB 8

6.0 FFRAMWAITH CYMHWYSEDD PRESGRIPSIYNU 9

7.0 RHOI'R FFRAMWAITH AR WAITH 15

GEIRFA 16

CYFEIRIADAU 17

ATODIAD 1
SUT Y DIWEDDARWYD Y FFRAMWAITH 18

ATODIAD 2 CYDNABYDDIAETHAU 20

# 1.0 CYFLWYNIAD

Mae meddyginiaethau yn cael eu defnyddio'n amlach nag unrhyw ymyrraeth arall gan gleifion er mwyn rheoli eu cyflyrau meddygol. Mae nifer y meddyginiaethau sy'n cael eu presgripsiynu a chymhlethdod yr amrywiol feddyginiaethau y mae cleifion yn eu cymryd yn cynyddu. Wrth i'r boblogaeth heneiddio, a morbidrwydd lluosog yn fwy cyffredin, mae polifferylliaeth yn dod yn norm i gleifion [1,2]. Mae'r cynnydd hwn mewn cymhlethdod yn golygu, heblaw am ddatblygu a chynnal cymhwysedd presgripsiynu ar gyfer cyflyrau unigol, bod presgripsiynwyr yn wynebu'r her o ddiweddaru eu gwybodaeth am feddyginiaethau newydd wrth iddynt ymddangos ar y farchnad, a bod yn ymwybodol o ryngweithio posibl rhwng meddyginiaethau mewn cleifion sydd â morbidrwydd lluosog 3.

Pan fônt yn cael eu presgripsiynu a'u defnyddio'n effeithiol, mae gan feddyginiaethau'r potensial i wella safon bywyd yn sylweddol a gwella deilliannau cleifion. Fodd bynnag, ni ddylid diystyru'r heriau sy'n gysylltiedig â phresgripsiynu'r meddyginiaethau priodol a chynorthwyo cleifion i'w defnyddio'n effeithiol. Mae yna swm sylweddol o dystiolaeth yn genedlaethol a rhyngwladol sy'n dangos bod angen gwneud llawer er mwyn gwella'r ffordd yr ydym yn presgripsiynu ac yn cynorthwyo i ddefnyddio meddyginiaethau yn effeithiol[4,5,6].

Meddygon yw'r grŵp mwyaf o bresgripsiynwyr o ddigon, ac maent hwy, yn ogystal â deintyddion, yn gallu presgripsiynu ar ôl cofrestru. Yn ystod y pymtheng mlynedd diwethaf mae presgripsiynwyr annibynnol ac ategol wedi ymuno â hwy o amryw o broffesiynau gofal iechyd, ac maent yn gallu presgripsiynu o fewn cwmpas eu practis ar ôl iddynt gwblhau rhaglen addysg gymeradwyedig. Mae ymestyn cyfrifoldebau presgripsiynu i grwpiau proffesiynol eraill yn debygol o barhau pan fo'n ddiogel gwneud hynny, ac mae yna fuddion amlwg i gleifion.

Er mwyn cynorthwyo'r holl bresgripsiynwyr i bresgripsiynu'n effeithiol cyhoeddwyd fframwaith cymhwysedd presgripsiynu unigol gan y Ganolfan Bresgripsiynu Genedlaethol/Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth mewn Iechyd a Gofal (NICE) yn 2012[7]. Yn seiliedig ar fframweithiau cymhwysedd presgripsiynu proffesiwn benodol blaenorol[8,9,10,11] datblygwyd y fframwaith oherwydd daeth yn amlwg y dylai set gyffredin o gymwyseddau danategu presgripsiynu beth bynnag fo'r cefndir proffesiynol.

Erbyn hyn mae fframwaith 2012 yn cael ei ddefnyddio'n eang ar draws y DU (gweler 'Dibenion y fframwaith' - Adran 3) ac roedd i gael ei adolygu yn 2014. Daeth NICE ac Addysg Iechyd Lloegr i gysylltiad â'r Gymdeithas Fferyllol Frenhinol (RPS) er mwyn rheoli'r broses o ddiweddaru'r fframwaith ar ran yr holl broffesiynau presgripsiynu yn y DU. Cytunodd yr RPS i ddiweddaru'r fframwaith cymhwysedd mewn cydweithrediad â chleifion a'r proffesiynau presgripsiynu eraill y mae nifer o'u cyrff proffesiynol wedi cymeradwyo'r fframwaith diweddariedig hwn.

Yn y dyfodol bydd yr RPS yn parhau i gyhoeddi (a chynnal) y fframwaith cymhwysedd diweddariedig mewn cydweithrediad â'r proffesiynau presgripsiynu eraill. Bydd y fframwaith yn cael ei gyhoeddi ar wefan RPS fel y gall rheoleiddwyr, cyrff proffesiynol, proffesiynau presgripsiynu a chleifion ei ddefnyddio.

# 2.0 SUT Y DIWEDDARWYD Y FFRAMWAITH

Bu i bwyllgor llywio'r prosiect oedd yn cynnwys presgripsiynwyr o'r holl broffesiynau a chleifion (gweler Atodiad 2 i weld yr aelodaeth) ddiweddaru'r fframwaith drwy ddefnyddio proses oedd yn gyson â datblygu fframweithiau cymhwysedd blaenorol. I gael manylion llawn am y broses a ddefnyddiwyd i ddiweddaru'r fframwaith, gweler Atodiad 1.

Roedd y broses ddiweddaru yn cynnwys ymgynghoriad dros gyfnod o chwe wythnos ar y fframwaith cymhwysedd drafft y bu i bron i gant o sefydliadau ac unigolion ymateb iddo.

Er mwyn sicrhau bod y fframwaith yn gymwys i bob rhan o'r DU, bu i Fwrdd Prosiect lefel strategol, oedd yn cynnwys cynrychiolwyr o Brif Swyddogion Fferyllol Lloegr, Yr Alban, Cymru a Gogledd Iwerddon, yn ogystal ag Addysg Iechyd Lloegr, Addysg GIG yr Alban a NICE, gynorthwyo gyda'r broses o ddiweddaru'r fframwaith. Gweler Atodiad 2 i weld yr aelodaeth.

Roedd mewnbwn amlbroffesiynol o'r broses ddiweddaru, a dosbarthu ar ôl ei gyhoeddi yn cael ei ategu gan ymgysylltu rheolaidd  â grŵp cyfeirio allanol o dros 70 o sefydliadau ac unigolion yn cynnwys rheoleiddwyr proffesiynol, cyrff proffesiynol, grwpiau cleifion a sefydliadau addysg uwch. Gweler Atodiad 2 i weld yr aelodaeth.

# 3.0 PWRPAS A DIBENION Y FFRAMWAITH

Cymhwysedd yw rhinwedd neu nodwedd mewn unigolyn sy'n gysylltiedig â pherfformiad effeithiol. Gellir disgrifio cymwyseddau fel cyfuniad o wybodaeth, sgiliau, cymhellion a rhinweddau personol. Mae cymwyseddau yn helpu unigolion a'u sefydliadau i edrych ar sut maent yn gwneud eu gwaith. Mae fframwaith cymhwysedd yn gasgliad o gymwyseddau y credir eu bod yn rhan ganolog o berfformiad effeithiol. Felly, dylai datblygu cymwyseddau helpu unigolion i wella eu perfformiad yn barhaus a gweithio'n fwy effeithiol.

Bydd y cymwyseddau presgripsiynu a geir yn y fframwaith hwn, o'u caffael a'u cynnal, yn helpu gweithwyr iechyd proffesiynol i fod yn bresgripsiynwyr diogel ac effeithiol sy'n gallu cynorthwyo cleifion i gael y deilliannau gorau o'u meddyginiaethau.

Gall unrhyw bresgripsiynydd ddefnyddio'r fframwaith presgripsiynu ar unrhyw adeg yn eu gyrfa er mwyn tanategu cyfrifoldeb proffesiynol am bresgripsiynu. Hefyd, gall rheoleiddwyr, darparwyr addysg, sefydliadau proffesiynol a grwpiau arbenigol ei ddefnyddio er mwyn hysbysu safonau, datblygu addysg a hysbysu canllawiau a chyngor. Mae'n rhoi cyfle i ddod â phroffesiynau at ei gilydd a harmoneiddio addysg i bresgripsiynwyr drwy gynnig fframwaith cymhwysedd i bawb sy'n presgripsiynu.

Mae yna ystod eang o ddibenion i'r fframwaith cymhwysedd presgripsiynu, ac mae'r fersiwn flaenorol wedi cael ei defnyddio'n helaeth mewn perthynas ag arferion. Mae dibenion y fframwaith yn cael eu hamlygu yma yn ogystal â rhai enghreifftiau o arferion. Ceir mwy o enghreifftiau o sut y gellir defnyddio'r fframwaith a sut mae wedi cael ei ddefnyddio ar wefan RPS. Gellir defnyddio'r fframwaith i:

1. Hysbysu dyluniad a darpariaeth rhaglenni addysg, er enghraifft drwy ddilysu sesiynau addysgol (yn cynnwys sail resymegol angen), ac fel fframwaith er mwyn strwythuro dysgu ac asesu.

*"Rwyf wedi defnyddio'r fframwaith cymhwysedd presgripsiynu wrth ddylunio rhaglen addysgu saith wythnos ar gyfer israddedigion meddygol yn y bumed flwyddyn, ac amlygwyd effeithiolrwydd hynny mewn asesiad cyn ac ar ôl addysgu sy'n galluogi i'r myfyrwyr ddangos cymhwysedd mewn nifer o'r meysydd a glustnodwyd yn y fframwaith (cyfrifiadau, adnabod adweithiau niweidiol i gyffuriau, ystyried gwrtharwyddion i therapïau, defnyddio fformiwlari)."*

– Addysg Feddygol, GIG - Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr

2. Helpu gweithwyr gofal iechyd proffesiynol i bresgripsiynu a darparu'r sail ar gyfer addysg barhaus a rhaglenni datblygu, a phrosesau ail-ddilysu. Er enghraifft, defnyddio fel fframwaith ar gyfer portffolio i arddangos cymhwysedd mewn presgripsiynu.

*"Mae cyrsiau presgripsiynu anfeddygol yn ardal Gogledd Cymru wedi'u strwythuro o gwmpas y fframwaith cymhwysedd presgripsiynu, fel bod presgripsiynwyr yn gyfarwydd â'i gynnwys cyn cymhwyso. Rwyf yn disgwyl i bob presgripsiynydd anfeddygol yn fy sefydliad fod yn gyfarwydd â'r fframwaith ac rwyf yn cyfeirio presgripsiynwyr newydd a rhai sy'n ymuno â'r sefydliad o'r newydd at y fframwaith yn ein cyfarfod cyntaf. Yn bersonol, rwyf yn bwriadu defnyddio'r fframwaith i dystiolaethu am sut yr wyf wedi parhau'n gyfredol fel presgripsiynydd fel rhan o broses ail-ddilysu'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth."*

– Arweinydd presgripsiynu anfeddygol, Ymddiriedolaeth GIG Ysbytai Dwyrain Swydd Gaerhirfryn

3. Helpu presgripsiynwyr i adnabod cryfderau a meysydd i'w gwella drwy hunanasesu, gwerthuso ac fel ffordd o strwythuro adborth gan gydweithwyr.

*"Yn City Health Care Partnership mae'r fframwaith cymhwysedd yn ffurfio sail pasbort i'r holl bresgripsiynwyr anfeddygol. Mae'r holl bresgripsiynwyr yn derbyn pasbort pan maent yn ymuno â'r sefydliad neu pan maent yn cymhwyso o'r newydd.*
*Mae cael y cymwyseddau yn y pasbort yn galluogi i bresgripsiynwyr fyfyrio ar eu presgripsiynu ac mae'n eu helpu i strwythuro eu cofnodion CPD yn ogystal â hysbysu trafodaethau am arolygaeth glinigol. Fel sefydliad rydym yn disgwyl i bresgripsiynwyr sicrhau bod y cymwyseddau yn cael eu harddangos yn eu harferion presgripsiynu."*

– City Health Care Par tnership, Hull

---

4. Darparu sylfaen ar gyfer datblygu lefelau o gymhwysedd presgripsiynu i sefydliadau proffesiynol neu grwpiau arbenigol, er enghraifft o bresgripsiynydd sydd newydd gymhwyso i uwch bresgripsiynydd.

*"Yn GIG Glasgow Fwyaf a Gwasanaethau Caethiwed Clyde, mae'r fframwaith cymhwysedd yn rhan o'n Polisi Gweithredol presgripsiynu anfeddygol. Mae'r polisi yn ddogfen weithio sy'n ddilyniant i Strategaeth presgripsiynu anfeddygol ein Gwasanaeth ar gyfer 2015-2020. Yn ein polisi ceir tair lefel o bresgripsiynwyr yn seiliedig ar statws cymhwyster, lefel profiad a chymhwysedd clinigol. Defnyddir y fframwaith cymhwysedd i gynorthwyo datblygiad presgripsiynwyr drwy lefelau presgripsiynu ac mae'n cynorthwyo presgripsiynwyr meddygol dynodedig a rheolwyr llinell i asesu cymhwysedd ac arbenigedd clinigol.*

– GIG Glasgow Fwyaf a Gwasanaethau Caethiwed Clyde

---

5. Ysgogi trafodaethau ynghylch cymwyseddau presgripsiynu a chymysgedd sgiliau amlddisgyblaethol ar lefel sefydliadol.

---

6. Hysbysu prosesau recriwtio sefydliadol er mwyn helpu i fframio cwestiynau a meincnodi profiad presgripsiynu ymgeiswyr.

---

7. Hysbysu datblygu systemau a phrosesau sefydliadol sy'n cynorthwyo presgripsiynu diogel ac effeithiol, er enghraifft, fframweithiau llywodraethiant clinigol lleol.

*"Mae'r fframwaith cymhwysedd wedi cael ei gynnwys yn rhaglen ail-ddilysu bob tair blynedd y sefydliad ar gyfer nyrsys sy'n presgripsiynu. Hefyd, byddwn yn gofyn i weithwyr proffesiynol perthynol i iechyd sy'n presgripsiynu a fferyllwyr sy'n presgripsiynu gwblhau ail-ddilysu. Drwy gydol y tair blynedd bydd y fframwaith yn cael ei ddefnyddio fel rhan o broses werthuso ac arolygu presgripsiynwyr unigol."*

– Ymddiriedolaeth Sefydliad GIG Northumberland Tyne and Wear

---

8. Hysbysu datblygu cwricwla addysg a rhaglenni achredu presgripsiynu perthnasol ar gyfer pob proffesiwn presgripsiynu.

*"Defnyddiwyd y fframwaith i danategu fframweithiau cwricwlwm amlinellol ar gyfer y presgripsiynu ategol ac annibynnol fydd yn cael ei ddefnyddio gan radiograffyddion (mae hyn hefyd yn cynnwys fframwaith ar gyfer cwrs trosi fel y gall radiograffyddion therapiwtig sy'n bresgripsiynwyr ategol fod yn bresgripsiynwyr annibynnol)."*

- Cymdeithas a Choleg Radiograffyddion

---

# 4.0 CWMPAS Y FFRAMWAITH

Y prif bwyntiau i'w nodi am gwmpas y fframwaith bresgripsiynu yw:

- Mae'n fframwaith cyffredinol ar gyfer unrhyw bresgripsiynydd (annibynnol neu ategol) beth bynnag fo'u cefndir proffesiynol. Felly, nid yw yn cynnwys datganiadau sy'n gysylltiedig â meysydd presgripsiynu arbenigol yn unig.
- Mae'n rhaid ei osod mewn cyd-destun er mwyn adlewyrchu gwahanol feysydd gwaith a lefelau arbenigedd.
- Mae'n adlewyrchu'r cymwyseddau allweddol sydd eu hangen ar bob presgripsiynydd; ni ddylid ei ystyried fel cwricwlwm ond yn hytrach fel sail ar gyfer creu cwricwlwm.
- Mae'r un mor gymwys i bresgripsiynwyr annibynnol ac i bresgripsiynwyr ategol, ond dylai'r olaf osod y fframwaith yn ei gyd-destun er mwyn adlewyrchu'r strwythurau a osodir drwy fod yn rhan o berthynas bresgripsiynu ategol (gweler yr Eirfa).

*"Mae'r Cyngor Fferyllol Cyffredinol yn pennu safonau ar gyfer addysgu a hyfforddi fferyllwyr i fod yn bresgripsiynwyr. Mae'r safonau hyn yn ei gwneud yn ofynnol bod cwricwlwm rhaglen bresgripsiynu yn adlewyrchu canllawiau cwricwlwm perthnasol, sy'n cynnwys y fframwaith cymhwysedd presgripsiynu. Mae ein safonau presgripsiynu yn gweithio ar y cyd â'r fframwaith cymhwysedd a safonau eraill ar gyfer gweithwyr fferyllol proffesiynol, er mwyn helpu i sicrhau cysondeb ac ansawdd mewn perthynas â dylunio rhaglenni."*

- Y Cyngor Fferyllol Cyffredinol

# 5.0 RÔL PROFFESIYNOLDEB

Er mwyn mireinio ffocws y fframwaith cymhwysedd presgripsiynu a chadw'r ffocws ar gymwyseddau presgripsiynu allweddol, un newid yn y diweddariad hwn yw dileu nifer o ddatganiadau mewn perthynas â chymhwyso proffesiynoldeb. Fodd bynnag, mae'n bwysig cydnabod
bod angen i weithwyr gofal iechyd proffesiynol gymhwyso proffesiynoldeb i bob agwedd o'u gwaith yn unol â'u codau ymddygiad, safonau a'u canllawiau eu hunain.

Er bod y fframwaith yn cynnwys cymhwysedd mewn perthynas â phresgripsiynu'n broffesiynol, ceir elfennau o arferion proffesiynol ehangach fydd yn effeithio ar sut mae gweithwyr gofal iechyd proffesiynol yn ymddwyn pan maent yn presgripsiynu.
Mae'r rhain yn cynnwys pwysigrwydd cynnal ymagwedd sy'n canolbwyntio ar y claf wrth siarad â chleifion/gofalwyr, cynnal cyfrinachedd, yr angen am ddatblygiad proffesiynol parhaus a phwysigrwydd ffurfio rhwydweithiau ar gyfer cymorth a dysgu.

Er mwyn annog presgripsiynwyr i fyfyrio ar eu harferion proffesiynol ehangach a sut all hynny fod yn gymwys i bresgripsiynu, nodwyd enghreifftiau o'r ymddygiadau hyn isod o dan y pennawd Cymhwyso Proffesiynoldeb. Nid yw hon yn rhestr gyflawn, ac anogir presgripsiynwyr i ddefnyddio
eu codau proffesiynol a'u canllawiau eu hunain ochr yn ochr â'r
fframwaith cymhwysedd.

| CYMHWYSO PROFFESIYNOLDEB |
|---|
| Cyflwyno eich hun a'ch rôl i'r claf a'r gofalwr bob amser. |
| Addasu ymgynghoriadau er mwyn bodloni anghenion gwahanol gleifion/gofalwyr (e.e. ar gyfer iaith, oedran, capasiti, namau corfforol neu ar y synhwyrau). |
| Cynnal yr ymgynghoriad mewn lleoliad priodol gan ystyried cyfrinachedd, cydsyniad, urddas a pharch. Cynnal |
| cyfrinachedd cleifion yn unol ag arferion gorau a safonau rheoleiddio a gofynion contractol. Ysgwyddo |
| cyfrifoldeb am eich dysgu eich hun a datblygiad proffesiynol parhaus. |
| Dysgu a gwella wrth fyfyrio ar arferion a defnyddio rhwydweithiau ar gyfer cymorth, myfyrio a dysgu. |
| Cydnabod pan nad yw systemau diogel yn bodoli ar gyfer cynorthwyo presgripsiynu a gweithredu'n briodol. |

# 6.0 Y FFRAMWAITH CYMHWYSEDD PRESGRIPSIYNU

Mae'r fframwaith cymhwysedd (a ddarlunnir isod) yn nodi sut beth yw presgripsiynu da. Mae yna ddeg cymhwysedd a rennir yn ddwy elfen. Ym mhob un o'r deg dimensiwn cymhwysedd ceir datganiadau sy'n disgrifio'r gweithgaredd neu'r deilliant y dylai presgripsiynwyr allu eu harddangos.




**YR YMGYNGHORIAD**

1. Asesu'r claf
2. Ystyried yr opsiynau
3. Dod i benderfyniad ar y cyd
4. Presgripsiynu
5. Darparu gwybodaeth
6. Monitro ac adolygu

**RHEOLI PRESGRIPSIYNU**

7. Presgripsiynu'n ddiogel
8. Presgripsiynu'n broffesiynol
9. Gwella arferion presgripsiynu
10. Presgripsiynu fel rhan o dîm

*Ffigwr 1 Y fframwaith cymhwysedd presgripsiynu*

# YR YMGYNGHORIAD (CYMWYSEDDAU 1-6)

## 1: ASESU'R CLAF

**1.1** Ystyried hanes meddygol, cymdeithasol a meddyginiaethol priodol[1] yn cynnwys alergeddau ac anoddefiadau.

**1.2** Cynnal asesiad clinigol priodol.

**1.3** Asesu a dehongli holl gofnodion perthnasol y claf sydd ar gael er mwyn sicrhau gwybodaeth am sut y rheolwyd y claf hyd yma.

**1.4** Gofyn am a dehongli ymchwiliadau perthnasol sydd yn angenrheidiol ar gyfer hysbysu opsiynau mewn perthynas â thriniaeth.

**1.5** Rhoi, cadarnhau neu ddeall y diagnosis gweithredol neu derfynol drwy ystyried y gwahanol bosibiliadau'n systematig (diagnosis gwahaniaethol).

**1.6** Deall y cyflwr/cyflyrau gaiff eu trin, eu dilyniant naturiol a sut mae asesu eu difrifoldeb, dirywiad a'r ymateb disgwyliedig i driniaeth.

**1.7** Adolygu ymlyniad i feddyginiaethau cyfredol a'u heffeithiolrwydd.

**1.8** Atgyfeirio i neu geisio arweiniad gan aelod arall o'r tîm, arbenigwr neu ffynhonnell o wybodaeth presgripsiynu pan fo angen.

## 2: YSTYRIED YR OPSIYNAU

**2.1** Ystyried dulliau anffarmacolegol (yn cynnwys dim triniaeth) a ffarmacolegol ar gyfer addasu afiechyd a hyrwyddo iechyd.

**2.2** Ystyried yr holl opsiynau o ran triniaethau ffarmacolegol yn cynnwys optimeiddio dognau yn ogystal â therfynu triniaeth (polifferylliaeth priodol, dadbresgripsiynu).

**2.3** Asesu'r risgiau a'r buddion i'r claf o ganlyniad i gymryd neu beidio â chymryd meddyginiaeth neu driniaeth.

**2.4** Cymhwyso dealltwriaeth o'r dull o weithredu a ffarmacocineteg meddyginiaethau a sut y gellid addasu'r rhain (e.e. gyda geneteg, oedran, nam ar yr arenau, beichiogrwydd)

**2.5** Asesu sut mae morbidrwydd lluosog, meddyginiaeth bresennol, alergeddau, gwrtharwyddion ac ansawdd bywyd yn effeithio ar opsiynau rheoli.

**2.6** Ystyried unrhyw ffactorau perthnasol mewn perthynas â'r claf (e.e. gallu i lyncu, crefydd) a'r effaith bosibl wrth weinyddu a ffurfio meddyginiaethau.

**2.7** Clustnodi, caffael a defnyddio ffynonellau gwybodaeth dibynadwy a ddilyswyd, a gwerthuso gwybodaeth arall yn feirniadol.

**2.8** Parhau'n gyfredol yn eich maes gwaith eich hun a chymhwyso egwyddorion arferion sy'n seiliedig ar dystiolaeth, yn cynnwys egwyddorion clinigol ac effeithiolrwydd cost.

*[1] Mae hyn yn cynnwys meddyginiaethau a bresgripsiynwyd yn gyfredol a blaenorol a rhai na phresgripsiynwyd, meddyginiaethau ar-lein, ychwanegion, remediau, cyffuriau anghyfreithlon a brechiadau*

## 2: YSTYRIED YR OPSIYNAU (PARHAD)

| | |
|---|---|
| **2.9** | Ystyried y persbectif ehangach yn cynnwys y materion iechyd cyhoeddus sy'n gysylltiedig â meddyginiaethau a'u dibenion a hyrwyddo iechyd. |
| **2.10** | Deall ymwrthedd gwrthficrobaidd a rôl atal heintiau, rheoli a chamau stiwardio gwrthficrobaidd .2 |

## 3: DOD I BENDERFYNIAD AR Y CYD

| | |
|---|---|
| **3.1** | Gweithio mewn partneriaeth â'r claf/golafwr[3] er mwyn gwneud dewisiadau ar sail gwybodaeth, cytuno ar gynllun sy'n parchu dewisiadau'r claf yn cynnwys ei hawl i wrthod neu gyfyngu ar driniaeth. |
| **3.2** | Adnabod a pharchu'r claf mewn perthynas ag amrywiaeth, gwerthoedd, credoau a disgwyliadau mewn perthynas â'u hiechyd a thriniaeth gyda meddyginiaethau. |
| **3.3** | Egluro sail resymegol yr opsiynau rheoli a'r risgiau a'r buddion posibl mewn ffordd y mae'r claf/gofalwr yn ei ddeall. |
| **3.4** | Asesu ymlyniad yn rheolaidd mewn ffordd anfeirniadol a deall y gwahanol resymau pam y gall diffyg ymlyniad ddigwydd (yn fwriadol neu'n anfwriadol) a beth yw'r ffordd orau o gynorthwyo cleifion/gofalwyr. |
| **3.5** | Meithrin perthynas sy'n annog presgripsiynu priodol ac nid y disgwyliad y bydd presgripsiwn yn cael ei roi. |
| **3.6** | Archwilio dealltwriaeth y claf/gofalwr o ymgynghoriad ac amcanu at ddeilliant derbyniol i'r claf/gofalwr a'r presgripsiynydd. |

## 4: PRESGRIPSIYNU

| | |
|---|---|
| **4.1** | Presgripsiynu meddyginiaeth[4] dim ond ag ymwybyddiaeth ddigonol a chyfredol o'i weithredoedd, arwyddion, dogn, gwrtharwyddion, rhyngweithiadau, peryglon ac effeithiau digroeso . |
| **4.2** | Deall potensial effeithiau niweidiol a chymryd camau i'w hosgoi/lleihau, adnabod a'u rheoli. |
| **4.3** | Presgripsiynu o fewn fframweithiau perthnasol ar gyfer defnyddio meddyginiaethau fel bo'n briodol (e.e. fformiwlariau lleol, llwybrau gofal, protocolau a chanllawiau). |
| **4.4** | Presgripsiynu meddyginiaethau cyffredinol pan fo hynny'n ymarferol a diogel i'r claf a gwybod pryd y dylid presgripsiynu meddyginiaethau yn ôl cynnyrch wedi'i frandio. |
| **4.5** | Deall a chymhwyso fframweithiau cenedlaethol perthnasol ar gyfer defnyddio meddyginiaethau (e.e. NICE, SMC, AWMSG[5] a rheoli/optimeiddio meddyginiaethau) i'ch arferion presgripsiynu eich hun. |

*[2] Hefyd gweler cymwyseddau presgripsiynu y Cyngor Cynghori Arbenigol ar Ymwrthedd Gwrthficrobaidd a Heintiau Cysylltiedig â Gofal Iechyd (ARAHAI) ac Iechyd Cyhoeddus Lloegr (PHE). <https://www.gov.uk/government/publications/antimicrobial-prescribing-and-stewardship-competencies>*

*[3] Defnyddir y term gofalwr drwyddo draw yn y fframwaith cymhwysedd presgripsiynu fel term ambarél sy'n cynnwys rhai sy'n gofalu, rhieni ac eiriolwyr cleifion neu gynrychiolwyr.*

*[4] At ddiben y fframwaith gellir ystyried bod meddyginiaethau yn cynnwys pob cynnyrch y gellir eu presgripsiynu.*

*[5] NICE - Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth mewn Iechyd a Gofal ; SMC - Consortiwm Meddyginiaethau Yr Alban; AWMSG - Gr Gyfan*

*wp Strategaeth I*

## **4:** PRESGRIPSIYNU (PARHAD)

| |
|---|
| **4.6** Cwblhau cyfrifiadau sy'n berthnasol i bresgripsiynu a dogni ymarferol yn gywir a'u gwirio'n rheolaidd. |
| **4.7** Ystyried potensial camddefnyddio meddyginiaethau. |
| **4.8** Defnyddio gwybodaeth gyfredol am feddyginiaethau a bresgripsiynir (e.e. argaeledd, meintiau pecynnau, amodau storio, llenwyddion, costau). |
| **4.9** Cynhyrchu'n electronig neu ysgrifennu bresgripsiynau dealladwy a diamwys a chyflawn sy'n bodloni gofynion cyfreithiol. |
| **4.10** Defnyddio'n effeithiol y system angenrheidiol ar gyfer presgripsiynu meddyginiaethau ( e.e. siartiau meddyginiaethau, presgripsiynu electronig, cymorth penderfynu). |
| **4.11** Dim ond yn presgripsiynu meddyginiaethau anrhwyddedig, all-drwydded, neu y tu allan i arferion safonol os ydych yn fodlon na fyddai meddyginiaeth drwyddedig arall yn bodloni anghenion clinigol y claf[6]. |
| **4.12** Cadw cofnodion a nodiadau clinigol cywir, dealladwy a chyfredol o benderfyniadau presgripsiynu. |
| **4.13** Cyfathrebu penderfyniad ynghylch meddyginiaethau ac ar gyfer beth y cânt eu defnyddio wrth rannu neu drosglwyddo cyfrifoldebau/gwybodaeth am bresgripsiynu. |

## **5:** DARPARU GWYBODAETH

| |
|---|
| **5.1** Gwirio dealltwriaeth y claf/gofalwr o ac ymrwymiad i reoli, monitro a gofal dilynol y claf. |
| **5.2** Rhoi gwybodaeth glir, ddealladwy a hygyrch i'r claf/gofalwr ynghylch eu meddyginiaethau (e.e. ar gyfer beth y'i rhoddir, sut mae ei ddefnyddio, effeithiau digroeso posibl a sut i adrodd amdanynt, cyfnod disgwyliedig y driniaeth). |
| **5.3** Rhoi arweiniad i gleifion/gofalwyr ynghylch sut mae clustnodi ffynonellau gwybodaeth dibynadwy am eu meddyginiaethau a thriniaethau. |
| **5.4** Sicrhau bod y claf/gofalwr yn gwybod beth i'w wneud os oes yna unrhyw bryderon ynghylch rheoli eu cyflwr, os bydd y cyflwr yn gwaethygu neu os nad oes gwelliant o fewn cyfnod penodol o amser. |
| **5.5** Pan fo'n bosibl, annog a chynorthwyo cleifion/gofalwyr i ysgwyddo cyfrifoldeb am eu meddyginiaethau a hunanreoli eu cyflyrau. |

*[6] Ar yr adeg cyhoeddi, dim ond meddygon, deintyddion, nyrsys a fferyllwyr sy'n gallu presgripsiynu meddyginiaethau anrhwyddedig yn annibynnol*

6.0 Y FFRAMWAITH CYMHWYSEDD PRESGRIPSIYNU

## 6: MONITRO AC ADOLYGU

**6.1** Sefydlu a chynnal cynllun ar gyfer adolygu triniaeth y claf.

**6.2** Sicrhau bod effeithiolrwydd triniaeth ac effeithiau digroeso posibl yn cael eu monitro.

**6.3** Canfod a riportio adweithiau niweidiol posibl i gyffuriau gan ddefnyddio systemau riportio priodol.

**6.4** Addasu'r cynllun rheoli fel ymateb i fonitro ac adolygu cyflwr a dewisiadau'r claf yn barhaus.

# RHEOLI PRESGRIPSIYNU (CYMWYSEDDAU 7-10)

## 7: PRESGRIPSIYNU'N DDIOGEL

**7.1** Presgripsiynu o fewn cwmpas eich gwaith eich hun a chydnabod eich cyfyngiadau gwybodaeth a'ch sgiliau eich hun.

**7.2** Gwybod am fathau ac achosion cyffredin o wallau mewn perthynas â meddyginiaeth a sut mae eu hatal, osgoi a'u canfod.

**7.3** Adnabod y risgiau posibl sy'n gysylltiedig â phresgripsiynu drwy ddefnyddio cyfryngau o bell (ffôn, e-bost neu drwy drydydd parti) a chymryd camau i'w lleihau.

**7.4** Lleihau risgiau i gleifion drwy ddefnyddio neu ddatblygu prosesau sy'n ategu presgripsiynu diogel, yn arbennig mewn meysydd ble ceir risg uchel (e.e. trosglwyddo gwybodaeth am feddyginiaethau, presgripsiynu ailfeddyginiaethau).

**7.5** Ymgyfarwyddo â phryderon newydd am ddiogelwch mewn perthynas â phresgripsiynu.

**7.6** Riportio gwallau presgripsiynu, digwyddiadau y bu ond y dim iddynt ddigwydd a digwyddiadau critigol, ac adolygu arferion er mwyn atal hynny rhag digwydd eto.

## 8: PRESGRIPSIYNU'N BROFFESIYNOL

**8.1** Sicrhau bod hyder a chymhwysedd i bresgripsiynu'n cael eu cynnal.

**8.2** Derbyn cyfrifoldeb personol am bresgripsiynu a deall y goblygiadau cyfreithiol a moesegol.

**8.3** Bod yn ymwybodol o a gweithio o fewn fframweithiau cyfreithiol a rheoleiddiol sy'n effeithio ar arferion presgripsiynu (e.e. cyffuriau a reolir, presgripsiynu meddyginiaethau anrhwyddedig/all-drwyddedig, canllawiau rheoleiddwyr, presgripsiynu ategol).

**8.4** Gwneud penderfyniadau presgripsiynu'n seiliedig ar anghenion cleifion ac nid ystyriaethau personol y presgripsiynydd.

**8.5** Adnabod a delio â ffactorau all effeithio'n amhriodol ar bresgripsiynu (e.e. diwydiant fferyllol, cyfryngau, claf, cydweithwyr).

**8.6** Gweithio'n unol â chodau ymarfer y GIG/sefydliadol/rheoleiddiwr ac eraill wrth ryngweithio â'r diwydiant fferyllol.

## 9: GWELLA ARFERION PRESGRIPSIYNU

| |
|---|
| **9.1** Myfyrio ar eich arferion presgripsiynu eich hun ac eraill, a gweithredu ar adborth a thrafodaeth. |
| **9.2** Gweithredu ar arferion presgripsiynu amhriodol neu anniogel cydweithwyr gan ddefnyddio mecanweithiau priodol. |
| **9.3** Deall a defnyddio'r offer sydd ar gael i wella presgripsiynu (e.e. adborth adolygiadau cleifion a chymheiriaid, dadansoddi ac archwilio data presgripsiynu). |

## 10: PRESGRIPSIYNU FEL RHAN O DÎM

| |
|---|
| **10.1** Gweithredu fel rhan o dîm amlddisgyblaethol er mwyn sicrhau bod dilyniant gofal ar draws sefydliadau gofal yn cael ei ddatblygu ac nid yn cael ei gyfaddawdu. |
| **10.2** Sefydlu perthnasoedd â gweithwyr proffesiynol eraill yn seiliedig ar ddealltwriaeth, ymddiriedaeth a pharch at rolau ei gilydd mewn perthynas â phresgripsiynu. |
| **10.3** Trafod y lefel briodol o gymorth a goruchwyliaeth ar gyfer rôl fel presgripsiynydd. |
| **10.4** Darparu cymorth a chyngor i bresgripsiynwyr neu i rai sy'n ymwneud â gweinyddu meddyginiaethau pan fo'n briodol. |

# 7.0 RHOI'R FFRAMWAITH AR WAITH

Ceir amrywiaeth o adnoddau ar wefan RPS er mwyn helpu i ysgogi defnyddio'r fframwaith cymhwysedd
yn ymarferol, ac maent yn cynnwys:

- Cwestiynau Cyffredin
- fersiwn templed word o'r fframwaith y gellir ei lawrlwytho
- cyflwyniad PowerPoint
- enghreifftiau o arferion gan sefydliadau ac unigolion sydd wedi bod yn defnyddio'r fframwaith cymhwysedd.

Er mwyn ysgogi mwy o ddefnydd o'r fframwaith, anogir presgripsiynwyr neu sefydliadau sy'n ei ddefnyddio i gysylltu â'r Gymdeithas Fferyllol Frenhinol (RPS)
yn support@rpharms.com er mwyn rhannu eu henghreifftiau o
gymhwyso'r fframwaith yn ymarferol. Bydd yr enghreifftiau hyn yn cael eu rhannu drwy wefan RPS a bydd hynny'n helpu i hysbysu diweddariadau i'r fframwaith yn y dyfodol.

*"Mae Canolfan Ddysgu a Datblygu Fferylliaeth Gogledd Iwerddon (NICPLD) wedi ymgorffori'r fframwaith cymhwysedd mewn portffolio arferion sy'n rhan o'n rhaglen bresgripsiynu fferyllwyr annibynnol achrededig. Mae'r holl fferyllwyr yn defnyddio'r portffolio arferion er mwyn dogfennu datblygiad eu cymhwysedd yn ystod y rhaglen, a disgwylir bod fferyllwyr yn dogfennu eu cymhwysedd yn erbyn y rhan fwyaf o'r datganiadau yn y fframwaith cymhwysedd cyn cymhwyso fel presgripsiynwyr. Mae'r portffolio arferion yn cael ei gyflwyno i NICPLD ar gyfer ei asesu ac mae'n rhaid ei basio'n annibynnol ar holl elfennau eraill y cwrs*
*er mwyn cymhwyso fel presgripsiynydd."*

- Canolfan Ddysgu a Datblygu Fferylliaeth Gogledd Iwerddon

# GEIRFA

| | |
|---|---|
| Polifferylliaeth | Mae polifferylliaeth yn golygu "nifer o feddyginiaethau" ac yn aml dywedir ei fod yn bodoli pan fo claf yn cymryd pump neu ragor o feddyginiaethau. Nid yw polifferylliaeth yn beth drwg o reidrwydd, gall fod yn rhesymegol ac angenrheidiol, fodd bynnag, mae'n bwysig gwahaniaethu rhwng polifferylliaeth priodol ac amhriodol. |
| Polifferylliaeth Amhriodol | Pan fo un neu ragor o gyffuriau yn cael eu presgripsiynu nad oes eu hangen, naill ai oherwydd: (a) nid oes arwydd ar sail tystiolaeth, mae'r arwydd wedi dod i ben, neu mae'r dogn yn ddiangen o uchel; (b) mae un neu ragor o feddyginiaethau yn methu â chyflawni'r amcanion therapiwtig y bwriedir iddynt eu cyflawni; (c) mae un neu gyfuniad o nifer o gyffuriau yn achosi adweithiau niweidiol annerbyniol i gyffuriau (ADR), neu'n golygu bod y claf yn wynebu risg annerbyniol o uchel o ddioddef ADR o'r fath, neu oherwydd (d) nad yw'r claf yn barod neu'n gallu cymryd un neu ragor o feddyginiaethau fel y bwriadwyd. |
| Polifferylliaeth Priodol | Pan fo: (a) yr holl gyffuriau yn cael eu presgripsiynu at ddiben cyflawni amcanion therapiwtig penodol y cytunwyd arnynt gyda'r claf; (b) mae amcanion therapiwtig yn cael eu cyflawni mewn gwirionedd neu mae yna obaith<br>rhesymol y byddant yn cael eu cyflawni yn y dyfodol; (c) optimeiddiwyd therapi cyffuriau er mwyn leihau'r risg o ADR a (d) mae'r claf wedi ei ysgogi ac yn gallu cymryd yr holl feddyginiaethau yn ôl y bwriad. |
| Dadbresgripsiynu | Y broses o stopio neu leihau meddyginiaethau gyda'r amcan o ddileu polifferylliaeth problemus (amhriodol), ac yna monitro'r unigolyn am effeithiau niweidiol anfwriadol neu arwyddion bod y clefyd yn gwaethygu. Mae'n hanfodol bod yr unigolyn (a'r gofalwyr) yn cael ei gynnwys yn helaeth yn y penderfyniadau i ddadbresgripsiynu er mwyn meithrin a chynnal eu hyder yn y broses. |
| Presgripsiynu anfeddygol | Presgripsiynu anfeddygol yw presgripsiynu gan nyrsys a hyfforddwyr yn arbenigol, optometryddion, fferyllwyr, ffisiotherapyddion, podiatryddion, radiograffyddion a dietegwyr sy'n gweithio o fewn eu cymhwysedd clinigol fel presgripsiynwyr annibynnol a/neu ategol. |
| Presgripsiynu annibynnol | Presgripsiynu annibynnol yw presgripsiynu gan ymarferwr sy'n gyfrifol ac yn atebol am asesu cleifion sydd â chyflyrau sydd wedi neu heb eu diagnosio ac am benderfyniadau ynghylch y rheoli clinigol sydd ei angen, yn cynnwys presgripsiynu. Yn ymarferol, mae yna DDAU fath o bresgripsiynydd annibynnol anfeddygol.<br>i) Ar yr adeg cyhoeddi gall presgripsiynydd annibynnol fod yn nyrsys a hyfforddwyr arbenigol, optometryddion, fferyllwyr, ffisiotherapyddion, podiatryddion neu radiograffyddion therapiwtig all bresgripsiynu meddyginiaethau trwyddedig o fewn eu cymhwysedd clinigol. Gall nyrsys a fferyllwyr sy'n bresgripsiynwyr annibynnol bresgripsiynu meddyginiaethau anrhwyddedig a chyffuriau a reolir hefyd.<br>ii) Gall ymarferydd nyrsio cymunedol sy'n presgripsiynu (CPNP), er enghraifft nyrs ardal, ymwelydd iechyd neu nyrs ysgol, bresgripsiynu'n annibynnol o fformiwlari cyfyngedig a elwir yn Fformiwlari Nyrs-Bresgripsiynwyr ar gyfer Ymarferwyr Cymunedol, sydd ar gael yn y Fformiwlari Cenedlaethol Prydeinig (BNF). |

| | |
|---|---|
| Presgripsiynu Ategol | Mae presgripsiynu ategol yn bartneriaeth wirfoddol rhwng meddyg neu ddeintydd a phresgripsiynydd ategol i bresgripsiynu o fewn cynllun rheoli clinigol claf benodol cytunedig (CMP) gyda chytundeb y claf. Gall nyrsys, optometryddion, fferyllwyr, ffisiotherapyddion, podiatryddion, radiograffyddion a dietegwyr fod yn bresgripsiynwyr ategol, ac ar ôl cymhwyso gallant bresgripsiynu unrhyw feddyginiaeth o fewn eu cymhwysedd clinigol, yn ôl y CMP. |

# CYFEIRIADAU




1. Duerden M, Avery T, Payne R. *Polypharmacy and Medicines Optimisation. Making it safe and Sound*. Kings Fund 2013. http://www.kingsfund.org.uk/publications/polypharmacy-and-medicines-optimisation
2. GIG Yr Alban *Polypharmacy Guidance*. Mawrth 2015 http://www.sign.ac.uk/pdf/polypharmacy_guidance.pdf and ar gael fel ap o http://www.knowledge.scot.nhs.uk/home/tools-and-apps/mobile-knowledge/search.aspx?device=None&q=polypharmacy&p=1&rpp=20 neu drwy chwilio siopau apiau iTunes a Google Play. Mae Fersiwn Gwe o'r ap ar gael yn http://www.polypharmacy.scot.nhs.uk/
3. National Institute for Health and Clinical Excellence. *Multimorbidity: clinical assessment and management*. Disgwylir ei gyhoeddi ym mis Medi 2016. https://www.nice.org.uk/guidance/indevelopment/gid-cgwave0704
4. Y Gymdeithas Fferyllol Frenhinol *Medicines optimisation: helping patients to make the most of medicines*. Mai 2014 https://www.rpharms.com/promoting-pharmacy-pdfs/helping-patients-make-the-most-of-their-medicines.pdf
5. National Institute for Health and Clinical Excellence. *Medicines optimisation: the safe and effective use of medicines to enable the best possible outcomes.* Mawrth 2015 https://www.nice.org.uk/guidance/ng5
6. Yr Adran Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Diogelwch y Cyhoedd. *Northern Ireland Medicines Optimisation Quality Framework*. Mawrth 2016 https://www.health-ni.gov.uk/sites/default/files/consultations/dhssps/medicines-optimisation-quality- framework.pdf
7. National Prescribing Centre. *A single competency framework for all prescribers.* Mai 2012
8. National Prescribing Centre. *Maintaining Competency in Prescribing. An outline framework to help nurse prescribers. Argraffiad Cyntaf.* Tachwedd 2001.
9. National Prescribing Centre. *Maintaining Competency in Prescribing. An outline framework to help nurse supplementary prescribers.* Mawrth 2003
10. National Prescribing Centre. *Maintaining Competency in Prescribing. An outline framework to help pharmacist supplementary prescribers.* Argraffiad Cyntaf. Mawrth 2003
11. National Prescribing Centre and General Optical Council. *Competency framework for prescribing optometrists. Argraffiad Cyntaf.* Mai 2004.
12. National Prescribing Centre. *Maintaining Competency in Prescribing. An Outline Framework to help Allied Health Professional Supplementary Prescribers. Argraffiad Cyntaf.* Gorffennaf 2004
13. National Prescribing Centre. *Maintaining Competency in Prescribing. An outline framework to help pharmacist prescribers. Ail Argraffiad.* Hydref 2006
14. Whiddett S, Hollyforde, S. *The Competencies Handbook*. Institute of Personnel and Development, 1999.

# ATODIAD I
# SUT Y DIWEDDARWYD Y FFRAMWAITH

Mae'r broses a ddefnyddiwyd i ddiweddaru'r fframwaith yn cael ei ddarlunio isod. Mae'n gyson â'r fethodoleg a ddefnyddiwyd i ddatblygu a mireinio'r fframweithiau cymhwysedd presgripsiynu blaenorol a gyhoeddwyd gan y Ganolfan Bresgripsiynu Genedlaethol a NICE.

Roedd y diweddariad o'r fframwaith yn adolygiad o adnodd oedd yn bodoli a ddefnyddiwyd yn eang yn ymarferol. Daeth grŵp llywio'r prosiect i'r casgliad, yn seiliedig ar arolwg llenyddiaeth a defnydd helaeth o'r fframwaith yn ymarferol, bod fframwaith 2012 yn gyffredinol yn addas i'r diben. Mae'r broses a ddefnyddiwyd i ddiweddaru'r fframwaith yn gymesur â'r safbwynt hwnnw ac mae'n adlewyrchu datblygiad iteraidd o'r cynnwys.

**PROSES DDATBLYGU**

Arolwg llenyddiaeth

Grŵp llywio yn diweddaru'r fframwaith (gan ystyried yr arolwg llenyddiaeth)

Grŵp dilysu yn adolygu'r fframwaith diweddariedig

Agor yr ymgynghoriad ar gyfer adolygiad allanol (6 wythnos)

Cyfarfod o'r grŵp llywio er mwyn adolygu'r sylwadau

Ymgorffori'r sylwadau

Cwblhau'r fframwaith

**STRATEGAETH YMGYSYLLTU**

YMGYSYLLTU Â RHANDDEILIAID EHANGACH DRWY'R GRŴP CYFEIRIO ALLANOL

CYMORTH STRATEGOL AR DRAWS Y DU DRWY FWRDD Y PROSIECT

## STRATEGAETH YMGYSYLLTU

Bydd y fframwaith cymhwysedd presgripsiynu yn cael ei ddefnyddio gan amrywiaeth o broffesiynau gofal iechyd. Ymgynghorwyd â grŵp cyfeirio allanol oedd yn cynnwys rheoleiddwyr, sefydliadau proffesiynol a grwpiau eraill o randdeiliaid perthnasol â buddiant. Cynhaliwyd webinarau gyda'r grŵp dair gwaith yn ystod cyfnod y prosiect er mwyn hysbysu aelodau'r grŵp ynghylch cynnydd ac ysgogi trafodaeth ar sut ellir rhannu'r fframwaith a'i ddefnyddio ar ôl ei gyhoeddi. Gweler Atodiad 2 i weld yr aelodaeth.

Bu i ddiweddariad y fframwaith cymhwysedd presgripsiynu fod yn destun 'nawdd prosiect' ar lefel strategol gan Fwrdd Prosiect er mwyn helpu i sicrhau cymhwysedd ar draws y DU. Roedd yr aelodau yn cynnwys cynrychiolwyr o Brif Swyddogion Fferyllol Lloegr, Yr Alban, Cymru a Gogledd Iwerddon, yn ogystal ag Addysg Iechyd Lloegr, Addysg GIG yr Alban a NICE. Gweler Atodiad 2 i weld yr aelodaeth.

## Y BROSES DDATBLYGU

Comisiynwyd awdur arweiniol allanol gan y RPS er mwyn sicrhau bod y broses o ddiweddaru'r fframwaith cymhwysedd yn annibynnol.

Cynhaliwyd **arolwg llenyddiaeth** ym mis Hydref 2015 er mwyn clustnodi tystiolaeth allweddol mewn perthynas â chymhwysedd ac arferion da wrth bresgripsiynu ers cyhoeddi fframwaith cymhwysedd unigol 2012.

Bu i **grŵp llywio** gyda phresgripsiynwyr o'r holl broffesiynau sy'n gallu presgripsiynu a chynrychiolwyr ddefnyddio proses gonsensws er mwyn adolygu a diweddaru'r fframwaith cymhwysedd yng nghyd-destun yr arolwg llenyddiaeth. Roedd natur amlddisgyblaethol y grŵp yn sicrhau bod natur gyffredinol y fframwaith yn cael ei gynnal - gweler Atodiad 2 i weld yr aelodaeth. Cadeiriwyd y grŵp gan yr awdur arweiniol annibynnol a gofynnwyd i'r hol aelodau ddatgan gwrthdaro buddiannau*, a reolwyd yn unol â Llawlyfr datblygu safonau proffesiynol, canllawiau a phrosesau fframweithiau'r RPS .

Bu i grŵp ar wahân o bresgripsiynwyr presennol (oedd eto'n adlewyrchu'r holl grwpiau oedd yn gallu presgripsiynu) a chleifion ddilysu'r fframwaith diweddariedig mewn grŵp ffocws er mwyn sicrhau bod y newidiadau a wnaethpwyd gan y grŵp llywio yn unol ag arferion presgripsiynu cyfredol a'u bod yn ddealladwy i bresgripsiynwyr. Cytunwyd ar y fframwaith drwy ddefnyddio proses gonsensws a gofynnwyd i aelodau'r grŵp dilysu ddatgan gwrthdaro buddiannau*. Gweler Atodiad 2 i weld yr aelodaeth.

O ganlyniad i adolygiad y grŵp llywio a chraffu gan y grŵp dilysu, mireiniwyd y fframwaith, ac roedd hynny'n cynnwys:

- Dileu datganiadau sy'n fwy cyffredinol gysylltiedig ag arferion proffesiynol (gweler adran 4).
- Aildrefnu'r fframwaith yn ddeg cymhwysedd sydd wedi eu grwpio'n ddau faes cymhwysedd.
- Ychwanegu datganiadau newydd neu addasu datganiadau oedd yn bodoli er mwyn cynnwys hepgorion a glustnodwyd o ganlyniad i'r arolwg llenyddiaeth.
- Dileu datganiadau y teimlwyd eu bod yn llai perthnasol i bresgripsiynu neu pan fo dyblygu yn cael ei amlygu wrth ddiweddaru strwythur y fframwaith.
- Golygu datganiadau er mwyn eglurder neu gysondeb terminoleg.
- Rhannu datganiadau er mwyn eglurder neu er mwyn cydweddu â strwythur y fframwaith a aildrefnwyd.
- Gwella geiriad datganiadau.

Postiwyd y ddogfen cymhwysedd ar wefan RPS am chwe wythnos ar gyfer **ymgynghoriad** agored. Gofynnwyd i'r grŵp cyfeirio allanol, y bwrdd prosiect a'r grŵp llywio i dynnu sylw at argaeledd y fframwaith er mwyn rhoi sylwadau. Derbyniwyd naw deg pump o ymatebion i'r ymgynghoriad.

Bu i'r grŵp llywio adolygu'r sylwadau o'r ymgynghoriad, a bu i'r rhai oedd yn rhan o'r cwmpas ac yn berthnasol gael eu hymgorffori yn y fframwaith bresgripsiynu.
Bu i grŵp llywio'r prosiect ddefnyddio proses gonsensws er mwyn cytuno ar yr holl fireinio terfynol a wnaethpwyd i'r fframwaith. Llwyddwyd i gael consensws.

## DATGANIAD CYLLIDO

Mae'r diweddaru'r fframwaith wedi cael ei gyllido'n gyfan gwbl gan RPS, ac nid yw wedi derbyn unrhyw daliad gan drydydd parti ar gyfer ei ddatblygu. Gellir gweld mwy o wybodaeth am "Sut mae'r RPS yn cael ei ariannu" yn y llawlyfr datblygu Safonau proffesiynol , canllawiau a phrosesau fframweithiau

*Mae datganiadau ar gael ar gais drwy e-bostio support@rpharms.com.

# ATODIAD 2 CYDNABYDDIAETHAU

## AELODAU'R GRŴP LLYWIO

| | |
|---|---|
| Yr Athro Angela Alexander | Cyfarwyddwr Canolfan Addysg a Hyfforddiant Ôl-radd Rhyng-broffesiynol, Prifysgol Reading |
| Dave Baker | Ffisiotherapydd Cwmpas Estynedig – Locomotor Service, Ymddiriedolaeth Sefydliad GIG Ysbyty Prifysgol Homerton a Complete Physio Limited |
| Dr Jane Brown Genedlaethol | Cadeirydd Pharmacy Local Professional Network (cyn Gyfarwyddwr y Ganolfan Bresgripsiynu ), Manceinion Fwyaf |
| Hazel Boyce | Uwch Radiograffydd Therapi a Phresgripsiynydd Anfeddygol, Ymddiriedolaeth Sefydliad GIG Ysbytai Prifysgol Bryste |
| Richard Harris | Fferyllydd Datblygu Proffesiynol, H.I.Weldrick Ltd |
| Angie Hill | Cyfarwyddwr Nyrsio a Phroffesiynau– Gofal Sylfaenol, Care Uk |
| Karen Hodson | Cyfarwyddwr Rhaglen, Rhaglen Bresgripsiynu Annibynnol Fferyllwyr, Prifysgol Caerdydd |
| Fran Husson | Cynrychiolydd lleyg |
| Parbir Jagpal Annibynnol, | Cyfarwyddwr Rhaglen, Presgripsiynu Annibynnol; Fferyllydd Practis a Phresgripsiynydd Prifysgol Birmingham a Grŵp Comisiynu Clinigol Dudley |
| Fiona Jones | Uwch Fferyllydd Clinigol sy'n Presgripsiynu mewn Gofal Sylfaenol, Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr ac aelod o Fwrdd Fferylliaeth Cymru |
| Teresa Kearney | Nyrs-bresgripsiynydd, Cymdeithas Nyrs-bresgripsiynwyr |
| Dr Claire Loughrey Deintyddol | Cyfarwyddwr Addysg Practis Cyffredinol Ôl-radd, Asiantaeth Hyfforddi Meddygol a Gogledd Iwerddon |
| Yr Athro Simon Maxwell | Cyfarwyddwr Meddygol, Presgripsiynu, Asesiad Diogelwch Presgripsiynu, Prifysgol Caeredin |
| Dr James McKinlay | Ymarferydd Cyffredinol |
| Dr Nikolaus Palmer | Llawfeddyg Deintyddol, Cymdeithas Ddeintyddol Prydain |
| Catherine Picton (cadeirydd) | Awdur arweiniol ac ymgynghorydd RPS |
| Yr Athro Jane Portlock | Athro Practis Fferylliaeth, Pennaeth yr Adran Practis Fferylliaeth, Prifysgol Portsmouth |

| | |
|---|---|
| Debbie Sharman | Podiatrydd Ymgynghorol - arweinydd Proffesiynol Diabetes ar gyfer Podiatreg a Darlithydd Gwadd (Prifysgol Southampton), Ymddiriedolaeth Sefydliad Prifysgol Gofal Iechyd Dorset |
| Mark Tomlin | Fferyllydd Ymgynghorol: Gofal critigol, Fferyllydd Ymgynghorol a Phresgripsiynydd Annibynnol, Ymddiriedolaeth Sefydliad GIG Ysbyty Prifysgol Southampton |
| Dr Andy Webb | Uwch Ddarlithydd/Ymgynghorydd Anrhydeddus, Coleg y Brenin Llundain (Ymddiriedolaeth Sefydliad GIG Guy's a St Thomas/ King's Health Par tners) |
| Alison Weston | Prif Optometrydd, Ysbyty Prifysgol St James, Leeds |
| Nigel Westwood | Cynrychiolydd lleyg |
| Yr Athro David Wray | Athro Emeritus, ysgol Ddeintyddol, Prifysgol Glasgow |

## AELODAU'R BWRDD PROSIECT

| | |
|---|---|
| Margaret Allen *(YN CYNRYCHIOLI Roger Walker, Prif Swyddog Fferyllol Cymru)* | Cyfarwyddwr, Canolfan Addysg Broffesiynol Fferylliaeth Cymru |
| Michele Cossey *(yn cynrychioli Keith Ridge, Prif Swyddog Fferyllol Lloegr)* | Pennaeth Strategaeth Glinigol / Ymgynghorydd Fferyllol Rhanbarthol GIG Lloegr (Gogledd), GIG Lloegr (Gogledd) |
| Cathy Harrison *(yn cynrychioli Mark Timoney, Prif Swyddog Fferyllol Gogloedd Iwerddon)* | Uwch Brif Swyddog Fferyllol, Yr Adran Iechyd, Gogledd Iwerddon |
| Alpana Mair *(yn cynrychioli Rosemarie Parr, Prif Swyddog Fferyllol Yr Alban)* | Dirprwy Brif Swyddog Fferylliaeth Yr Alban, Llywodraeth Yr Alban |
| Patricia Saunders | Uwch Reolwr Polisi Addysg a Hyfforddiant, Addysg Iechyd Lloegr |
| Jonathan Underhill | Cyfarwyddwr Cyswllt, Canolfan Meddyginiaethau a Phresgripsiynu, Y Sefydliad Cenedlaethol ar gyfer Iechyd a Rhagoriaeth Gofal |
| Anne Watson | Cyfarwyddwr Cyswllt Fferylliaeth, Addysg GIG Yr Alban |

## AELODAU'R GRŴP DILYSU

| | |
|---|---|
| Patricia Armstrong | Dirprwy Reolwr Proffesiynol Fferyllwyr, Boots |
| Sue Axe | Arweinydd cwrs ar gyfer Presgripsiynu Annibynnol ac Ategol gan Nyrsys, Prifysgol Newydd Swydd Buckingham |
| Dr Gill Beck | Ymarferydd Cyffredinol |
| Dr Mohsin Choudry | Cymrawd Clinigol Cyfarwyddwr Meddygol Cenedlaethol, Coleg Brenhinol y Ffisegwyr, Llundain |
| Yr Athro Robin E Ferner | Ysgrifennydd Cyd-Bwyllgor Arbenigol Coleg Brenhinol y Ffisegwyr a'r Gymdeithas Fferyllol Brydeinig |
| Penny Fletcher | Uwch fferyllydd arweiniol, Merched a Phlant, Ymddiriedolaeth GIG Gofal Iechyd y Coleg Imperialaidd |
| Sue Gassor | Ymarferydd Nyrsio / Ymgynghorydd Nyrsys Practis, yn gweithio i Feddygfa Iechyd Pencester Dover/De Ddwyrain Lloegr CSU. |
| Nick Haddington | Cyfarwyddwr Rhaglenni Ôl-radd a Addysgir, Adran Fferylliaeth a Ffarmacoleg, Prifysgol Bath |
| Peter Hawkes | Cynrychiolydd lleyg |
| Dr Rebecca Hoskins | Nyrs Ymgynghorol ac Uwch Ddarlithydd Gofal Brys, arweinydd Ymddiriedolaeth Presgripsiynu Anfeddygol, ymddiriedolaeth Sefydliad GIG Ysbytai Prifysgol Bryste |
| Dr Catrin Jones | Meddyg FY2 Deoniaeth De Ddwyrain Yr Alban |
| Jancis Kinsman | radiograffydd arbenigol yr ysgyfaint, Sefydliad Canser Bryste |
| Dr Kerry Layne | Myfyriwr PhD Clinigol, Coleg y Brenin Llundain |
| Yr Athro Gunter Loffler | Arweinydd Rhaglen Bsc Optometreg, Arweinydd Rhaglen Therapiwteg Ocwlar Ôl-radd, Prifysgol Caledonian Glasgow |
| Nicky Mackenzie | Ffisiotherapydd Presgripsiynu Annibynnol, Arweinydd Tîm Therapi Cyhyrysgerbydol |
| Nick Masucci | Podiatrydd Ymgynghorol, Ymddiriedolaeth GIG Ashford a St Peter |
| Nicholas J. Rumney | MScOptom FCOptom DipTP(IP) ProfCer tMedRet FAAO FEAOO FIACLE FBCLA, Ffederasiwn Optegwyr Offthalmig a Chyflenwi (FODO) |
| Dr Robert Rutland | Deintydd a Meddyg Cyffredinol a Chosmetig, Archwilydd, Coleg Brenhinol y Meddygon a Llawfeddygon. Gwerthuswr Meddygol. |
| Andy Sharman | Parafeddyg Arbenigol - Gofal Brys ac Argyfwng |

| | |
|---|---|
| Dr Jude Tweedie | Cymrawd Clinigol, Coleg Brenhinol y Ffisegwyr |
| Yr Athro Cate Whittlesea | Ysgol Feddygaeth, Fferylliaeth ac Iechyd, Prifysgol Durham |

## AELODAU'R GRŴP CYFEIRIO ALLANOL

| | |
|---|---|
| Catherine Armstrong | Fferyllydd Arweiniol, Pharmicus, CBC |
| Dr Diane Ashiru-Oredope | Rhaglen Ymwrthedd gwrthficrobaidd; Iechyd Cyhoeddus Lloegr |
| Sue Axe | Arweinydd cwrs ar gyfer Presgripsiynu Annibynnol ac Ategol gan Nyrsys, Prifysgol Newydd Swydd Buckingham |
| Inge Bateman | Nyrs Glinigol Arbenigol Arweiniol, Gwasanaeth Poen Mewngleifion, Ymddiriedolaeth Sefydliad GIG Ysbytai Gorllewin Sussex |
| Dianne Bell | Uwch Fferyllydd Datblygu Dysgu, canolfan Addysg Ôl-radd mewn Fferylliaeth |
| Kate Bennett | Nyrs Arbenigol Hyfywedd Meinwe |
| Jayne Bridge | Arweinydd NMP GIG MerseyCare |
| Christine Buicke | Rheolwr Polisi, y Cyngor Meddygol Cyffredinol |
| Stephanie Butler | Fferyllydd Arennol Arbenigol Arweiniol a Phresgripsiynydd Annibynnol |
| Dr Wendy Caddye | Nyrs Glinigol Arbenigol Arweiniol Rheoli Poen Mewngleifion Ymddiriedolaeth GIG BSUH |
| Ian Cameron | Rheolwr Gyfarwyddwr, Cameron Optometry Ltd |
| Nicole Casey | Rheolwr Polisi, Cyngor Proffesiynau Iechyd a Gofal |
| Lisa Chaters | Uwch Ymarferydd Nyrsio Newydd-Anedig |
| Tanya Downes | Partneriaeth Swydd Caer a Wirral, Uwch Ymarferydd Nyrsio Pediatrig / Clinigydd Nyrsio Meddyg Teulu allan o oriau |
| Marcus Dye | Rheolwr safonau, Cyngor Optegol Cyffredinol |
| Gerald Ellis | Cyfarwyddwr Cyswllt, Gweddnewid fferylliaeth, CCG Newark a Sherwood |

ATODIAD 2 CYDNABYDDIAETHAU

| | |
|---|---|
| Yr Athro Robin Ferner | Ysgrifennydd Cyd-Bwyllgor Arbenigol Coleg Brenhinol y Ffisegwyr a'r Gymdeithas Fferyllol Brydeinig |
| Matthew Fitzpatrick | Rheolwr gyfarwyddwr A&E a Meddyginiaeth Aciwt |
| Helen Flint | Cymdeithas Fferylliaeth Oncoleg Brydeinig |
| Christina Freeman | Swyddog Proffesiynol: polisi, canllawiau a chyngor, Cymdeithas a Choleg y Radiograffyddion |
| Sue Gassor | Ymarferydd Nyrsio / Ymgynghorydd Nyrsys Practis, yn gweithio i Feddygfa Iechyd Pencester Dover/De Ddwyrain Lloegr CSU. |
| Mohit Gupta | Offthalmologydd Ymgynghorol, Coleg Brenhinol yr Offthalmologyddion. |
| Nicholas Haddington | Cyfarwyddwr Rhaglenni Ôl-radd a Addysgir, Adran Fferylliaeth a Ffarmacoleg, Prifysgol Bath |
| Sophie Harper | Prif Optometrydd Gwasanaethau Cataract, Ysbyty Frenhinol y Llygaid Manceinion |
| Clare Worrall Hill | Rheolwr Ymgysylltu Proffesiynol, Parkinson's UK |
| Diane Hogg | Arweinydd presgripsiynu anfeddygol, Nyrs y Frenhines, Ymddiriedolaeth GIG Ysbytai Dwyrain Swydd Gaerhirfryn |
| Sue Hudson Gaerhirfryn | Podiatrydd arbenigol clinigol, yn gweithio i Ymddiriedolaeth Ysbyty Dwyrain Swydd |
| Jen Hulme | Uwch Fferyllydd-Gwrthfiotigau Clinigol a Chyd-arweinydd NMP, Ymddiriedolaeth Sefydliad GIG Ysbytai Canol Swydd Caer . |
| Dr Mani Hussain | Cadeirydd LPN Fferylliaeth Swydd Amwythig a Swydd Stafford GIG Lloegr |
| Dr Farah Jameel | Meddyg Teulu, y Gymdeithas Feddygol Brydeinig |
| Sally Jarmain | Arweinydd Presgripsiynu Anfeddygol, Ymddiriedolaeth Gofal Iechyd Gogledd Dyfnaint |
| Lindsay Johnston | NMP ac Uwch Ymarferydd Nyrsio (dan hyfforddiant) gydag Ymddiriedolaeth Sefydliad GIG Ysbytai Brenhinol Salford Adran Argyfwng |
| Anja St Clair Jones | Fferyllydd Arweiniol Canolfan Clefydau Treulio Ymddiriedolaeth GIG BSUH |
| Jan Keenan | Nyrs Ymgynghorol ac Arweinydd Presgripsiynu Anfeddygol Ymddiriedolaeth Sefydliad GIG Rhydychen . |
| Menaz Kermali | Fferyllydd Arbenigol CMHT, Ymddiriedolaeth Sefydliad Gofal Iechyd Berkshire |
| Jacqui Kinsey | Cyfarwyddwr Addysg Presgripsiynu, Canolfan Datblygiad Proffesiynol a Dysgu Gydol Oes, Ysgol Fferylliaeth, Prifysgol Keele |

| | |
|---|---|
| Yr Athro John Lawrenson | Coleg yr Optometryddion, Athro Gwyddoniaeth Weledol Glinigol, Prifysgol y Ddinas Llundain |
| Dr Fran Lloyd | Canolfan Dysgu a Datblygu Fferylliaeth Gogledd Iwerddon |
| Yr Athro Gunter Loffler | Arweinydd Rhaglen Bsc Optometreg, Arweinydd Rhaglen Therapiwteg Ocwlar Ôl-radd, Prifysgol Caledonian Glasgow |
| Sue Lyne | Uwch Ymarferydd Nyrsio Cymunedol, Ymddiriedolaeth GIG Gofal Iechyd Dwyrain Sussex (ESHT) |
| Nicky Mackenzie | Arweinydd Tîm Therapi Cyhyrysgerbydol, Ymddiriedolaethau GIG Sandwell a Birmingham |
| Helen Marriott | Arweinydd Prosiect Meddyginiaethau AHP, GIG Lloegr |
| Joanne Martin | Rheolwr Sicrwydd Ansawdd, y Cyngor Fferyllol Cyffredinol |
| Dr Arianne Matlin | Ymgynghorydd Polisi Iechyd a Gwyddoniaeth, y Gymdeithas Ddeintyddol Brydeinig |
| Claire May | Uwch Ddarlithydd mewn Practis Fferylliaeth, Ysgol Fferylliaeth a Gwyddorau Biofoleciwlaidd, Prifysgol Brighton |
| Nick Masucci | Podiatrydd Ymgynghorol (llawfeddyg podiatrig) Barts and the London |
| Michelle McCorry | Cymdeithas Fferyllol Gogledd Iwerddon |
| Maire McManus | Prif Fferyllydd, adran Meddyginiaethau - Ysbyty Ardal Antrim. |
| Eleri Mills | Nyrs y Frenhines, Uwch Ddarlithydd / Arweinydd Rhaglen - Presgripsiynu Anfeddygol. Ysgol Gwyddorau Cymdeithasol a Bywyd, Prifysgol Glyndŵr Wrecsam, Cymru. |
| Kuljit Nandhara | Fferyllydd Arweiniol Ymddiriedolaeth Iechyd Meddyliol Birmingham a Solihull |
| Ruth Newton | Grŵp Maeth Fferyllol Prydain |
| JP Nolan | Y Coleg Nyrsio Brenhinol |
| Laura O'Loan | Dirprwy Gyfarwyddwr Dysgu o Bell a Chyfarwyddwr Cwrs Presgripsiynu i Fferyllwyr, Canolfan Dysgu a Datblygu Fferylliaeth Gogledd Iwerddon |
| Emma Pilkington | Ffisiotherapydd Ffibrosis Sistig |
| Celia Proudfoot | Nyrs TB arbenigol |
| Najia Qureshi | Pennaeth Addysg a Datblygiad Proffesiynol, Y Gymdeithas Ddietetig Brydeinig |

| | |
|---|---|
| Bernadette Rae | Uwch Ddarlithydd Presgripsiynu Anfeddygol, Ysgol Iechyd a Gofal Cymdeithasol, Prifysgol South Bank Llundain |
| Martin C Richardson | Gofal Iechyd HMP Garth, Ymddiriedolaeth Sefydliad GIG Gofal Swydd Gaerhirfryn |
| Nicholas Rumney | MScOptom FCOptom DipTP(IP) ProfCer tMedRet FAAO FEAOO FIACLE FBCLA. Ffederasiwn Optegwyr Offthalmig a Chyflenwi (FODO) |
| Sharon Shaw | Nyrs Arweiniol Glinigol ELMS, Arweinydd Diogelu, |
| Arweinydd NMP Suzie Shepherd | Cynrychiolydd cleifion lleyg. RCP PCN, |
| BSR VICE CHAIR Sam Sherrington | Cymdeithas Nyrsys sy'n Presgripsiynu |
| Andrew Simpson | ANNP, Uned Gofal Dwys Newydd-anedig, Ysbyty Frenhinol Oldham |
| Doug Stirling | Rheolwr Rhaglen, Rhaglen Effeithiolrwydd Clinigol Deintyddol Yr Alban, Canolfan Addysg Deintyddol Dundee |
| Anne Trotter | Dirprwy Gyfarwyddwr: Addysg ac Addysg Safonau, y Gyfarwyddiaeth Safonau a Pholisi, y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth |
| Kevin Wallace | Cymdeithas yr Optometryddion |
| Helen Ward | Athro Cyswllt Presgripsiynu Anfeddygol, Prifysgol South Bank Llundain |
| Yr Athro Cate Whittlesea | Athro Practis Fferylliaeth, Ysgol Feddygaeth, Fferylliaeth ac Iechyd, Prifysgol Durham |
| Lesley Woods | Ymarferydd Nyrsio, gofal brys, Ysbyty cyffredinol Burnley |
| Sally Young | Metron Sicrhau Ansawdd UHMB, Uwch Arweinydd Clinigol/Ymarferydd Nyrsio, Arweinydd NMP, Ymddiriedolaeth GIG Ysbytai Prifysgol Morecambe Bay |

## AELODAU TÎM RPS

| | |
|---|---|
| Dr Catherine Duggan | Cyfarwyddwr Datblygiad a Chymorth Proffesiynol |
| Ruth Wakeham | Dirprwy Gyfarwyddwr Datblygiad a Chymorth Proffesiynol |

## AROLWG LLENYDDIAETH

| | |
|---|---|
| Miriam Gichuhi | Ymgynghorydd Fferyllol |
| Barry Jubraj | Uwch Ddarlithydd Clinigol mewn Optimeiddio Meddyginiaethau, Coleg y Brenin Llundain |

## YMATEBWYR I'R YMGYNHGORIAD

Hoffai RPS ddiolch i'r holl unigolion a sefydliadau a anfonodd sylwadau ar y fframwaith drafft. Bu i gyfanswm o 95 o unigolion a sefydliadau ymateb i'r ymgynghoriad.

Y Gymdeithas Fferyllol Frenhinol (RPS) yw'r
corff proffesiynol ar gyfer fferyllwyr ym
Mhrydain.

Hawlfraint © The Royal Pharmaceutical Society 2016.
Cedwir pob hawl. Ni chaniateir ailddosbarthu nac
ailgynhyrchu'r cyhoeddiad hwn yn gyflawn nac yn rhannol
heb ganiatâd
deiliad yr hawlfraint.

ROYAL
PHARMACEUTICAL
SOCIETY

Nursing & Midwifery Council

## Cyngor

# Cwestiynau ymgynghoriad arfaethedig

Bydd yr ymgynghoriad ar gael ar ein gwefan a bydd pawb yn cael eu hannog i ymateb i bob agwedd o'r ymgynghoriad. Fodd bynnag, rydym yn cydnabod y bydd rhai ymatebwyr eisiau ymateb i gwestiynau penodol yn yr ymgynghoriad, felly bydd y cwestiynau'n cael eu trefnu mewn ffordd fydd yn cyflwyno pob un o'r meysydd safonol penodol yr ydym yn ymgynghori arnynt. Byddir yn cyfeirio'r ymatebwyr fel y gallant lywio'n rhwydd i feysydd unigol yr ydym yn ymgynghori arnynt sydd efallai o ddiddordeb iddynt. Er mwyn galluogi ymatebwyr i ymateb, bydd dolenni i wybodaeth ategol yn cael eu hymgorffori mewn rhai cwestiynau er mwyn darparu gwybodaeth ychwanegol am y safonau. Byddwn yn annog unigolion a sefydliadau i ymateb yn electronig, ond bydd dulliau eraill o ymateb ar gael. Bydd cyfle ar gael i gadw ymatebion cyn eu cyflwyno'n electronig.

Bydd cwestiynau'r ymgynghoriad yn cael eu trefnu o dan y categorïau canlynol:

- Safonau medrusrwydd drafft ar gyfer nyrs gofrestredig y dyfodol
- Fframwaith addysg drafft: safonau ar gyfer addysg a hyfforddiant
- Gofynion dysgu ac asesu drafft
- Gofynion rhaglen nyrsio cyn cofrestru drafft
- Gofynion rhaglen presgripsiynu nyrsys a bydwragedd drafft
- Presgripsiynu nyrsys a bydwragedd drafft
- Safonau ar gyfer rheoli meddyginiaethau
- Rhaglen newid mewn addysg - cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant
- 'Amdanoch chi' Bydd yr adran hon yn gofyn amryw o gwestiynau ynghylch pwy sydd yn ymateb, er enghraifft unigolyn/sefydliad, rôl, lleoliad (pedair gwlad), yn ogystal â gofyn am ein data monitro ethnigrwydd ac amrywiaeth arferol.

Er bod yna nifer fawr o gwestiynau, mae nifer yn cael eu fframio fel opsiynau, fel isod, gyda digon o gyfle i roi sylwadau testun rhydd er mwyn ymhelaethu ar safbwyntiau penodol.

- Cytuno'n gryf
- Cytuno
- Ddim yn cytuno nac yn anghytuno
- Anghytuno
- Anghytuno'n gryf
- Ddim yn gwybod
- Sylwadau: blwch testun rhydd ar gael, pan fo'n briodol.

## Safonau medrusrwydd drafft ar gyfer nyrs gofrestredig y dyfodol

**C1. Wrth ddatblygu'r safonau a'r gofynion drafft, roeddem yn amcanu i:**

- adlewyrchu ar beth fydd pobl ei angen gan nyrsys yn y dyfodol
- darparu deilliannau sy'n agored i asesiad gwrthrychol
- adlewyrchu gwybodaeth a sgiliau lefel uwch sy'n pwysleisio ymchwil ac yn dystiolaeth o sgiliau
- caniatáu dulliau hyblyg o gyflawni rhaglenni
- darparu dealltwriaeth o iechyd a gofal meddyliol a chorfforol i rai sy'n dechrau nyrsio
- cynnwys deilliannau sy'n paratoi nyrsys ar gyfer gweithio'n effeithiol mewn timau amlbroffesiynol a rhyngasiantaethol
- cynnwys deilliannau sy'n canolbwyntio ar arweinyddiaeth a rôl y nyrs wrth reoli gofal cymhleth
- sicrhau bod digon o bwyslais ar iechyd a llesiant
- pwysleisio iechyd cyhoeddus, dementia, eiddilwch a gofal diwedd oes
- sicrhau bod y safonau medrusrwydd newydd yn ddigon hygyrch i'r cyhoedd
- bod yn ddiamwys, clir a chryno
- darparu'r blociau adeiladu ar gyfer datblygiad proffesiynol parhaus ac ymarfer uwch ar draws ystod o gyd-destunau

**C1a. A ydych yn cytuno y bodlonwyd yr egwyddorion hyn a'u bod yn optimeiddio diogelwch y cyhoedd? (Defnyddiwch raddfa ar gyfer pob un o'r egwyddorion)**

**C2. Bydd nyrs y dyfodol yn gweithio mewn amryw o sefydliadau ac felly rydym yn credu y dylai ein medrau newydd arfaethedig fod yn gymwys ar draws y pedwar maes nyrsio (oedolion, plant, anabledd dysgu, iechyd meddwl). A ydych yn cytuno gyda'r ymagwedd hon? Os nad ydych, rhowch sylwadau os gwelwch yn dda**

**C3. A ydych yn cytuno bod y safonau medrusrwydd arfaethedig y darparu'r gofynion angenrheidiol ar gyfer arferion nyrsio diogel ac effeithiol ar adeg cofrestru?**

**C4. A ydych yn cytuno bod y medrau drafft yn pwysleisio pwysigrwydd gofal sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn?**

**C5. Mae'r medrau drafft yn rhoi mwy o bwyslais a sgiliau arwain. A ydych yn cytuno bod y sgiliau hyn yn angenrheidiol i nyrs ar adeg cofrestru?**

**C6. Mae'r medrau drafft yn rhoi mwy o bwyslais ar weithio mewn timau amlddisgyblaethol a chydlynu gofal ar draws sefydliadau amlasiantaeth. A ydych yn cytuno bod y medrau hyn yn angenrheidiol i nyrs ar adeg cofrestru?**

**C7. Mae'r medrau nyrsio y gyffredinol ar draws y pedwar maes. Mae hyn yn bodoli er mwyn adlewyrchu'r ffaith y bydd nyrsys y dyfodol yn gweithio ar draws amrywiaeth o sefydliadau ac yn dod ar draws pobl o bob oed fydd ag anghenion amrywiol gymhleth mewn perthynas ag iechyd meddyliol, gwybyddol a chorfforol. A ddylai'r gweithdrefnau nyrsio fod yn gyffredinol yn yr un modd?**

**Q8. Os ydych yn ymateb eich bod yn anghytuno'n gryf neu'n anghytuno, a ddylid cael peth amrywiaeth o ran <u>lefel</u> y gweithdrefnau nyrsio sy'n benodol ar gyfer y maes nyrsio? (Er enghraifft efallai y byddwn yn rhoi mwy o bwyslais ar uwch sgiliau asesu corfforol yn y maes nyrsio oedolion a mwy o bwyslais ar asesu iechyd meddwl uwch yn y maes nyrsio iechyd meddwl).**

**Q9. Mae'r medrau drafft yn rhoi mwy o bwyslais ar gyflawni gweithdrefnau nyrsio. A ydych yn cytuno bod y sgiliau hyn yn angenrheidiol i nyrs y dyfodol er mwyn bod yn ddiogel ac effeithiol ar adeg cofrestru?**

**C9a. Pa sgiliau ydych chi'n meddwl sydd ar goll?**

**C9b. Pa sgiliau nyrsio gweithdrefnol sydd wedi eu cynnwys yr ydych chi'n meddwl sy'n ddiangen?**

**C10. A yw'r atodiadau medrau yn nodi'r holl sgiliau cyfathrebu a rheoli perthnasoedd sydd eu hangen ar nyrs y dyfodol er mwyn bod yn ddiogel ac effeithiol ar adeg cofrestru?**

**C10a. Pa sgiliau ydych chi'n meddwl sydd ar goll?**

**C11. A oes yna unrhyw sgiliau nyrsio yn yr atodiadau fyddai'n anodd eu cyflawni yn y sefydliad gwaith, er enghraifft o ganlyniad i ddiffyg cyfleoedd i ymarfer y sgil?**

**C11a. Os bu i chi ateb oes, nodwch pa sgiliau.**

**C12. Gellir cyflawni cymhwysedd mewn sgiliau nyrsio drwy ddysgu ac asesu mewn sefydliadau gwaith efelychiadol. A ddylai cymhwysedd mewn sgiliau nyrsio <u>penodol</u> gael eu cyflawni drwy ymarfer efelychiadol cyn eu hasesu mewn sefydliad gwaith?**

**C12a. Os bu i chi ateb yn gadarnhaol, nodwch pa sgiliau.**

**C13. A oes yna unrhyw sgiliau nyrsio <u>na ellir</u> eu cyflawni'n llawn mewn sefydliadau gwaith efelychiadol?**

**C14. A oes yna unrhyw sgiliau yn yr atodiadau <u>ellid</u> eu cyflawni'n llawn drwy efelychiad?**

**C15. A yw'r atodiadau sgiliau yn disgrifio'r ddigonol y sgiliau nyrsio gweithdrefnol, y sgiliau cyfathrebu a'r rheoli perthnasoedd sydd eu hangen ym mhob un o'r bedwar maes nyrsio (oedolion, plant, anabledd dysgu, iechyd meddwl)?**

**C16. Os ydych yn ymateb eich bod yn anghytuno'n gryf neu'n anghytuno, a ddylid cael peth amrywiaeth o ran <u>lefel</u> y gweithdrefnau nyrsio sy'n benodol ar gyfer y maes nyrsio? (Er enghraifft efallai y byddwn yn rhoi mwy o bwyslais ar uwch sgiliau asesu corfforol yn y maes nyrsio oedolion a mwy o bwyslais ar asesu iechyd meddwl uwch yn y maes nyrsio iechyd meddwl).**

**C17. Er mwyn dangos bod myfyrwyr wedi cyflawni'r sgiliau cyfathrebu a pherthnasoedd er mwyn gweithio'n ddiogel ac effeithiol ar ddiwedd eu rhaglen, a**

**ddylai fod yn ofynnol i fyfyrwyr nyrsio ddangos medrusrwydd (dewiswch opsiwn):**

- Ym mhob un o'r pedwar maes gwaith nyrsio (oedolion, plant, anabledd dysgu, nyrsio iechyd meddwl)
- Yn y maes gweithio a ddewiswyd gan y myfyriwr yn unig
- Ddim yn gwybod
- Sylwadau

**C18. Bydd nyrsys yn cael eu cofrestru mewn perthynas ag un neu ragor o'r pedwar maes gwaith nyrsio (oedolion, plant, anabledd dysgu, nyrsio iechyd meddwl) ac mae'n ddisgwyliedig iddynt gyflawni'r holl sgiliau nyrsio gweithdrefnol a'r sgiliau cyfathrebu a rheoli perthnasoedd a nodir yn yr atodiadau. A ydych yn cytuno mai mewn perthynas â'r maes gwaith a ddewiswyd ganddynt yn unig y dylid cymeradwyo eu medrusrwydd, sgiliau nyrsio gweithdrefnol a'u sgiliau cyfathrebu a rheoli perthnasoedd sy'n angenrheidiol ar gyfer gweithio'n ddiogel ac effeithiol?**

**C19. A oes yna unrhyw agweddau o waith nyrsio y byddech wedi disgwyl eu gweld yn y safonau a'r medrau drafft sydd wedi eu hepgor?**

## Fframwaith addysg

**C20. Yn y fframwaith addysg ceir gofynion mewn perthynas â sefydliadau addysg, lleoliad gwaith a phartneriaid yn y gweithle sy'n gynyddol yn canolbwyntio ar ddeilliant yn hytrach na disgrifio prosesau a mewnbynnau. A ydych yn cytuno â'r ymagwedd hon tuag at ein safonau addysg a hyfforddi?**

**C21. Mae'r rhaglen newid mewn addysg arfaethedig yn amcanu at gynnig mwy o hyblygrwydd i sefydliadau addysg a'u lleoliadau gwaith a'u partneriaid yn y gweithle i ddarparu rhaglenni nyrsio a bydwreigiaeth mewn ffyrdd creadigol ac arloesol. A yw'r dyhead hwn yn amlwg yn ein cynigion?**

**C22. Wrth ddatblygu safonau a gofynion y fframwaith addysg drafft, roedd yr amcanion yn cynnwys gweithio ar:**

- sicrhau bod diogelwch cleifion yn greiddiol yn eu gwaith
- gwella deilliannau, gofynion sy'n canolbwyntio ar y dyfodol
- bod yn briodol - cyson, clir, cymesur a hyblyg
- ymyrraeth rheoleiddiol ar sail tystiolaeth sy'n hyrwyddo dysgu rhyngbroffesiynol a sicrwydd traws reoleiddiol
- fframwaith y gellir ei gymhwyso i ystod o amgylcheddau dysgu
- sicrhau y gellir mesur ac asesu'r fframwaith
- hyrwyddo cydraddoldeb ac amrywiaeth.

**C22a. A ydych yn cytuno y bodlonwyd yr egwyddorion hyn? (Defnyddiwch raddfa ar gyfer pob un o'r egwyddorion)**

**C22b. Os ydych wedi ymateb eich bod yn anghytuno'n gryf neu'n anghytuno, rhowch fwy o wybodaeth i ni allu ei hystyried.**

**C23. A ydych yn cytuno y gellir cymhwyso'r fframwaith addysg ar draws addysg a hyfforddiant cyn ac ôl-gofrestru?**

**C24. A ydych yn cytuno y gellir cymhwyso'r fframwaith addysg ar draws addysg a hyfforddiant nyrsio a bydwreigiaeth?**

**C25. A ydych yn cytuno y bydd y fframwaith addysg yn sicrhau gweithio'n effeithiol mewn partneriaeth rhwng sefydliadau addysg, lleoliadau gwaith a darparwyr dysgu yn y gweithle?**

**C25a. Os ydych wedi ymateb eich bod yn anghytuno'n gryf neu'n anghytuno, rhowch fwy o wybodaeth i ni allu ei hystyried.**

**C26. A yw safonau drafft y fframwaith addysg yn gweithio'r un mor dda mewn perthynas â rhaglenni a ddarperir mewn dulliau addysgol hyblyg: er enghraifft yn rhan amser neu lawn amser mewn prifysgol, ac yn rhan amser yn y gweithle?**

**C27. A ydych yn cytuno bod y fframwaith addysg yn hyrwyddo dysgu rhyngbroffesiynol?**

**C27a. Nodwch unrhyw ofynion ychwanegol y gallem eu cynnwys er mwyn annog mwy o ddysgu rhyngbroffesiynol.**

**C28. A ydych yn cytuno bod y fframwaith addysg yn hyrwyddo diogelwch pobl a chleifion drwy gydol yr holl addysg a hyfforddiant sy'n digwydd mewn sefydliadau addysg ac efelychiadol?**

**C29. A ydych yn cytuno bod y fframwaith addysg yn hyrwyddo diogelwch pobl a chleifion drwy gydol yr holl addysg a hyfforddiant sy'n digwydd mewn sefydliadau lleoliad gwaith a hyfforddiant yn y gweithle?**

**C30. A oes yna unrhyw agwedd o ddarparu a rheoli addysg a hyfforddiant y byddech wedi disgwyl eu gweld yn y fframwaith addysg, ond sydd wedi eu hepgor?**

## Gofynion dysgu ac asesu drafft

**C31. Fel rhan o'n gofynion newydd arfaethedig ar gyfer dysgu ac asesu, rydym yn cynnig gwahanu cymorth a goruchwylio myfyrwyr oddi wrth asesu dysgwyr. A ydych yn cytuno gyda'r ymagwedd hon?**

**C32. Fel rhan o'n gofynion arfaethedig newydd, nid ydym yn bwriadu pennu medrau ar gyfer y rolau newydd yr ydym wedi eu cynnig. Yn hytrach, byddwn yn annog sefydlu dulliau arloesol a chreadigol cytunedig o oruchwylio ac asesu. A ydych yn cytuno gyda'r ymagwedd hon?**

**C33. Byddai ein gofynion newydd arfaethedig yn golygu na fyddai angen i'r rhai sy'n cynorthwyo, goruchwylio ac asesu dysgwyr gwblhau rhaglen a gymeradwyir**

**gan NMC bellach, a byddai hynny'n galluogi defnyddio dulliau arloesol a chreadigol lleol a rhyngbroffesiynol. A ydych yn cytuno gyda'r ymagwedd hon?**

**C33a. Nodwch unrhyw risgiau yr ydych yn eu rhagweld mewn perthynas â'r cynnig hwn?**

**C34. Mae'r model arfaethedig yn galluogi i unrhyw weithiwr iechyd a gofal cymdeithasol cofrestredig sydd wedi ei baratoi'n briodol fod yn oruchwylwyr gweithio, ac nad oes raid iddynt fod yn gofrestredig â'r NMC, a bydd hynny'n galluogi i addysgwyr benderfynu'n lleol ar yr unigolion a/ neu grwpiau sydd fwyaf addas i oruchwylio dysgwyr. A ydych yn cytuno gyda'r ymagwedd hon?**

**C34a. Nodwch unrhyw risgiau yr ydych yn eu rhagweld mewn perthynas â'r ymagwedd hon.**

**C35. Er y bydd yna ystod o addysgwyr academaidd ac addysgwyr yn y gweithle yn cyfrannu at asesu myfyrwyr, mae'r model arfaethedig yn nodi y bydd yna ddau aseswr - aseswr gwaith ac aseswr academaidd - fydd yn gyfrifol am asesu myfyrwyr mewn perthynas â phob rhan o'r rhaglen (er enghraifft ar gyfer 1 mlynedd mewn rhaglen 3 blynedd, neu semester cyntaf mewn rhaglen ôl-gofrestru). A ydych yn cytuno gyda'r ymagwedd hon?**

**C35a. Nodwch unrhyw risgiau yr ydych yn eu rhagweld mewn perthynas â'r ymagwedd hon.**

**C36. Yn y dyfodol, efallai na fydd angen i fyfyrwyr nyrsio gael eu hasesu gan nyrs o'r un maes gwaith. Bydd hynny yn newid o'r arferion presennol sy'n ei gwneud yn ofynnol i fyfyrwyr nyrsio gael eu hasesu gan nyrs o'r un rhan ac is-ran o'r gofrestr. Bydd hyn yn galluogi i addysgwyr o sefydliadau academaidd a gwaith i benderfynu'n lleol ar bwy sy'n fwyaf addas i wneud hyn. A ydych yn cytuno gyda'r ymagwedd hon?**

## Gofynion rhaglen nyrsio cyn cofrestru drafft

**C37. Gyda ffocws ar ddeilliannau, mae ein gofynion rhaglen newydd yn galluogi i sefydliadau addysg cymeradwyedig a'u partneriaid lleoliad gwaith bennu meini prawf mynediad ar gyfer llythrennedd, rhifedd a llythrennedd digidol, ac ni fyddwn yn pennu gofynion yn y maes hwn. A ydych yn cytuno gyda'r ymagwedd hon?**

**C38. Yn y meini prawf nyrsio cyn cofrestru presennol, mae'n rhaid i AElau sefydlu prosesau er mwyn galluogi cydnabod dysgu blaenorol hyd at uchafswm o 50 y cant o'r rhaglen, cyn belled y bodlonir yr holl ofynion yn llawn, (gall hynny naill ai fod yn ddysgu academaidd neu'n seiliedig ar waith, neu'r ddau). A ydych yn cytuno y dylem barhau i bennu uchafswm ar gyfer cydnabod dysgu blaenorol?**

**C38a. Os bu i chi ateb eich bod yn cytuno'n gryf neu'n cytuno, pa ganran o'r rhaglen ddylai fod yn uchafswm ar gyfer cydnabod dysgu blaenorol?**

**C39. Fel cydnabyddiaeth o bwysigrwydd theori a arferion mewn perthynas â dysgu, rydym yn cynnig ein bod yn parhau i'w gwneud yn ofynnol bod yr un faint**

**o addysg yn cael ei ddarparu ar gyfer arferion a theori. A ydych yn cefnogi'r safbwynt hwn?**

**C39a. Os ydych yn cytuno'r gryf neu'n anghytuno'n gryf, a ddylem adael i sefydliadau addysg unigol a'u partneriaid lleoliad gwaith benderfynu ar y gyfran o addysgu arferion a theori?**

**C40. Ar hyn o bryd mae yna uchafswm sy'n cyfyngu ar y dysgu ymarferol a wneir mewn amgylcheddau dysgu ymarferol efelychiadol i 300 awr. Mae ein cynigion yn dweud y gellir cynyddu'r dysgu ymarferol a ddarperir drwy efelychiad, ond na ddylai fod yn fwy na'r oriau a dreulir mewn sefydliadau lleoliad gwaith gwirioneddol. Mae'r safon newydd yn golygu y gall myfyrwyr dreulio mwy o amser mewn amgylcheddau dysgu ymarferol efelychiadol nag a ganiateir ar hyn o bryd. A ydych yn cytuno gyda'r ymagwedd hon?**

**C40a. Os bu i chi ateb eich bod yn anghytuno'n gryf neu'n anghytuno, a ydych yn meddwl y dylid parhau i gyfyngu ar y nifer o oriau ar gyfer dysgu ymarferol efelychiadol, ac os ydych, faint ddylai'r uchafswm oriau fod?**

**C40b. Nodwch yr uchafswm oriau ddylid eu defnyddio ar gyfer dysgu ymarferol efelychiadol.**

**C41. Mae gofynion y rhaglen nyrsio cyn cofrestru drafft yn galluogi i sefydliadau addysgu benderfynu beth sy'n ofynnol o fyfyrwyr ar bob cam yn eu datblygiad. A ydych yn cefnogi'r ymagwedd hon?**

**C42. Drwy gydol ein hymgysylltu cyn-ymgynhgoriad, mae cyflwyno dogfen asesu arferion safonol cenedlaethol ar gyfer y DU gyfan wedi cael ei chynnig yn barhaus er mwyn gwella cysondeb dyfarniadau deilliant ar fedrusrwydd myfyrwyr. A ydych yn cytuno gyda'r cynnig hwn?**

**C42a. Os ydych yn cytuno neu'n cytuno'n gryf â'r cwestiwn blaenorol, a ddylai'r NMC weithio gydag eraill er mwyn cefnogi datblygu dogfen asesu arferion safonol?**

## Gofynion rhaglen presgripsiynu nyrsys a bydwragedd drafft

Mae yna beth troshaenu rhwng y cwestiynau yr ydym yn eu gofyn mewn perthynas â'n gofynion addysg a hyfforddiant presgripsiynu arfaethedig, a'r cwestiynau yr ydym yn eu gofyn mewn perthynas â'n cynigion o ran medrusrwydd presgripsiynu. Felly rydym yn argymell eich bod yn ystyried y cwestiynau hyn law yn llaw â'n dogfen ymgynghori ar bresgripsiynu.

**C43. Mae'r gofynion rhaglen drafft yn caniatáu i nyrs neu fydwraig gofrestredig gwblhau gofynion rhaglen bresgripsiynu ymarferydd cymunedol (a elwir yn V150) <u>yn syth</u> ar ôl cwblhau'n llwyddiannus eu rhaglen nyrsio cyn cofrestru ac ar ôl cofrestru. Rydym yn cynnig hynny oherwydd, o ganlyniad i gyflwyno addysgu a dysgu theori presgripsiynu i raglenni gradd nyrsio cyn cofrestru, rydym yn credu y bydd nyrsys fydd newydd gymhwyso yn y dyfodol yn fwy parod i gychwyn ar y rhaglen hon ar ôl cofrestru cychwynnol cyn belled bod ganddynt y cymorth angenrheidiol. Bydd yr ymagwedd hon yn ategu medrusrwydd arferion presgripsiynu ar draws ystod o sefydliadau yn gynharach yn ystod gyrfa nyrsys. A ydych yn cytuno gyda'r ymagwedd hon?**

**C44. Mae gofynion y rhaglen bresgripsiynu drafft yn lleihau'r gofyniad mynediad presennol o gwblhau tair blynedd o waith ôl-gofrestru i <u>un mlynedd</u> o waith ôl-gofrestru er mwyn bod yn gymwys i gychwyn ar raglen presgripsiynydd ategol/annibynnol (a elwir yn V300). Rydym yn cynnig y gostyngiad hwn oherwydd anghenion cleifion a modelau gofal newydd, y llwyddiant i ymestyn cwmpas arferion presgripsiynu a gwell gwybodaeth theori gan nyrsys er mwyn cynorthwyo dilyniant tuag at ymarfer presgripsiynu. A ydych yn cytuno gyda'r ymagwedd hon?**

**C45. Mae gofyniad 4.6.2 yn nodi bod angen pasio'r asesiad rhifedd gyda sgôr o 100%. A ydych yn cytuno y dylai'r sgôr pasio fod yn 100%?**

**C45a. Os bu i chi ateb eich bod yn anghytuno'n gryf neu'n anghytuno, a ydych yn credu y dylid pennu'r marc pasio o fewn ystod hyblyg, a beth ydych yn meddwl ddylai'r ystod hwnnw fod?**

## Cymhwysedd presgripsiynu nyrsys a bydwragedd drafft

Mae yna beth troshaenu rhwng y cwestiynau yr ydym yn eu gofyn mewn perthynas â'n gofynion addysg a hyfforddiant presgripsiynu arfaethedig, a'r cwestiynau yr ydym yn eu gofyn mewn perthynas â'n cynigion o ran medrusrwydd presgripsiynu. Felly, rydym yn argymell eich bod yn ystyried y cwestiynau hynny law yn llaw â'r cwestiynau mewn perthynas â'r cwestiynau am ofynion y rhaglen bresgripsiynu a geir yn y ddogfen ymgynghori ar y fframwaith addysg.

**C46. A ydych yn cytuno gyda'n cynnig i ddefnyddio *Fframwaith cymhwyso sengl i bawb sy'n presgripsiynu* Y Gymdeithas Fferyllol Frenhinol fel sail i ofynion medrusrwydd presgripsiynu ein rhaglen presgripsiynu ôl-gofretru ac arferion presgripsiynu nyrsio a bydwreigiaeth?**

**C47. Os bu i chi ateb eich bod yn cytuno neu'n anghytuno'n gryf â'r cwestiwn uchod, a ydych yn credu y bydd hynny yn hyrwyddo ymagwedd ar y cyd tuag at gymhwysedd presgripsiynu ymysg grwpiau proffesiynol?**

**C48. Er mwyn cynorthwyo a hyrwyddo dysgu rhyngbroffesiynol a gweithio mewn timau amlddisgyblaethol, ac fel cydnabyddiaeth o'r cynnydd yn nifer y nyrsys, bydwragedd a gweithwyr proffesiynol anfeddygol eraill sy'n presgripsiynu yn ystod y degawd a fu, a ydych yn cytuno â'n cynnig i ddileu rôl a theitl yr ymarferydd meddygol dynodedig a'i amnewid gyda <u>rôl aseswr arferion presgripsiynu</u>? Gallai'r unigolyn yma fod yn unrhyw weithiwr gofal iechyd proffesiynol sydd â chymhwyster presgripsiynu addas a phrofiad perthnasol o bresgripsiynu.**

**C49. Yn ystod yr ymgysylltu cyn-ymgynghori, amlygwyd rhai meysydd risg posibl mewn perthynas â meysydd presgripsiynu penodol, er enghraifft, presgripsiynu o bell, presgripsiynu cosmetig ac arferion presgripsiynu annibynnol. A ydych yn cytuno bod meysydd presgripsiynu o'r fath yn cyfiawnhau datblygu canllawiau ychwanegol er mwyn ategu ein cynigion mewn perthynas â medrusrwydd**

**presgripsiynu yn unol â'r Cod[1] er mwyn sicrhau bod y cyhoedd sy'n ceisio mynediad i'r meysydd presgripsiynu yma yn cael eu diogelu?**

## Safonau ar gyfer rheoli meddyginiaethau

**C50. A ydych yn cytuno mai sefydliadau sy'n darparu gofal a gwasanaethau i bobl a chleifion ddylai wneud penderfyniadau o ran llywodraethiant a pholisi mewn perthynas â rheoli meddyginiaethau yn ddiogel?**

**C51. A ydych yn cytuno y dylai arferion, polisïau a safonau rheoli meddyginiaethau yn seiliedig ar dystiolaeth fod yn gymwys i'r holl weithwyr gofal iechyd proffesiynol yn hytrach na bod safonau ar wahân yn bodoli (a bennir gennym ni) sydd ond yn gymwys i nyrsys a bydwragedd?**

**C52. Pa mor aml ydych yn defnyddio'r SMM cyfredol?**

**C53. Os ydych yn defnyddio'r safonau, ar gyfer beth ydych yn eu defnyddio?**

**C54. A oes yna rai elfennau o'r SMM cyfredol yr ydych yn eu defnyddio'n amlach nag eraill?**

**C54a. Os oes, nodwch pa agweddau sydd yn fwyaf gwerthfawr i chi.**
**C55. A ydych yn cytuno gyda'n cynigion i ddiddymu ein SMM?**

**C55a. Os ydych yn anghytuno neu'n anghytuno'n gryf â'n cynnig i ddiddymu ein SMM, pa agweddau o ganllaw rheoli meddyginiaethau ar gyfer nyrsys a bydwragedd fyddai'n gwella diogelwch y cyhoedd?**

**C56. Beth ydych chi'n tybio yw'r risgiau mewn perthynas â diddymu ein SMM?**

## Cwestiynau olaf (fydd yn cael eu cynnwys ar ddiwedd pob adran)

**C57. A oes gennych unrhyw sylwadau eraill ar y dogfennau sy'n destun yr ymgynghoriad?**

## Amdanoch chi

**C59. A ydych yn ymateb fel unigolyn neu ar ran sefydliad?**

### Ymateb fel unigolyn

**C60.**

- Rwyf yn aelod o'r cyhoedd. Os ydych, ewch i C6
- Rwyf yn nyrs neu'n fydwraig. Os ydych, ewch i C3

[1] Y Cod: Safonau arferion ac ymddygiad proffesiynol ar gyfer nyrsys a bydwragedd (2015)

## Nyrsys a bydwragedd yn unig

**C61. Pa rai o'r categorïau canlynol sy'n disgrifio eich gwaith presennol orau?**
(Ticiwch un neu ragor o feysydd sy'n disgrifio orau y maes yr ydych yn gweithio ynddo)

- Gofal cleifion uniongyrchol
- Rheolaeth
- Polisi Addysg
- Ymchwil
- Arall (rhowch fanylion)

**C62. Ticiwch UN bocs sy'n disgrifio orau y math o sefydliad yr ydych yn gweithio iddo:**

- Adran y llywodraeth neu gorff cyhoeddus
- Corff rheoleiddio
- Sefydliad proffesiynol neu undeb llafur
- GIG sy'n cyflogi meddygon, nyrsys neu fydwragedd
- Cyflogwr nyrsys a bydwragedd yn y sector preifat
- Asiantaeth ar gyfer nyrsys a bydwragedd
- Darparwr addysg
- Defnyddiwr neu sefydliad cleifion
- Arall

**C63. Allwch chi dicio'r bocsys isod sy'n adlewyrchu orau eich rôl?**

- Nyrs oedolion
- Nyrs iechyd meddwl
- Nyrs Anabledd Dysgu
- Nyrs Plant
- Nyrs iechyd cyhoeddus gymunedol arbenigol
- Ymwelydd iechyd
- Nyrs iechyd galwedigaethol
- Nyrs ysgol
- Nyrs iechyd teulu
- Nyrs practis arbenigol
- Nyrs ardal
- Nyrs practis cyffredinol
- Arall (rhowch fanylion)
- Bydwraig

## Pob unigolyn

**C64. Ym mha wlad ydych yn byw?**

- Lloegr
- Gogledd Iwerddon
- Yr Alban
- Cymru
- Arall - Ardal Economaidd Ewrop
- Arall - gweddill y byd (dywedwch ble)

**C65 i C68 - Ystod lawn o wybodaeth monitro ethnigrwydd ac amrywiaeth (oed, rhyw, ethnigrwydd etc.)**

## Ymateb fel sefydliad

**C69. Pa un o'r categorïau canlynol sy'n disgrifio orau eich sefydliad?**

- Corff sy'n cynrychioli nyrsys a bydwragedd
- Corff sy'n cynrychioli cleifion neu'r cyhoedd
- Adran y llywodraeth
- Darparwr gofal iechyd annibynnol
- GIG neu sefydliad HSC
- Darparwr addysg nyrsio neu fydwreigiaeth
- Corff rheoleiddio
- Arall (rhowch fanylion)

**C70. Ym mha wlad mae eich sefydliad wedi ei leoli?**

- Y DU gyfan
- Lloegr
- Yr Alban
- Gogledd Iwerddon
- Cymru
- Arall - Ardal Economaidd Ewrop
- Arall - gweddill y byd (rhowch fanylion)

**C71. Rhowch enw eich sefydliad**

**C72. A fyddech yn fodlon i'ch sylwadau yn yr ymgynghoriad hwn gael eu clustnodi a'u priodoli i'ch sefydliad chi yn yr adroddiad, neu a fyddai'n well gennych i'ch ymateb aros yn anhysbys?**

- Rwyf yn fodlon i fy sylwadau gael eu priodoli i fy sefydliad
- Cadwch fy ymatebion yn anhysbys os gwelwch yn dda

**Diwedd**